Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru



llyw.cymru

# Cynnwys


**1** Pennod 1: Rhagair y Gweinidog

**3** Pennod 2: Dull strategol o fuddsoddi mewn seilwaith
3 Trosolwg
4 Rhagolwg Economaidd
7 Cyllid Cyhoeddus
8 Gweledigaeth hirdymor
8 Blaenoriaethu cyllid
9 Dull ysgogi cyfalaf – Hierarchaeth

**14** Pennod 3: Egwyddorion Trawsbynciol
16 Dull gweithredu thematig a chyflawni yn erbyn mwy nag un canlyniad
19 Ymrwymiad trosfwaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur
21 Gwreiddio Cyfiawnder Cymdeithasol
22 Creu Lleoedd
21 Buddsoddi mewn seilwaith newydd o'i gymharu â chynnal a chadw seilwaith sy'n bodoli eisoes
22 Cadernid yn wyneb tueddiadau yn y dyfodol
23 Caffael


OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43204 ISBN digidol 978-1-80391-365-0

**24** Pennod 4: Llesiant Amgylcheddol
24 Trosolwg
25 Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr
27 Buddsoddi mewn Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol
30 Gwella ansawdd aer a dŵr
32 Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy

**33** Pennod 5: Llesiant Cymdeithasol
33 Trosolwg
33 Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru
37 Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru
38 Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol
40 Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol

**42** Pennod 6: Llesiant Economaidd
42 Trosolwg
43 Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru
44 Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau
47 Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd
48 Gwella deilliannau addysgol

**49** Pennod 7: Llesiant Diwylliannol
49 Trosolwg
49 Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni
50 Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth
52 Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden
53 Gwella'r buddsoddiad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru

**54** Pennod 8: Cyflawni Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru
54 Trosolwg
54 Cyflawni'r Strategaeth – Llywodraeth Cymru
56 Gweithio gyda'n partneriaid
59 Y Sector Preifat

**62** Atodiad A: Adolygiad o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012

Pennod 1

# Rhagair y Gweinidog

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod ymhlith y rhai mwyaf heriol yng Nghymru erioed. Mae'r coronafeirws wedi effeithio'n ddifrifol ar bron i bob agwedd ar ein bywydau – o'r ffordd rydym yn diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed i'r ffordd rydym yn gweithio, o'r ffordd rydym yn teithio i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Er nad yw bygythiad Covid wedi diflannu eto, mae'n amser edrych ymlaen – sut gallwn ni ail-adeiladu ar ôl y pandemig a mynd i'r afael â'r heriau mawr eraill sy'n ein hwynebu fel cymdeithas – heriau sydd yr un mor ddirfodol a'r un mor fygythiol â Covid ei hun: yr argyfwng hinsawdd a'r bygythiad enbyd i'n hamgylchedd naturiol ac effaith niweidiol anghydraddoldeb ar unigolion a chymunedau, i enwi dim ond dau.

Ar ddechrau tymor newydd y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o fynd i'r afael â'r heriau hynny er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith ledled Cymru a all helpu i feithrin y wlad wyrddach, decach a mwy ffyniannus mae ar bob un ohonom eisiau ei gweld.

Byddwn yn pwyso ar yr adnoddau pwysig rydym wedi'u datblygu dros y degawd diwethaf i sicrhau newid radical, er mwyn ein helpu yn y gwaith hwn. Y ddeddf drawsnewidiol sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw'r pwysicaf o'r rhain. Mae'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i fuddsoddi mewn ffordd sy'n gwella Llesiant Amgylcheddol, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol pobl Cymru.

Byddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd a ddarperir drwy Ddeddf Cymru 2017 sy'n cynyddu cyfrifoldebau, pwerau trethu a chapasiti benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru i fod yn fwy creadigol yn y ffordd rydym yn datblygu ac yn ariannu buddsoddiad mewn seilwaith.

A byddwn yn defnyddio ein hymrwymiadau cyfunol a chyfreithiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, i bennu llwybr clir ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith wedi'i gryfhau gan yr ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y strategaeth 10 mlynedd hon i gefnogi economi ddi-garbon.

Yng nghyd-destun yr holl newidiadau hyn, mae effaith gyfun pandemig y Coronafeirws, a'r penderfyniad i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi creu cyfres o heriau economaidd ac ehangach sylweddol y gallai gymryd degawdau i'w goresgyn.

Gwyddom fod buddsoddi yn y seilwaith iawn, yn y mannau cywir, yn gyfrwng hollbwysig i alluogi twf teg a chynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun sy'n newid yn gyflym yn gofyn am ddull gweithredu gwahanol i'n fframwaith strategol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y ddogfen hon – ein "Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru" newydd rydym yn ei lansio heddiw.

Yn hytrach na meddwl yn gyntaf “pa seilwaith dylen ni fuddsoddi ynddo?” rhaid gofyn “beth ddylai buddsoddi yn ein seilwaith ei alluogi?”. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), mae’r strategaeth hon yn gosod cyfres o ganlyniadau, wedi’u nodi o dan y pedwar maes llesiant – Llesiant Amgylcheddol, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol – y gall buddsoddi mewn seilwaith eu cyflawni. Er bod y canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni wedi’u strwythuro fel hyn, mae’n hanfodol ein bod yn cydnabod y dylai buddsoddi mewn sector seilwaith penodol arwain at fanteision yn erbyn llawer o ganlyniadau.

Mae’n hanfodol manteisio i’r eithaf ar y rhan mae seilwaith yn ei chwarae, a bod gennym y seilwaith i gefnogi’r Gymru mae arnom eisiau ei throsglwyddo i genedlaethau’r dyfodol. Mae’r strategaeth hon yn rhoi’r fframwaith ar waith i sicrhau bod hynny’n digwydd, a sicrhau bod ein buddsoddiadau’n cael eu targedu at yr ymyriadau hynny sy’n cyflawni ein huchelgeisiau ehangach yn y ffordd fwyaf effeithiol. Rhaid inni nawr weithredu ar y cyd – fel Llywodraeth, fel sector cyhoeddus ehangach, ac fel buddsoddwyr preifat – i sicrhau bod y cynnydd dros y deng mlynedd nesaf wir yn cyfateb i raddfa’r heriau rydym yn eu hwynebu.



**Rebecca Evans AS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Pennod 2:

# Dull strategol o fuddsoddi mewn seilwaith

## Trosolwg

**1.** Mae Cymru Sero Net yn glir iawn ei bod yn rhaid i hwn fod yn ddegawd o weithredu o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Dyna pam, yn ogystal â'r canlyniadau yn y ddogfen hon sydd wedi'u strwythuro o amgylch y meysydd llesiant, rydym yn gosod cyfres o "egwyddorion trawsbynciol" – ac mae cydnabod ein hymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur wrth galon y rheini. Bydd prif ddiben buddsoddi mewn seilwaith yn wahanol o un sector i'r llall ac o un rhaglen i'r llall. Er hynny, bydd angen inni gynllunio ein holl fuddsoddiadau presennol mewn seilwaith a'r buddsoddiadau yn y dyfodol i chwarae eu rhan yn bodloni ein gofynion lleihau, a chynnig camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer byd natur.

**2.** Rhaid i ganlyniadau'r strategaeth hon barhau'n berthnasol drwy gydol ei 10 mlynedd – ac yn hirach o lawer o ystyried y bydd y seilwaith rydym yn buddsoddi ynddo nawr gyda ni am ddegawdau mewn nifer o achosion – ac eto mae'r sylfaen dystiolaeth, y datrysiadau technolegol, a hyd yn oed ein hamlenni ariannu'n newid yn llawer cyflymach na hynny. O'r herwydd, mae canlyniadau'r strategaeth hon wedi cael eu pennu heb gyfeirio at raglenni na phrosiectau seilwaith penodol.

**3.** Mae ein Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth hon heddiw, sy'n nodi'r rhaglenni cyfalaf allweddol sy'n cyflawni'r canlyniadau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn fwyaf effeithiol dros y blynyddoedd ariannol 2022-23 i 2024-25. Mae'r dyraniadau a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith yn cyd-fynd â Chyllideb ddrafft 2022-23, ac rydym yn manteisio ar y cyfle i gael setliad cyfalaf tair blynedd o'r Adolygiad o Wariant i ddarparu rhywfaint o sicrwydd mawr ei angen i'n rhanddeiliaid ac i'n partneriaid cyflawni. Drwy bennu cynllun cyflawni tair blynedd i ategu'r strategaeth, rydym yn gallu adolygu ac addasu ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer cylchoedd gwario yn y dyfodol yng ngoleuni'r hyn y bydd tystiolaeth yn ei ddweud wrthym yw'r ymyriadau mwyaf effeithiol.

**4.** Er bod y cyd-destun strategol wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gwreiddiol yn 2012, mae heriau ariannol tebyg yn dal i fodoli. Bryd hynny, tynnodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ar y pryd sylw at y *"gostyngiad yn ein cyllideb gyfalaf yn sgil y toriadau i'r gyllideb o du Llywodraeth y DU".. a oedd yn... "gofyn inni addasu a sicrhau buddsoddi sydd yn gyson effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol" ac "yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol fwyaf heriol ers datganoli".* Mae llawer o hyn yn wir hyd heddiw.

**5.** Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith yn nodi beth mae canlyniad yr Adolygiad o Wariant yn ei olygu i Gymru ac i'n cynlluniau buddsoddi uchelgeisiol. Yn ymarferol, yr angen i gynyddu ein hysgogiadau cyfalaf ac mae'r fantais y gall yr ysgogiadau hynny ei chyflawni'r un mor berthnasol heddiw ag yn 2012. Ym Mhennod 2, rydym yn nodi ein dull gweithredu strategol ar gyfer defnyddio'r ysgogiadau cyfalaf y gallwn eu rheoli, gan gynnwys ein capasiti benthyca a'n mecanweithiau cyllid arloesol, a'n cais parhaus i Lywodraeth y DU sicrhau bod gennym hyblygrwydd yn ein prosesau cyllidebu i reoli ein rhaglenni buddsoddi dros nifer o flynyddoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol i Gymru.

**6.** Yn y strategaeth hon, rydym yn ystyried "seilwaith" yn y ffordd ehangaf bosibl, gan amrywio o'r amgylchedd adeiledig traddodiadol i seilwaith "gwyrdd" a "glas", fel ein coetiroedd a'n buddsoddiadau rheoli llifogydd naturiol. Rydym yn hefyd yn cydnabod bod ein cymorth cyfalaf i fusnesau yn arwain at fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, hyd yn oed os nad yw'n "berchen" i Lywodraeth Cymru. Felly mae ein rhaglenni datblygu economaidd yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth hon hefyd.

**7.** Er mwyn cyflawni'r canlyniadau yn y strategaeth hon, bydd angen mwy na buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn unig, ac mae'r bennod ar gyflawni'n nodi sut byddwn yn defnyddio ein hysgogiadau ehangach i sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith gan gyrff cyhoeddus eraill a'r sector preifat hefyd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

**8.** Un elfen yn unig o'r ateb i gyflawni uchelgeisiau'r llywodraeth hon yw buddsoddi mewn seilwaith, boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat. Felly, rhaid edrych ar y strategaeth hon ar y cyd â'r ysgogiadau eraill sydd gan Lywodraeth Cymru, a'r ysgogiadau nad ydym yn eu rheoli'n uniongyrchol. Er enghraifft, mae ein buddsoddiad yn ein sylfaen sgiliau yn hanfodol i sbarduno twf economaidd, a bydd ein buddsoddiad mewn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella canlyniadau iechyd. Yn yr un modd, bydd y gwaharddiad ar werthu ceir tanwydd ffosil newydd o 2030 ymlaen gan Lywodraeth y DU yn ysgogiad allweddol i sbarduno newid dulliau teithio a bydd datgarboneiddio'r grid yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o leihau allyriadau carbon preswyl.

## Rhagolwg Economaidd

**9.** Mae'r pandemig wedi dominyddu datblygiadau economaidd diweddar. Fodd bynnag, rhaid dylunio seilwaith i adlewyrchu tueddiadau hirdymor, felly mae goblygiadau'r pandemig yn ymwneud yn bennaf â'r graddau y mae wedi cyflymu, neu hyd yn oed wedi newid, y tueddiadau hynny.

**10.** Ers y chwyldro diwydiannol, ledled Cymru a gweddill y DU, bu tuedd barhaus i incwm gwirioneddol pobl gynyddu. Dros y degawdau diwethaf, ond cyn argyfwng ariannol 2008, roedd cyfradd y cynnydd wedi bod oddeutu 2% bob blwyddyn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae cyfradd y twf wedi arafu'n sylweddol ers yr argyfwng ariannol.

**11.** Mae gwella cynhyrchiant yn barhaus wedi arwain at y twf hirdymor mewn incwm, yn ei dro mae hyn yn adlewyrchu arloesedd parhaus, sef y sbardun i godi safonau byw.


**12.** Mae'r holl ragfynegwyr prif ffrwd, gan gynnwys y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn disgwyl i'r twf barhau dros yr hirdymor. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn benodol, yn rhagdybio y bydd cynhyrchiant y DU yn tyfu 1.5% y flwyddyn dros yr hirdymor yn y DU drwyddi draw. Mae hyn yn is na'r gyfradd yr oedd wedi'i rhagdybio'n flaenorol sef 2.0%, sy'n adlewyrchu'r profiad ers yr argyfwng ariannol.

**13.** Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd ynghylch y trywydd y bydd yr economi'n ei ddilyn, yn enwedig yn y tymor byr i'r tymor canolig. Yn ei rhagolwg diweddaraf (Hydref 2021), mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl y bydd y blynyddoedd nesaf yn gyfnod o dwf araf yn yr economi ac mewn safonau byw ledled y DU am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys effeithiau chwyddiant a chynnydd mewn trethi.

**14.** Mae cynnyrch domestig gros (cyfanswm gwerth y nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal) yn dal yn ddangosydd allweddol o berfformiad economaidd cyffredinol, er ei bod yn hysbys bod iddo gyfyngiadau fel mesur o lesiant. Mae cynnydd mewn cynnyrch domestig gros yn adlewyrchu gwelliannau mewn cynhyrchiant yn bennaf, dros yr hirdymor mae hyn yn creu'r potensial am gynnydd mewn cyflogau go iawn a'r sylfaen drethu.

**15.** Mae Siart 1 yn dangos rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer cynnyrch domestig gros y DU.

### Siart 1: Rhagolwg cynnyrch domestig gros y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Hydref 2021




Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**16.** Ac ystyried senario canolog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – y rhagolwg sydd wedi'i ddangos yn y siart – disgwylir i gynnyrch domestig gros ddod yn ôl i'w lefel cyn y pandemig yn 2022, ac yna ailddechrau tyfu'n agos at y gyfradd dybiedig o dwf mewn cynhyrchiant dros yr hirdymor, er y bydd hynny o sylfaen is na'r hyn y byddid wedi'i ddisgwyl cyn y pandemig.

**17.** Nid oes rhagolygon economaidd swyddogol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU, ac mae datblygiadau ledled y DU yn dylanwadu'n gryf ar ganlyniadau economaidd Cymru, yn enwedig yn y tymor byr i ganolig. Mae'r ysgogiadau polisi economaidd sydd gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu'n bennaf dros y tymor hirach.

**18.** Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi cadarnhau, wrth fynegi ar sail "y pen", bod y llwybr a ddilynir gan yr economi yng Nghymru yn debyg i'r llwybr ar gyfer y DU drwyddi draw dros y tymor canolig, er bod amrywiadau'n digwydd ar hap, ond yn gwrthbwyso ei gilydd.

**19.** Yn ogystal â phatrwm yr adferiad o'r pandemig, mae'r ansicrwydd mawr ynghylch llwybr yr economi yn y tymor hirach yn cynnwys:

- y rhagolygon ar gyfer twf mewn cynhyrchiant dros y tymor hirach. Fel y nodwyd uchod, mae'r twf ar draws y DU (a gwledydd eraill i raddau) wedi bod yn eithriadol o wan ers yr argyfwng ariannol;
- goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r newid i berthnasoedd masnachu newydd. Mae llawer o arbenigwyr annibynnol yn cytuno'n gyffredinol y bydd hyn yn arwain at dwf arafach nag fel arall;
- poblogaeth sy'n heneiddio. Ar draws llawer o Gymru dros y degawdau nesaf gallai hyn arwain at ostyngiad gwirioneddol yn nifer y bobl, yn enwedig y rhai 16-64 oed, gyda goblygiadau andwyol posibl o ran cynhyrchiant a'r sylfaen drethu;
- canlyniadau mabwysiadu technolegau newydd, gan gynnwys y rheini sydd eu hangen i ddatgarboneiddio'r economi.

**20.** O ran newid yn yr hinsawdd yn benodol, mae dadansoddiad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dangos, ar yr amod bod polisïau priodol yn cael eu rhoi ar waith, ei bod yn bosibl cyfuno datgarboneiddio â'r cynnydd hirdymor mewn cynhyrchiant sy'n angenrheidiol i sicrhau safonau uwch drwy gynyddu cyflogau gwirioneddol a sylfaen drethu gynyddol

**21.** Mae'n ymddangos mai un o ganlyniadau mawr y pandemig oedd cyflymu'r broses o fabwysiadu technolegau ac arferion gweithio a oedd yn dod yn fwy amlwg yn raddol beth bynnag. Y peth mwyaf nodedig, wrth gwrs, fu'r twf mewn gweithgarwch economaidd "o bell", yn enwedig gweithio o bell, ond hefyd mewn manwerthu a masnach yn fwy cyffredinol.

**22.** Mae hyd a lled y newid parhaol yn dal yn ansicr, gyda'r rhan fwyaf o ddadansoddwyr yn tybio ei bod hi'n debygol y bydd rhywfaint o newid am yn ôl, gyda llawer o gyflogwyr yn cynnig model "hybrid" o weithio ar gyfer y dyfodol.

**23.** Mae dadansoddiad diweddar yn dangos y gellid cyflawni tua un rhan o bump o swyddi yn gyfan gwbl o bell ar hyn o bryd. Mae'r "swyddi unrhyw le" hyn yn aml yn swyddi cymharol fedrus sy'n talu'n dda, yn bennaf yn y sector gwasanaethau busnes[1].

**24.** Yn ddiweddar mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi ystyried goblygiadau'r duedd i weithio o bell ar ddosbarthiad gofodol gweithgarwch economaidd[2]. Mae'r prif gasgliadau'n cynnwys:

- Mae posibilrwydd gweithio o bell yn creu cyfleoedd newydd i lefydd y tu allan i ddinasoedd mawr gyrraedd marchnadoedd newydd a denu trigolion a chwmnïau newydd.
- Fodd bynnag, at ei gilydd nid oes disgwyl i niferoedd enfawr o bobl adael dinasoedd gan fod canolfannau mwy deinamig a deniadol yn ailddyfeisio eu hunain, er enghraifft gan symud oddi wrth siopau ac at weithgareddau hamdden.
- Efallai y bydd mwy o risgiau i ardaloedd trefol llai deniadol.
- Gallai patrymau anheddu amrywiol ddod i'r fei yn y cyfnod ar ôl y pandemig oherwydd bod mwy o bobl yn dewis gweithio o bell. Mae'r newidiadau, a allai ddigwydd gyda'i gilydd, yn cynnwys:
  - newidiadau strwythurol wrth i weithwyr medrus iawn symud yn barhaol y tu allan i ganol dinasoedd;
  - ehangu'r parthau cymudo o gwmpas dinasoedd fel effaith "doesen";
  - dinasoedd canolradd yn dod yn fwyfwy deniadol;
  - busnes-fel arfer ond gyda rhagor yn dewis gweithio o bel.

**25.** Mae'r ymatebion polisi a awgrymwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cynnwys:

- Lleihau'r gagendor digidol a hwyluso mabwysiadu gweithio o bell ar draws rhanbarthau, gweithwyr a chwmnïau drwy fuddsoddi mewn cysylltedd TGCh a sgiliau cysylltiedig.
- Gwella pa mor atyniadol yw llefydd a pha mor hawdd mae cael gafael ar wasanaethau o ansawdd yno, yn enwedig mewn rhanbarthau nad ydynt yn fetropolitan, drwy ddarparu llefydd ar gyfer rhannu mannau gwaith, gofal plant o ansawdd uchel, rhwydweithiau trafnidiaeth effeithiol a thai fforddiadwy.
- Sicrhau bod canlyniadau gweithio o bell yn effeithlon ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol drwy bolisïau defnydd tir priodol ac addasu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus.

**26.** Mae dadansoddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn awgrymu cyfleoedd posibl i Gymru, yn ogystal â risgiau. Yn benodol, gallai natur ddeniadol amgylchedd Cymru ei gwneud yn lle sy'n fwyfwy dymunol i bobl fyw a gweithio.

---

1 Gweler: Anywhere jobs and the future of work | VOX, CEPR Policy Portal (voxeu.org) **www.voxeu.org/article/anywhere-jobs-and-future-work**

2 Gweler: Executive Summary | Implications of Remote Working Adoption on Place Based Policies: A Focus on G7 Countries | OECD iLibrary (oecd-ilibrary.org) **www.oecd-ilibrary.org/sites/b12f6b85-en/index.html?itemId=/content/publication/b12f6b85-en**

**27.** Mae union oblygiadau mwy o weithgarwch o bell o ran defnyddio trafnidiaeth a'r galw am dai yn aneglur. Er enghraifft, efallai y bydd ar bobl eisiau byw mewn tai mwy mewn lleoliadau llai hygyrch, sy'n golygu y bydd angen teithio'n bellach ac efallai defnyddio mwy o ynni, hyd yn oed os bydd llai o siwrneiau. Gallai'r effeithiau cyffredinol fynd y naill ffordd neu'r llall.

**28.** Gan fod y swyddi sydd fwyaf addas ar gyfer gweithio o bell mewn galwedigaethau sy'n talu'n well ar gyfartaledd, a bod llawer o swyddi sy'n talu llai o gyflog mewn gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio'n lleol mewn canolfannau trefol, mae perygl clir y gallai symud i weithgarwch economaidd o bell arwain at ragor o anghydraddoldeb, gan waethygu effeithiau'r newidiadau lles sy'n cael eu gorfodi gan Lywodraeth y DU.

## Cyllid Cyhoeddus


**29.** Cyhoeddwyd canlyniad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ar 27 Hydref, a oedd yn cwmpasu'r tair blwyddyn ariannol o 2022-22 i 2024-25 ar gyfer gwariant adnoddau a chyfalaf. Mae'n darparu terfynau cyllidebol ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU a symiau'r grant bloc ar gyfer y Gweinyddiaethau Datganoledig.

**30.** Mae cyfansymiau cyfalaf y DU yn debyg iawn i'r hyn a nodwyd yng nghyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2021. Mae cyfanswm yr adnoddau'n uwch o lawer, yn rhannol oherwydd y refeniw ychwanegol o'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol ac yna'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Medi. Mae'r rhagolygon cyffredinol ar gyfer refeniw treth hefyd wedi gwella ers Cyllideb mis Mawrth, gan ganiatáu ar gyfer mwy o wariant cyhoeddus gan barhau i leihau'r proffil benthyca yn y dyfodol.

**31.** O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, mae cynnydd sydyn yng nghyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn 2022-23 wrth gymharu â chyllid craidd yn y flwyddyn gyfredol. Fodd bynnag, wrth gymharu â chyfanswm y cyllid gan gynnwys rhaglenni COVID eleni, mae'r gyllideb adnoddau yn dal yn ychydig yn is dros y blynyddoedd nesaf.

**32.** Cyfyngedig yw'r rhagolygon tymor canolig ar gyfer cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru. Fel y dangosir yn siart 2, bydd y gyllideb gyfalaf gyffredinol dros y 3 blynedd nesaf oddeutu £2.5bn mewn termau real. Mae hyn yn is nag yn y flwyddyn gyfredol neu'r llynedd. Fodd bynnag, mae'n uwch nag yn ystod blynyddoedd cyni'r degawd blaenorol, gan ei bod bellach wedi dychwelyd i lefel uwch na'r lefel yn 2010-11. Mae'r Gyllideb ar gyfer trafodiadau ariannol, nad yw'n cael ei dangos yn y siart, wedi'i gosod ar £265m yn 2022-23 ac yna mae'n disgyn i £96m a £90m yn y 2 flynedd ddilynol.

**Siart 2: Cyllideb Gyfalaf Gyffredinol Llywodraeth Cymru £miliwn, termau real, prisiau 2020-21**



**33.** Fel rhan o'i chyllideb ym mis Hydref, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei rheolau cyllidol newydd, gyda mandad i sicrhau gostyngiad yn nyled net y sector cyhoeddus fel canran o gynnyrch domestig gros erbyn trydedd flwyddyn y cyfnod rhagolwg treigl. Yn ogystal â hyn, mae gan Lywodraeth y DU darged i sicrhau nad yw buddsoddiad net y sector cyhoeddus yn fwy na 3% o'r cynnyrch domestig gros ar gyfartaledd dros gyfnod rhagolwg treigl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**34.** Mae cyllideb y DU yn dangos buddsoddiad net ar 2.7% o'r cynnyrch domestig gros ar ddiwedd cyfnod yr adolygiad o wariant yn 2024-25 ac ar yr un lefel hyd at 2026-27. Nid oes llawer o hyblygrwydd wrth gymharu â'r targed felly mae'n annhebygol y bydd y buddsoddiad net yn tyfu'n llawer cyflymach na chynnyrch domestig gros y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad gwariant. Mae hyn yn awgrymu y bydd twf tymor canolig yng nghyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru hefyd yn annhebygol o fod yn uwch na thwf cynnyrch domestig gros – tua 1.5% i 2% y flwyddyn mewn termau real.

## Gweledigaeth hirdymor

**35.** Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer yr hyn mae buddsoddi yn seilwaith Cymru angen ei alluogi dros y 10 mlynedd nesaf, gan gofio y bydd etifeddiaeth ein penderfyniadau buddsoddi dros y degawd nesaf yn aros gyda ni yn hirach o lawer.

**36.** Mae'r amser arwain i mewn ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith mawr yn gallu bod yn sylweddol ac mae diffyg sicrwydd o ran cyllid wedi'i ymrwymo yn gallu arafu buddsoddiad. Er bod y fframwaith cyllidol presennol yn golygu ein bod yn dibynnu'n helaeth ar gyllid canlyniadol yn sgil digwyddiadau cyllidebol Llywodraeth y DU, **lle bo'n bosibl byddwn yn darparu sicrwydd tymor hirach o ran ein huchelgeisiau cyfalaf**.

**37.** Yn y lle cyntaf, rydym yn cynnal Adolygiad o Wariant tair blynedd ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022-23 i 2024-25, er mwyn nodi'r buddsoddiadau sydd eu hangen yn ystod y cyfnod hwnnw i sicrhau'r canlyniadau a nodir yn y Strategaeth hon. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth hon, sy'n cyd-fynd â Chyllideb ddrafft 2022-23. Mae pennod cyflawni'r strategaeth hon yn amlinellu'r broses o ddatblygu'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf mewn rhagor o fanylder.

**38.** Sefydlwyd y buddsoddiadau a nodir yn y Cynllun yn dilyn adolygiad cwbl gynhwysfawr o'n cynlluniau cyfalaf presennol ac maen nhw'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a sefydlwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, ac yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau yn y strategaeth hon. **Drwy osod cyllidebau cyfalaf tair blynedd yn awr, rydym yn sicrhau bod ein partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach yn gallu ymddiried yn ein hymrwymiad i'r ymyriadau seilwaith hynny**.

**39.** Byddwn hefyd yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwygio'r Diweddariadau Llif Prosiectau i sicrhau eu bod yn dal mor berthnasol i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ag y maen nhw wedi bod yn ystod y 10 mlynedd o'u cyhoeddi.

## Blaenoriaethu cyllid

**40.** Fel y sefydlwyd uchod, mae'r rhagolwg hirdymor ar gyfer cyllid cyhoeddus yn llwm ac er mwyn cynyddu'r buddion y gall ein buddsoddiad mewn seilwaith eu creu, rhaid inni sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein penderfyniadau ynghylch cyllid yn gywir.

**41.** Mae'r strategaeth yn nodi'r canlyniadau hirdymor y dylai buddsoddi eu sicrhau dros gyfnod o 10 mlynedd yn ogystal â'n hymrwymiadau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, ac yn ymgorffori cyfiawnder cymdeithasol hefyd. Fodd bynnag, bydd y dulliau o sicrhau'r canlyniadau hyn yn bendant yn newid dros amser, a rhaid i'n dull o flaenoriaethu allu addasu i newid i'r un graddau.

**42.** Mae ein dull gweithredu ar gyfer dyrannu cyllid i brosiectau cyfalaf yn seiliedig ar sicrhau'r gwerth gorau am ein buddsoddiad, ac ni fydd hynny'n newid. Adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, felly bydd angen dull cydweithredol arnom er mwyn darparu atebion integredig sy'n rhai hirdymor, carbon isel, ac yn canolbwyntio ar atal neu'n rhyddhau refeniw.

**43.** Hefyd rydym yn cydnabod y rhyngddibyniaeth o ran yr hyn rydym yn ei gyflawni a'r ffaith fod cyflawni un amcan yn gallu effeithio'n gadarnhaol ar amcanion eraill. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cyd-fynd ar draws pob sector, gan fanteisio ar bob cyfle i gynyddu'r cyfleoedd trawsbynciol.

**44.** Rydym yn cydnabod bod gan wahanol rannau o Gymru wahanol gryfderau ac anghenion economaidd, sy'n newid dros amser. Bydd ein dull gweithredu ar gyfer dyrannu cyfalaf yn parhau i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am y buddsoddiad, gan gynnal ein dull o flaenoriaethu cynlluniau ar sail canlyniadau a thystiolaeth er mwyn hybu'r defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

**45.** Rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn taro'r cydbwysedd cyllid cywir i gynnal ein seilwaith presennol, gan barhau i fuddsoddi mewn seilwaith newydd ar yr un pryd er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau sy'n codi.

**46.** Y sail bresennol ar gyfer penderfyniadau buddsoddi yn Llywodraeth Cymru yw defnyddio'r model pum achos, sef dull arfer orau sector cyhoeddus y DU o ddatblygu achosion busnes, sy'n gysylltiedig â chanllawiau "Llyfr Gwyrdd" Trysorlys ei Mawrhydi ar wneud penderfyniadau. Mae hyn yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer ystyried amcanion polisi cyhoeddus fel rhan o'r dull achos busnes.

**47.** Mae adolygu'r Llyfr Gwyrdd yn ddiweddar wedi bod yn ddefnyddiol o ran pwysleisio mai dim ond prosiectau sy'n cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru orau all sicrhau gwerth am arian, a'i bod yn gwbl briodol ystyried buddion mewn termau ansoddol os na ellir eu mesur na phennu gwerth ariannol iddynt.

## Dull ysgogi cyfalaf – Hierarchaeth

**48. Byddwn yn parhau i ddilyn ein hegwyddor sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac sy'n sail i ddefnyddio cyfalaf yng Nghymru, gan fanteisio'n llawn ar y mathau rhataf o gyfalaf cyn defnyddio ffynonellau eraill o gyfalaf ad-daladwy**.

**49.** Rydym yn defnyddio cyfalaf confensiynol bob amser, gan gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol, cyn defnyddio unrhyw o'n pwerau benthyca. Dim ond ar gyfer prosiectau isel eu risg ac sydd ar raddfa briodol y bydd modelau arloesol, gan gynnwys buddsoddiad preifat mewn prosiectau, yn cael eu hystyried.

**50.** Mae unrhyw fenthyca a gynllunnir yn costio a rhaid ei ystyried yn ofalus, gan ystyried y costau cyfle sy'n codi a'r pwysau y bydd hyn yn ei roi ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

### Cyfalaf Cyffredinol – Grant Bloc

**51.** Y grant bloc yw'r elfen o'n cyllid sy'n dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU. Ar ôl pennu'r grant bloc, rydym yn rhydd i wneud ein penderfyniadau gwario ein hunain mewn meysydd lle mae gennym gyfrifoldebau datganoledig.

**52.** Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o'r trefniadau fframwaith cyllidol i'n galluogi i ddelio'n effeithiol â'r anwadalrwydd sy'n codi o refeniw trethi, drwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Roedd wedi disodli'r broses cyfnewid cyllidebau flaenorol. Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal cyfanswm o hyd at £350m o gyfalaf a refeniw. Y terfyn blynyddol ar gyfer tynnu i lawr yw £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50 ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes terfyn blynyddol ar gyfer talu i mewn i'r gronfa.

## Trafodiadau Ariannol

**53.** Dros y degawd diwethaf mae rhan o'n setliad cyfalaf wedi cael ei glustnodi gan Lywodraeth y DU a'i ddarparu ar ffurf Cyfalaf Trafodiadau Ariannol. Felly, mae'r defnydd o'r rhan hon o'n setliad wedi'i gyfyngu ac mae'n rhaid ad-dalu'r rhan fwyaf i Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r cyfyngiadau'n golygu mai dim ond ar gyfer buddsoddiadau sy'n cynhyrchu enillion y gellir defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol a dim ond at ddibenion benthyciadau i drydydd partïon, a buddsoddiadau ecwiti mewn trydydd partïon.

**54.** 'Trydydd partïon' cymwys yw'r rhai lle na fyddai benthyca'n sgorio yn erbyn lefel fenthyca net y sector cyhoeddus – ac felly ei fod y tu allan i ffin cyfrifyddu a chyllidebu Llywodraeth Cymru, a'r tu allan i'r ffin Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

**55.** Er nad ydym yn croesawu'r cyfyngiadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u rhoi ar ran o'n cyllideb cyfalaf drwy ddefnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol, **rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio pob punt sydd ar gael i fuddsoddi mewn seilwaith a rhoi hwb i dwf economaidd dros y tymor hir**, a byddwn yn parhau i fynd ati i nodi pob cyfle i fuddsoddi cyfalaf trafodiadau ariannol yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

## Treth

**56.** Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu'n bennaf gan grant bloc gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf mae datganoli pwerau treth – Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a datganoli'r Ardrethi Annomestig yn ariannol – wedi sicrhau bod tua 17% o wariant Llywodraeth Cymru wedi'i ariannu drwy refeniw trethi yn 2021-22.

**57.** Nid yw hyn wedi arwain at gynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael inni oherwydd mae lleihad yn y cyllid a geir gan y grant bloc o swm sy'n gyfartal â'r refeniw trethi y rhag-welir y bydd Llywodraeth y DU yn ei ildio.

**58.** Er ein bod yn parhau i alw am gryfhau datganoli cyllidol ymhellach, rydym yn cydnabod na ddylid datganoli'r holl drethi a gedwir yn ôl ar hyn o bryd i Gymru. Mae'n fwy addas casglu rhai trethi ar lefel y DU gyfan, yn enwedig mewn cysylltiad â marchnad sengl lwyddiannus yn y DU.

**59.** Mae gan Lywodraeth Cymru bum egwyddor treth graidd. Eu pwrpas yw sicrhau dull cyson a strategol o ddatblygu a chyflawni polisi trethi yng Nghymru.

**60. Byddwn yn sicrhau bod trethi Cymru'n cael eu rheoli yn unol â'r fframwaith polisi trethi,** gan gynnwys:

- Codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd mor deg â phosibl;
- Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran cefnogi swyddi a thwf;
- Bod yn eglur, yn sefydlog ac yn syml;
- Cael eu datblygu drwy gydweithrediad a chyfranogiad;
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

## Benthyca

**61.** Mae gan Lywodraeth Cymru raglen buddsoddi cyfalaf uchelgeisiol. Ar ôl defnyddio'r mathau rhatach hyn o gyfalaf, rhaid inni ystyried ffurfiau drytach ac ad-daladwy ar fuddsoddi.

**62.** Mae'n wir bod unrhyw fath o fenthyca'n effeithio ar gyllidebau refeniw yn y dyfodol a byddwn bob amser yn dymuno sicrhau ein bod yn defnyddio'r capasiti benthyca hwn yn ddarbodus. Ar sail cyfraddau llog presennol, mae pob £20m ychwanegol o gostau benthyca'n costio £3m ychwanegol dros 25 mlynedd.

**63.** Hyd yn oed yn erbyn cefndir o'r cyfraddau llog isaf erioed, nid arian rhydd yw defnyddio ein pwerau benthyca. Bydd ad-daliadau yn y dyfodol yn lleihau ein capasiti gwario yn ystod y flwyddyn dan sylw, felly mae angen ystyried unrhyw ddefnydd o bwerau benthyca yn ofalus.

**64.** Mae cost benthyca drwy Gronfa'r Benthyciadau Gwladol ar gyfradd safonol ac nid yw'n dibynnu ar bwrpas y benthyciad. Ni chaiff benthyciadau Llywodraeth Cymru eu defnyddio i ariannu prosiectau penodol, ond yn hytrach i gynyddu galluogrwydd gwario cyffredinol ac i ymateb i flaenoriaethau sy'n codi.

**65.** Mae Llywodraeth Cymru'n pennu ei benthyciadau cyfalaf cynlluniedig drwy'r broses gyllidebol flynyddol – ac mae'r buddsoddiadau yn y Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth hon wedi'i seilio ar fanteisio i'r eithaf ar fenthyciad o £450m dros 3 blynedd, fel y nodir yn y Gyllideb ddrafft. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi wynebu'r her barhaus o gael dyraniadau cyllid cyfalaf yn hwyr yn y flwyddyn ariannol gan Lywodraeth y DU.

**66.** Er ein bod wedi croesawu cyllid ychwanegol, mae natur hirdymor cynllunio seilwaith a buddsoddi yn golygu nad yw'n bosibl defnyddio symiau mawr o gyllid cyfalaf ychydig cyn diwedd y flwyddyn.

**67.** Ynghyd â'r cyfyngiadau ar ein terfynau dwyn ymlaen, mae dyraniadau o'r fath yn golygu o reidrwydd bod yn rhaid inni newid ein benthyciadau cynlluniedig am y cyllid ychwanegol, yn hytrach nag ehangu ein huchelgeisiau cyfalaf.

**68. Yn ein trafodaethau â Thrysorlys Ei Mawrhydi, byddwn yn parhau i alw am yr hyblygrwydd ychwanegol sydd ei angen arnom i reoli ein cyllideb yn y ffordd fwyaf effeithiol i bobl Cymru**. Yn benodol, byddwn yn galw am gynnydd i'r terfynau blynyddol a chyfanredol o ran ein mynediad at fenthyca cyfalaf, ac am hyblygrwydd ychwanegol o ran dwyn ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn a thynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru.

## Bondiau

**69.** Ar ôl cyflwyno pwerau i ddyroddi bondiau adbrynadwy, mae gan Lywodraeth Cymru gyfres eang o ddulliau benthyca bellach. Fodd bynnag, er eu bod yn cynyddu'r ystod o ddewisiadau benthyca sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid ad-dalu bondiau – yn yr un modd â mathau eraill o fenthyca – â llog a bydd hynny'n effeithio ar y refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i ariannu gwasanaethau cyhoeddus pob dydd.

**70.** Mae bondiau'n dal yn fwy costus nag unrhyw fath o fenthyca a gawn o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol a byddai unrhyw gyllid a godir gan fond Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfrif yn erbyn ein terfyn benthyca.

**71.** Serch hynny, mae'r pŵer i ddyroddi bondiau yn un pwysig oherwydd mae'n golygu y byddai gan Lywodraeth Cymru ffordd arall o fenthyg arian pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu cynyddu ein cost benthyca.

**72.** Pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu dyroddi bondiau Cymreig yn y dyfodol, byddai angen ystyried y dulliau a'r prosesau angenrheidiol i'w rheoli'n effeithiol.

## Model Buddsoddi Cydfuddiannol

**73.** Ffordd arloesol o fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus a ddatblygwyd yng Nghymru yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC). Cafodd yr MBC ei ddylunio gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau cyfalaf mawr oherwydd prinder arian cyfalaf, ond mae'n creu ymrwymiadau refeniw tymor hirach.

**74.** Bydd cynlluniau presennol yr MBC yn creu gwerth dros filiwn o bunnoedd o fuddsoddiad y mae ei angen ar frys mewn seilwaith cyhoeddus yng Nghymru, gan gynyddu'r buddion cymunedol ar yr un pryd.

**75.** Bydd yr MBC yn cefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau seilwaith cymdeithasol ac economaidd, ac yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**76.** Mewn cynlluniau'r MBC bydd partneriaid preifat yn adeiladu ac yn cynnal a chadw asedau cyhoeddus. Yn gyfnewid am hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n talu ffi i'r partner preifat a fydd yn talu am y gost o adeiladu, cynnal a chadw, ac ariannu'r prosiect. Ar ddiwedd y contract bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus.

**77.** Pan fyddwn wedi defnyddio pob ffynhonnell gyllid arall ac nad yw hynny'n ddigon i ariannu'r seilwaith sydd ei angen arnom, byddwn yn ystyried buddsoddiadau gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

## Dulliau buddsoddi

**78.** Mae Banc Datblygu Cymru'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau ac i dyfu.

**79.** Prif rôl y Banc yw gweithredu fel cyllidwr bwlch a mynd i'r afael â diffyg yn y farchnad pan nad yw darparwyr cyllid preifat yn gallu bodloni anghenion cyllid busnesau bach a chanolig. Oherwydd ei natur dylai cyllid y sector cyhoeddus fod yn wrth-gylchol – gan ddarparu cyllid mawr ei angen pan fydd darparwyr eraill y farchnad yn lleihau.

**80.** Mae Banc Datblygu Cymru'n gallu cynnig atebion cyllid sy'n seiliedig ar ddyled ac ecwiti, gyda phortffolio cyllid sy'n berthnasol i fusnesau ar wahanol gamau yn eu datblygiad a'u twf. Gall y Banc fuddsoddi rhwng £1,000 a £10m, a thu hwnt fel eithriad, gyda dewisiadau ar gyfer y tymor byr yn ogystal â chyfleusterau cyfalaf tymor estynedig.

**81. Byddwn yn parhau i ddefnyddio Banc Datblygu Cymru fel conglfaen o ran sefydliadau datblygu economaidd ac fel darparwr gwasanaethau i Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r uchelgeisiau a nodir yn y cynllun hwn**, rgan gydnabod bod gan gynnig y Banc y potensial i gefnogi anghenion busnesau o naill ben i'r gadwyn gyflenwi i'r llall, gan helpu busnesau yng Nghymru i elwa ar y cyfleoedd y mae buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn eu darparu.

**82.** Mae llawer o elfennau anhysbys o ran gweithrediad, graddfa a chyflawniad dulliau cymorth datblygu rhanbarthol dan arweiniad Llywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru'n cydweithio i fod yn ymatebol wrth i drefniadau newydd ennill eu plwyf.

**83. Bydd Banc Datblygu Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i chefnogi wrth iddi fynd ati i lunio polisïau mewn cysylltiad â chymryd lle'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**, a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi atebion sy'n creu'r potensial i gynyddu llif cyllid i Gymru – gan ddatblygu ei berthynas â darparwyr buddsoddiad eraill, fel Banc Busnes Prydain a Banc Seilwaith y DU.

## Cyllid yn lle Cyllid yr UE

**84.** Adeg cyllideb mis Mawrth 2020, roedd Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i "gyfateb y lefel gyllid bresennol ar gyfer pob gwlad [yn y DU] o gronfeydd strwythurol yr UE". Roedd y gyllideb yn nodi y byddai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU newydd yn disodli cronfeydd strwythurol "gor-fiwrocrataidd" yr UE ac y byddai'r cyllid yn cael ei "aildrefnu i gyfateb i flaenoriaethau domestig, nid rhai'r UE".

**85.** Rydym wedi buddsoddi £375m o Gyllid Strwythurol yr UE yn flynyddol i gyflawni rhaglenni cenedlaethol ledled Cymru, gan gynnwys rhaglenni cyflogadwyedd a phrentisiaethau, cymorth busnes, a datblygiad economaidd lleol. Mae'r posibilrwydd o golli'r cyllid hwn yn cyfyngu'n sylweddol ar ein gallu i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru ac i Gymru.

**86.** I fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol mewn modd ystyrlon, rhaid i Lywodraeth y DU ganolbwyntio ei hymdrech ar wario ar faterion a gedwir yn ôl, gan gynnwys unioni'r tanwariant hanesyddol ar seilwaith rheilffyrdd ac ymchwil a datblygu yng Nghymru. Hefyd rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i ariannu'n llawn y gweithrediadau parhaus sydd eu hangen ger ffin Cymru ar ôl ymadael â'r UE.

**87.** Roedd Cymru'n fuddiolwr net drwy aelodaeth o'r UE **a byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid yn lle'r holl gyllid y byddai Cymru wedi'i ddisgwyl yn rhesymol fel arall gan ffynonellau'r UE**.

Pennod 3

# Egwyddorion Trawsbynciol

**1.** Ein gweledigaeth yw economi llesiant sy'n hybu ffyniant, yn amgylcheddol gadarn, ac yn helpu pawb i wireddu eu potensial. Nid oes amheuaeth bod ein llesiant economaidd yn gysylltiedig â'n llesiant amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol.

**2.** Rydym wedi ymrwymo i roi Cymru ar lwybr mwy cynaliadwy yn unol â'n fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Dyma'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn nodi'r meysydd a'r canlyniadau y byddwn yn eu blaenoriaethu er mwyn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant.

**3.** Bydd fframwaith strategol ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiadau rhwng rhaglenni seilwaith ddim ond mor effeithiol â'r cynigion y mae'n blaenoriaethu rhyngddynt. Er mwyn i benderfyniadau ynghylch buddsoddi fod yn ddull cwbl effeithiol o sbarduno'r newidiadau hyn, rhaid cael newid radical a gweddnewidiol yn y ffordd y mae adrannau'n cynllunio, yn dylunio ac yn datblygu eu cynigion seilwaith cyn gwneud cais am gyllid.

**4.** Mae'r bennod hon yn nodi'r prif egwyddorion trosfwaol y mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod adrannau'n eu gwreiddio yn eu cynigion seilwaith. Bydd dangos yr egwyddorion craidd hyn, yn ogystal â chyflawni yn erbyn y canlyniadau strategol manylach a'r camau buddsoddi a sefydlir yn y penodau canlynol, yn gorfod cael eu hystyried yn rhagofynion ar gyfer cyllid

## Mapio llesiant: meysydd, nodau a ffyrdd o weithio

| Nodau Llesiant Cenedlaethol Cymru | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |

| Y pedwar maes llesiant a chanlyniadau buddsoddi strategol | | | |
|---|---|---|---|
| **Llesiant Amgylcheddol** | **Llesiant Cymdeithasol** | **Llesiant Economaidd** | **Llesiant Diwylliannol** |
| Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr | Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru | Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru | Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni |
| Buddsoddi mewn bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol | Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru | Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau | Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth |
| Gwella ansawdd aer a dŵr | Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol | Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd | Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden |
| Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy | Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol | Gwella deilliannau addysgol | Gwella'r buddsoddiad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru |

## Dull gweithredu thematig a chyflawni yn erbyn mwy nag un canlyniad

**5.** Mae'r penodau seiliedig ar feysydd neu 'thematig' canlynol yn nodi'r canlyniadau craidd y dylai buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru eu galluogi – ac mae'r bennod cyflawni ddilynol yn amlinellu sut byddwn yn defnyddio ein hystod lawn o ddulliau buddsoddi i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r canlyniadau hyn.

**6.** Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio buddsoddiad mewn seilwaith i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel y maen nhw wedi'u diffinio yn nodau llesiant Cymru. I adlewyrchu natur integredig ac annatod llesiant Cymru, mae'r strategaeth hon wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar maes hyn.

**7.** Mae'r meysydd wedi cael eu gwahanu'n gyfres o ganlyniadau strategol sy'n nodi mewn rhagor o fanylder beth y mae'n rhaid i fuddsoddiad mewn seilwaith ei alluogi.

**8.** Mae'r rôl y mae buddsoddi mewn gwahanol sectorau yn ei chwarae yn cyflawni yn erbyn y gwahanol ganlyniadau llesiant wedyn yn cael ei chofnodi drwy'r set o gamau buddsoddi. Mae'r camau hyn wedi'u casglu ynghyd yn Atodiad A y strategaeth hon.

**9.** Drwy fabwysiadu dull thematig yn hytrach na sectoraidd rydym yn gallu cydnabod, er y bydd buddsoddi mewn sector penodol yn cyflawni'n gryfach yn erbyn un thema nag un arall o bosibl, mewn llawer o achosion mae pwrpas eilaidd a thrydyddol clir i fuddsoddi, ac mae angen eu cofnodi'n effeithiol. Mae hyn hefyd yn cydnabod y rhyngberthynas a'r croestoriadedd rhwng gwahanol feysydd seilwaith, a'r canlyniad maen nhw'n ei gyflawni.

## Astudiaeth Achos

### Teithio Llesol

Mae nifer o fathau o fuddsoddiad mewn seilwaith sy'n galluogi ac yn hybu'r defnydd o Deithio Llesol – ewch llyw.cymru/teithio-llesol-grantiau-ddyfarnwyd-yn-2021-i-2022-html i weld rhestr o grantiau'r Gronfa Teithio Llesol a ddyfarnwyd yn 2021-22.

Prif bwrpas buddsoddi mewn seilwaith Teithio Llesol yw darparu cyfleoedd i deithio o ddydd i ddydd ar droed ac ar gefn beic, a thrwy hynny wella iechyd corfforol a meddyliol y wlad, a'i llesiant. Mae gwerthuso rhaglenni wedi'u cwblhau yn dangos tystiolaeth o gysylltiad clir rhwng seilwaith sy'n galluogi pobl i gerdded ac i feicio'n ddiogel ac yn hwylus, a'r defnydd o'r gweithgareddau hynny at ddibenion trafnidiaeth, gan sbarduno amrywiaeth o fuddion iechyd gan gynnwys gwell iechyd cardiofasgwlaidd ac anadlol, yn ogystal â chyfraddau gordewdra, diabetes a chanser is.


Mae datgan yr argyfwng hinsawdd a natur wedi sicrhau bod yn rhaid ystyried ein holl fuddsoddiadau drwy wydr datgarboneiddio. Efallai nad Teithio Llesol yw'r prif ddull o newid dulliau teithio i ffwrdd o gerbydau tanwydd ffosil, ond mae astudiaethau'n dangos y gallai cynnydd sylweddol mewn gwariant beicio a cherdded sicrhau arbedion allyriadau cronnol o 0.3-0.6Mt$CO_2$ rhwng nawr a 2040 – heb ystyried yr angen am fuddsoddiad rhagbrynol mewn seilwaith i fanteisio ar y newid mewn dulliau teithio drwy ymyriadau eraill, fel gwahardd ceir newydd wedi'u pweru gan danwydd ffosil o 2030 ymlaen.

Er mai cerdded a beicio yw'r mathau rhataf o deithio, rydym yn gwybod bod gwahaniaethau sylweddol yn eu defnydd. Mae grwpiau sydd dan anfantais yn llai tebygol o ddefnyddio'r seilwaith, er bod dymuniad cryf i wneud hynny. Felly, mae cyfle clir i fuddsoddiad mewn seilwaith Teithio Llesol chwarae rôl yn sicrhau bod anghydraddoldeb o ran mynediad at gyfleoedd yn cael sylw.

Mae ein buddsoddiadau mewn Teithio Llesol wedi'u dylunio i hyrwyddo cerdded a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol, yn hytrach nag er hamdden yn unig, ac felly mae ganddynt hefyd rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau bod ein buddsoddiadau'n gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol hefyd. Mae canllawiau statudol yn mynnu bod buddsoddiadau mewn seilwaith Teithio Llesol yn cysylltu mannau lle mae pobl yn byw â chanolfannau trafnidiaeth gyhoeddus, ysgolion a safleoedd cyflogaeth, a bydd ein buddsoddiadau'n gwneud hynny.

I gydnabod yr amrywiol ganlyniadau y gall buddsoddi mewn Teithio Llesol eu sbarduno ar draws y meysydd llesiant hyn, mae'r camau perthnasol wedi cael eu hintegreiddio ar draws y pedair pennod sy'n seiliedig ar barthau, yn hytrach na dilyn ffocws sectoraidd.

**10.** Mae'r diagram isod yn dangos sut mae buddsoddi mewn gwahanol sectorau cyfalaf yn cyd-fynd â'r amrywiol themâu llesiant. Nodir yr egwyddorion trawsbynciol a'r gofynion sylfaenol yn y bennod hon.




## Ymrwymiad trosfwaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur

**11.** Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yw uchelgais drosfwaol y strategaeth buddsoddi mewn seilwaith hon, sydd wedi cael ei dylunio'n benodol i gefnogi economi ddi-garbon. Er ein bod yn cydnabod y bydd prif bwrpas buddsoddi mewn seilwaith yn amrywio o sector i sector ac o raglen i raglen, dylai ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod yn gysylltiedig â buddsoddiadau ym mhob sector.

**12.** Mae hyn yn adlewyrchu'r uchelgais a nodir yn Cymru Sero Net[3], sy'n datgan yn glir mai'r 2020au yw'r degawd gweithredu tyngedfennol. Mae ein hail gyllideb garbon yn canolbwyntio ar yr angen i "berfformio'n well" na'r lleihad cyfartalog mewn allyriadau sy'n cael ei argymell, sef 37%, gyda llwybr clir tuag at leihad cyfartalog o 58% drwy'r drydedd gyllideb garbon hyd at 2030[4].

**13.** Er y bydd rhai buddsoddiadau wedi'u dylunio'n uniongyrchol i leihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr, mae angen inni gynllunio ein holl fuddsoddiadau presennol mewn seilwaith a'r buddsoddiadau yn y dyfodol i chwarae eu rhan yn bodloni ein gofynion lleihau, a chynnig camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer byd natur.

Siart 3: Cyfanwm allyriadau Cymru – allyriadau hanesyddol a rhagfynegiadau




3 Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru (2021-2025) **llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25**
4 Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru (2021-2025) **llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25**

**14.** Er enghraifft, bydd angen i fuddsoddiadau yn ein hystad addysg ddarparu adeiladau carbon "sero net" gweithredol, gan gymryd camau tuag at leihau carbon yn y gwaith o godi adeiladau. Bydd angen i fuddsoddiadau yn yr ystad iechyd gyflawni yn erbyn y targedau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru[5], ac wrth ddarparu seilwaith llifogydd i ddiogelu pobl, cartrefi a busnesau, rhaid inni gynyddu ein hatebion sy'n seiliedig ar fyd natur i ehangu cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd. Ar ben hynny, mewn llawer o achosion mae ein hamgueddfeydd, ein llyfrgelloedd a'n hystad dreftadaeth yn hen adeiladau aneffeithlon, sy'n creu heriau sylweddol o ran mynd ati i ddatgarboneiddio. **Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb ymgorffori ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur**.

**15.** Mae Cymru Sero Net yn ei gwneud yn glir bod holl eiddo'r sector cyhoeddus yn y dyfodol sy'n cael ei adeiladu neu sy'n cael ei adnewyddu'n sylweddol yn cyrraedd safon sero net erbyn 2030, gan adeiladu ar gyllid sy'n bodoli eisoes, megis y £29m a fuddsoddwyd gyda chymorth y Gwasanaeth Ynni yn 2020-21, mewn inswleiddio, systemau rheoli, goleuadau, awyru, gwresogi carbon isel, adeiladu technoleg adnewyddadwy integredig a phrosiectau solar ar y to o fewn ystad y sector cyhoeddus. Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb gynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

**16.** Mae pennod 2 y strategaeth hon yn amlinellu'r heriau cyllido yr ydym yn debygol o'u hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd y rhain yn cyfyngu ar ein capasiti cyflawni yn anochel a bydd hi'n hollbwysig sicrhau, mewn rhai achosion, bod ein hadnoddau'n cael eu targedu at yr ymyriadau hynny sy'n darparu'r ffordd fwyaf costeffeithiol o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. **Wrth ddatblygu prosiectau a rhaglenni buddsoddi o dan y strategaeth hon, rhaid i swyddogion polisi gynnal dadansoddiad cadarn o effaith gyfannol y rhaglenni arfaethedig ar allyriadau carbon**.

## Gwreiddio Cyfiawnder Cymdeithasol

**17.** Mae'n bwysig sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cefnogi economi gynhwysol sy'n gweithio i bawb. Dylai ein dull gweithredu ar gyfer seilwaith ymgorffori gwerthoedd cyfiawnder cymdeithasol, gan roi'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb o bob math, gan gydnabod bod gan bobl wahanol anghenion y bydd angen i seilwaith eu hadlewyrchu.

**18.** Bydd llawer o'n buddsoddiadau'n effeithio'n uniongyrchol ar anghydraddoldeb – er enghraifft, mae buddsoddi mewn seilwaith ysgolion neu ofal plant yn hybu gwell canlyniadau cymdeithasol i'r bobl dan sylw. Ond hyd yn oed yn yr achosion hyn, rhaid i'n buddsoddiadau mewn seilwaith adlewyrchu gwahanol anghenion, er enghraifft, gwahanol ryweddau yn unol â'n hymrwymiad i gyllidebu ar sail rhywedd, sy'n gallu golygu bod angen gwahanol atebion. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod pob buddsoddiad yn ystyried yr angen i leihau anfantais – er enghraifft drwy sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cefnogi system drafnidiaeth gwbl gynhwysol ac economi sy'n bodloni anghenion pawb.

**19.** Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth inni edrych tuag at ein dyfodol hirdymor cyfunol yn dilyn pandemig y coronafeirws. Mae'r pandemig wedi dwysáu llawer o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru ac wedi amlygu ymhellach yr angen i fynd i'r afael â hyn dros y 10 mlynedd nesaf, hyd yn oed pan fydd hynny'n gofyn am newid radical mewn dull gweithredu. Yn y cyd-destun hwn, rydym hefyd yn cydnabod y bylchau mewn tystiolaeth y mae angen eu llenwi gan weithio yn ôl yr egwyddor 'nad yw prinder tystiolaeth yn golygu prinder effaith', a'r angen i ymgysylltu â'r cymunedau hynny y mae ein buddsoddiadau'n effeithio arnynt. **Rhaid i raglenni buddsoddi mewn seilwaith ymgorffori gwerthoedd cyfiawnder cymdeithasol a gweithio i ddileu anghydraddoldeb yng Nghymru**.

5 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cynllun-cyflenwi-strategol-datgarboneiddio-gig-cymru_0.pdf

## Creu Lleoedd

**20.** Gall buddsoddi mewn seilwaith chwarae rôl allweddol o ran gwireddu'r cysyniad o "greu lleoedd" – cynllunio, dylunio a datblygu mannau, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n ddyletswydd ar adrannau gwario i sicrhau, wrth gynllunio rhaglenni seilwaith, bod cysylltiadau allweddol yn cael eu gwneud ar draws y gwahanol feysydd buddsoddi er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i uno datblygiadau, er mwyn iddynt gyflawni mwy nag y byddent ar eu pen eu hunain.

**21.** Mae'r risg o ddatblygu seilwaith mewn modd unigol yn glir o ran y cyfleoedd sy'n cael eu colli i gynyddu gwerth canlyniadau buddsoddi mewn seilwaith. Rhaid inni hefyd gydnabod bod gwahanol bobl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd ryng-gysylltiedig yn y lleoedd maen nhw'n byw ac yn gweithio, a'r effeithiau anghymesur posibl ar grwpiau penodol os na chaiff hyn sylw.

**22.** Gall y gwerthoedd hyn fod yn rhan o bortffolio – er enghraifft drwy adeiladu rhwydweithiau partneriaeth cryf ar draws y gadwyn gyflenwi a sicrhau'r capasiti mewnol i lunio a chynllunio'r portffolio. Fodd bynnag, mae gwerth "rhwng portffolios" hefyd – mae cysoni'r amcanion buddsoddi ac amseriad prosiectau ar draws mwy nag un adran yn creu cyfle i gynyddu cyfraniad cyffredinol pob buddsoddiad ar draws yr holl themâu llesiant.

**23.** Mae Cymru'r Dyfodol, ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol eisoes yn mynd gryn ffordd i integreiddio'r cyd-destun polisi yng Nghymru a mynegi sut gellir ei gyflawni mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd. Mae pennod cyflawni'r strategaeth hon yn amlinellu sut bydd yn rhaid i noddwyr prosiectau, wrth ddatblygu cynigion seilwaith i'w cynnwys yn y cynlluniau cyflawni a fydd yn sail i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ddangos cysondeb a'r fframwaith "Cymru'r Dyfodol" sy'n seiliedig ar leoedd.

**24.** Gall Swyddfa Cyflawni Prosiectau Llywodraeth Cymru roi cymorth i noddwyr prosiectau drwy amrywiaeth o wasanaethau i sicrhau bod cynigion seilwaith yn cael eu datblygu a'u cyflawni yn unol â'r arferion gorau. Ymysg y gwasanaethau hyn mae darparu cynigion hyfforddiant eang sy'n rhoi sylw i, er enghraifft, Rheoli Prosiectau a Rhaglenni, a Gwell Achosion Busnes. Mae gan y Swyddfa amrywiaeth o gynhyrchion sicrwydd hefyd, gan helpu i sicrhau bod sicrwydd annibynnol yn dylanwadu ar brosiectau a rhaglenni sy'n cael eu hyrwyddo gan sector cyhoeddus Cymru.

**25.** Nid yn unig y bydd dull gweithredu cyson yn sicrhau'r effaith fwyaf o ran prif fuddion buddsoddi, ond bydd hefyd yn creu cyfleoedd i sicrhau lefel uwch o fuddion eilaidd yn sgil y buddsoddiad. Hefyd, er mwyn i'r dull gweithredu hwn ar gyfer seilwaith lwyddo, rhaid cael ymdrech gyfunol ymysg sefydliadau cyhoeddus.

**26. Rhaid i'r holl gynigion buddsoddi ddangos bod y gwaith o'u cynllunio, eu dylunio a'u datblygu wedi dilyn dull gweithredu cyd-drefnus ac integredig, a rhaid i ddull o'r fath fod y sefyllfa ddiofyn wrth ddatblygu pob rhaglen seilwaith.**

**27.** Yn ogystal â chysoni'r gwaith o ddatblygu cynigion seilwaith eu hunain, mae cysoni'r ddarpariaeth o wasanaethau y mae seilwaith yn eu galluogi yn rôl lawn cyn bwysiced y gall penderfyniadau buddsoddi ei hybu. Mae egwyddor "Canol Trefi yn Gyntaf" Llywodraeth Cymru yn golygu y byddwn yn mynd ati i sicrhau bod adeiladau a gwasanaethau wedi'u lleoli yng nghanol trefi lle bo'n bosibl.

**28.** Mae hyn hefyd yn creu cyfle i gysoni a chynyddu integreiddiad gwasanaethau drwy gydleoli cyfleusterau, neu eu rhannu. Mae hyn yr un mor wir i gysoni gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru ag y mae i ddatblygu cysylltiadau rhwng gwasanaethau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, yn ogystal â'r rhai a ddarperir gan fyrddau iechyd lleol.

**29.** I wella'r mynediad at wasanaethau cyhoeddus fel iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill sy'n cael eu harwain gan y gymuned, rhaid i ddatblygiadau seilwaith ystyried y buddion posibl y gall cydleoli mewn un lleoliad ffisegol eu creu, a hynny o ran effeithlonrwydd a hygyrchedd. Yn yr un modd, rhaid i ddull seiliedig ar leoedd fynd i'r afael â her gwastraff, gan hwyluso ailddefnyddio deunyddiau'n briodol ac ailgylchu gwastraff yn ein cymunedau lleol.

**30. Rhaid i raglenni buddsoddi mewn seilwaith gofleidio'n llawn y cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau allweddol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl**.

## Buddsoddi mewn seilwaith newydd o'i gymharu â chynnal a chadw seilwaith sy'n bodoli eisoes

**31.** Wrth ddatblygu cynigion seilwaith, un o'r ystyriaethau allweddol a chyntaf yw a oes rhaid darparu seilwaith newydd ynteu a yw cynnal a chadw, a gwella seilwaith sy'n bodoli eisoes yn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau, gan nodi'n benodol lefel yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu.

**32.** Mae gwaith a wnaed gan Lywodraeth yr Alban[6] yn dangos bod cynnal a chadw cyfalaf yn meddu ar y potensial i gefnogi'r un canlyniadau strategol y gall seilwaith newydd eu sicrhau. Ar ben hynny, gall peidio â chynnal a chadw seilwaith sy'n bodoli eisoes olygu costau tymor byr i ddefnyddwyr, gan gynyddu cost hirdymor atgyweirio neu ailadeiladu.

**33.** Er na fydd hyn yn berthnasol i bob sector seilwaith, mae'n bwysig ystyried bod gan dir ac asedau eiddo Llywodraeth Cymru'r potensial i gyfrannu at ganlyniadau gwerth cyhoeddus. Mae'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol[7] yn amlinellu sut mae rheoli'r asedau hyn yn gynaliadwy ac yn nodi'n glir yr uchelgais i ddarparu'r eiddo cywir, sy'n addas i'r diben, yn y lle cywir ac i gyfrannu at werth cyhoeddus yn benodol drwy ddatgarboneiddio, a gwella bioamrywiaeth.

**34. Rhaid ystyried ai asedau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes sy'n cynnig y dull mwyaf effeithlon o ddatblygu atebion sy'n seiliedig ar seilwaith.**

## Cadernid yn wyneb tueddiadau yn y dyfodol

**35.** Mae angen inni ystyried sut mae diogelu seilwaith at y dyfodol, nid yn unig eu cyflwr ffisegol rhag newidiadau amgylcheddol fel llifogydd a thymheredd uchel, ond eu defnydd hefyd. Mae hyn yn cydnabod bod y defnydd o seilwaith yn gallu newid dros amser, gan fod dylanwadau byd-eang a lleol, yn ogystal â thueddiadau, yn newid y diben yr ydym am i seilwaith ei ateb. Bydd hi'n hollbwysig datblygu gwell dealltwriaeth o risgiau a chyfleoedd y dylanwadau a'r tueddiadau hyn wrth ddatblygu cynigion buddsoddi mewn seilwaith.

**36. Wrth ddatblygu cynigion buddsoddi mewn seilwaith, rhaid i adrannau gwario ystyried natur hirdymor y datblygiad, cynnal asesiad o'u cynaliadwyedd yng ngoleuni tueddiadau yn y dyfodol ac, wrth ysyried priodoldeb datblygu, rhaid iddynt gydnabod goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys perygl llifogydd**.

6 A National Mission With Local Impact: Draft Infrastructure Investment Plan for Scotland 2021 22 to 2025 26 **www.gov.scot** tudalen 45
7 I'w chyhoeddi wedi'r toriad

## Caffael


**37.** Gall caffael cyhoeddus chwarae rôl ganolog o ran cyflawni blaenoriaethau polisi blaengar, gan amrywio o ddatgarboneiddio i werth cyhoeddus a buddion cymunedol, yr economi gylchol a'r economi sylfaenol. Mae'r polisïau hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i gefnogi swyddi a hyfforddiant, gan helpu'r rhai mwyaf agored i niwed ar yr un pryd.

**38.** Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru[8] yn gosod y weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn helpu i ddiffinio ein cynnydd yn erbyn y nodau llesiant rydym yn ceisio eu cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth galon yr holl benderfyniadau caffael. Mae'n rhoi manylion y 10 egwyddor i Sector Cyhoeddus Cymru eu dilyn wrth gaffael prosiectau a rhaglenni. **Wrth ddatblygu – yn ogystal â chyflawni – cynigion buddsoddi mewn seilwaith, rhaid i noddwyr yn y sector cyhoeddus fabwysiadu egwyddorion caffael cyfrifol a chynaliadwy fel y diffinnir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru, er mwyn gwella ein dull o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur**.

**39.** Fe wnaethom gyhoeddi cynllun gweithredu fis Tachwedd 2021 sy'n sail i gyflawni yn unol ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru. Rydym yn annog sefydliadau prynu, naill ai'n unigol neu fel rhan o trefniadau cydweithredu, i ddatblygu a chyhoeddi eu cynlluniau gweithredu eu hunain sy'n manylu ynghylch sut y byddant yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

**40.** Yn ogystal, bydd cyflwyno'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar gaffaelwyr yn y sector cyhoeddus i sicrhau canlyniadau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol drwy gaffael. Mae hyn yn rhoi lle canolog i waith teg a gwerth cymdeithasol yn hytrach na bod caffael yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau arbedion ariannol.

8 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/datganiad-polisi-caffael-cymru-2021.pdf



Pennod 4

# Llesiant Amgylcheddol

## Trosolwg

**1.** Mae ein strategaeth yn seiliedig ar yr amcan craidd sef sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cyfrannu at economi carbon sero. Mewn llawer o achosion, bydd y seilwaith yr ydym yn buddsoddi ynddo nawr gyda ni am genedlaethau. I fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, mae'n hanfodol bod ystyriaeth o effaith amgylcheddol y penderfyniadau buddsoddi cyfalaf strategol a wnawn heddiw wrth galon blaenoriaethau buddsoddi.

**2.** Drwy wneud hynny, bydd y blaenoriaethau buddsoddi yn adlewyrchu goblygiadau hirdymor y dewisiadau buddsoddi hynny, ac yn cydnabod yn bendant y rôl mae buddsoddi mewn seilwaith yn ei chwarae yn cyflawni llesiant amgylcheddol.

**3.** Mae gennym ddyletswydd statudol – a moesol – i gefnogi gwlad sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, ynghyd â'r gallu i addasu i newid. Mae cyswllt annatod rhwng y newid yn yr hinsawdd a byd natur, ac maen nhw'n dibynnu ar ei gilydd.

**4.** Er bod y strategaeth hon yn cydnabod y pedair thema llesiant fel colofnau ar wahân, mae cysylltiadau anwahanadwy rhyngddynt. Mae'n debygol y bydd gan fuddsoddiadau mewn sectorau prif bwrpas clir, gan sicrhau buddion gwerthfawr eraill ar draws y themâu llesiant ar yr un pryd.

**5.** Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran llesiant amgylcheddol. Er y bydd rhai mathau o seilwaith yn amlwg yn sicrhau buddion amgylcheddol uniongyrchol yn gryfach nag eraill, mae'n hanfodol bod ein holl benderfyniadau buddsoddi'n cael eu hystyried yng nghyd-destun economi werdd a chyfartal. I sicrhau bod ymateb cadarnhaol a phendant i'r newid yn yr hinsawdd wedi'i wreiddio ym mhopeth a wnawn, rhaid inni sefydlu fframwaith sy'n sicrhau bod buddsoddi mewn seilwaith yn cynyddu'r buddion amgylcheddol, gan eu cydbwyso â'r canlyniadau economaidd neu gymdeithasol y maen nhw wedi'u dylunio i'w sicrhau yn bennaf.

**6.** Ni chaiff hyn ei weld yn gliriach nag yn ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi[9]. Mae'r Genhadaeth yn mynnu lefelau uchel o gylcholdeb – lle mae adnoddau'n aros mewn defnydd a gwastraff yn cael ei osgoi – a sbarduno buddsoddiad mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd, atebion sy'n seiliedig ar fyd natur, a phrosiectau ynni adnewyddadwy. Dyma'r "Adferiad Gwyrdd" ar waith – perthynas symbiotig rhwng twf economaidd a llesiant amgylcheddol.

9 Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi
**llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/genhadaeth-i-gryfhau-ac-ailadeiladur-economi.pdf**

**7.** Mae'n bwysig cydnabod nad yw buddsoddi "gwyrdd" yn un thema unffurf ac, mewn llawer o achosion, bod buddsoddiad sy'n fuddiol i un agwedd yn gallu effeithio'n negyddol ar eraill. Er enghraifft, mae plannu coedwigoedd ungnwd mawr yn debygol o fod yn fuddiol o ran dal a storio carbon ond, os yw'n cymryd lle amgylchedd naturiol blaenorol, gallai niweidio bioamrywiaeth. Felly, rhaid ystyried penderfyniadau buddsoddi yng ngoleuni'r cyfaddawdau a allai fod yn angenrheidiol rhwng y gwahanol ganlyniadau o dan y thema llesiant amgylcheddol.

## Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr

**8.** Yn gynharach eleni, adeiladodd Llywodraeth Cymru ar y datganiad argyfwng hinsawdd arloesol yn 2019 (cam a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddarach gan y Senedd) drwy wneud ymrwymiad cyfreithiol unfrydol i sicrhau allyriadau sero net erbyn 2050.

**9.** Er ei bod hi'n hanfodol gosod targedau newydd, uchelgeisiol i sicrhau Cymru sero net, mae'r cynllun lleihau allyriadau newydd yn esbonio'n glir y byddant yn anodd eu cyrraedd. Mae Cymru sero net yn nodi'n glir bod gosod targedau newydd, uchelgeisiol i sicrhau Cymru sero net yn beth hanfodol, ond anodd, ei wneud. Mae'r strategaeth hon ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith, sy'n cyd-fynd â'r dull gweithredu o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cyfateb i'r uchelgais honno i adeiladu Cymru fwy iach, glân a gwyrdd i genedlaethau'r dyfodol.

**10.** Bydd lleihau allyriadau carbon yn golygu trawsnewidiadau ar draws yr economi a'r gymdeithas ddinesig ehangach, a bydd y seilwaith yr ydym yn ei adeiladu a'i gynnal yn chwarae rôl allweddol o ran a allwn wireddu'r uchelgais hon ai peidio. Mae cyllidebau olynol wedi canolbwyntio mwy a mwy ar y rôl gall buddsoddiadau cyfalaf wedi'u hariannu'n gyhoeddus eu chwarae yn lleihau allyriadau carbon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu economi ddi-garbon, a bydd y strategaeth hon yn gwreiddio'r ystyriaeth honno mewn penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

**11.** Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu adeiladu seilwaith mewn ffordd well – defnyddio prosesau mwy effeithlon a deunyddiau eildro wrth adeiladu, neu fuddsoddi mewn rhaglenni cyfalaf a fydd yn lleihau allyriadau oes gyfan. Mewn achosion eraill, mae'n golygu adeiladu gwell seilwaith – er enghraifft buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn cynyddu cyfran yr ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol, neu ddarparu'r elfennau sy'n galluogi newid yn ein patrymau defnyddio trafnidiaeth.

**12.** Gwyddom fod cartrefi yng Nghymru yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru ac am 15% o'n holl allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ochr y galw[10]. Mae adroddiad y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru yn gosod targed i bob cartref newydd yng Nghymru gael ei adeiladu a'i weithredu i fod yn garbon isel, a bod yn effeithlon o ran ynni a dŵr, dim hwyrach na 2025[11]. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn tai cymdeithasol yn chwarae rôl allweddol yn yr uchelgais hon, gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern sy'n cyfrannu at leihau gwastraff deunyddiau yn y broses adeiladu. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn tai cymdeithasol newydd yn gwreiddio egwyddorion yr economi gylchol drwy ddewis deunyddiau adeiladu y gellir eu hailgylchu ac sy'n cyfrannu at dargedau lleihau carbon. **Rhaid i'n buddsoddiadau mewn stoc tai cymdeithasol a ariennir yn gyhoeddus gyflawni yn erbyn y targedau a nodir yn Cymru Sero Net**.

---

10 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad.pdf**

11 Adolygiad annibynnol o ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru: adroddiad **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad.pdf** – Tudalen 13

**13.** Er ein bod yn gallu sicrhau bod y gwaith a ariennir yn gyhoeddus o adeiladu stoc dai newydd yng Nghymru yn effeithlon o ran ynni, mae 1.4m o gartrefi yn bodoli eisoes yng Nghymru. Mae rhai ohonynt ymysg y stociau tai hynaf a'r lleiaf thermo-effeithlon yn y DU ac Ewrop. Cafodd 32% o stoc dai Cymru ei hadeiladu cyn 1919[12]. Er y ceir cydnabyddiaeth y bydd yn rhaid i ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol yng Nghymru fod yn ymdrech ar y cyd[13], mae angen clir am fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r newid hwn. Mae'n bosibl y bydd angen mesurau ôl-osod ar bron i 300,000 o gartrefi cymdeithasol a thlawd o ran tanwydd dros y 10 mlynedd nesaf[14]. **Rhaid i'n buddsoddiadau mewn seilwaith gefnogi'r gwaith o ddatgarboneiddio cartrefi presennol, yn enwedig yn y sector cymdeithasol, a sicrhau bod cartrefi'n cael eu datgarboneiddio'n dda**, mewn ffordd nad yw'n cynyddu biliau tanwydd deiliaid tai yng Nghymru sydd eisoes yn wynebu tlodi tanwydd.

**14.** Er bod ein hymyriadau yn y sector rhentu preifat yng Nghymru yn cynyddu'r cyflenwad o eiddo sydd ar gael i awdurdodau lleol eu defnyddio i arfer eu dyletswyddau digartrefedd, maen nhw hefyd yn gyfleoedd i annog perchnogion i wella safonau eu heiddo drwy osod safonau gorfodol ar gyfer cymryd rhan mewn cynlluniau. **Bydd ein buddsoddiad cyfalaf mewn cefnogi'r sector rhentu preifat yng Nghymru wedi'i ddylunio i gymell gwelliannau ym mherfformiad ynni eiddo**.

**15.** Fodd bynnag, mae disgwyl i'r galw am drydan ddyblu yng Nghymru (ac yng ngweddill y DU) erbyn 2050[15]. Bydd angen i'r newid sylfaenol a chyflymach i economi ddi-garbon yr ydym wedi ymrwymo'n gyfreithiol iddo fod yn seiliedig ar system ynni ddi-garbon. Byddai hyn yn annhebygol o gael ei gyflawni ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol o ganlyniad i'r argyfwng hinsawdd, ac mewn ffyrdd sy'n dderbyniol i bobl Cymru, pe bai'r farchnad yn gyfrifol amdano. Er nad yw polisi ynni yn fater datganoledig, **byddwn yn cefnogi arloesedd mewn technoleg ynni adnewyddadwy newydd ac yn parhau i ddatblygu capasiti cynhyrchu ynni cymunedol a dan berchnogaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan adeiladu ar y polisi cyhoeddedig i gynyddu faint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu dan berchnogaeth leol yng Nghymru**[16].

**16.** Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau bod gan fusnesau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i oresgyn heriau yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i leihau allyriadau carbon o'r sector diwydiant. Gwyddom y bydd dulliau ar wahân i fuddsoddi cyfalaf yn hollbwysig er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, ond mae gwneud ein buddsoddiad cyfalaf mewn busnesau yn amodol ar eu cyfraniad i'r her yn chwarae rôl ymarferol a chyfeirio. **Byddwn yn sicrhau bod ein cymorth cyfalaf i fusnesau yng Nghymru yn cael ei flaenoriaethu i ganiatáu iddynt newid yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i economi ddi-garbon**.

**17.** Ar hyn o bryd, ecosystemau morol a daearol yw'r unig suddfannau ar gyfer allyriadau carbon a gynhyrchir o weithgareddau pobl. Mae 5.6 gigaton gros o garbon yn cael ei ddal a'i storio bob blwyddyn (sy'n cyfateb i tua 60% o allyriadau anthropogenig byd-eang[17]). Yng Nghymru, mawndiroedd yw'r storfa ddaearol fwyaf o garbon yn ôl arwynebedd uned. Mae tua 7Mt o garbon yn cael ei storio mewn mawn dwfn ar draws ystad Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru ac mae potensial i ddatgloi bron i 10 gwaith y cyfaint hwn ar draws adnodd mawndiroedd cyfan Cymru. Fodd bynnag, dim ond pan fydd mawn yn tyfu y gall storio carbon yn ddiogel a dim ond mewn cynefinoedd iach y gall dyfu. Mae mawndiroedd wedi'u niweidio yn rhyddhau carbon deuocsid yn ôl i'r atmosffer, felly mae gymaint â hynny'n bwysicach eu bod yn cael eu rheoli'n briodol. **Byddwn yn buddsoddi yn ein cyfalaf amgylcheddol naturiol i gydnabod y rôl mae'n ei chwarae yn dal a storio carbon**.

---

12 Adolygiad annibynnol o ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru: adroddiad **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad.pdf** – Tudalen 10

13 **www.neweconomics.org/uploads/files/Financing-Wales-Housing-Decarbonisation.pdf** (neweconomics.org)

14 Datganiad Ysgrifenedig: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2020-21 (6 Tachwedd 2020) **llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-rhaglen-ol-osod-er-mwyn-optimeiddio-2020-21**

15 **www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/Adroddiad-Cyngor-Y-Llwybr-i-Gymru-Sero-Net.pdf** – Tudalen 18

16 **www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/datganiad-polisi-perchnogaeth-leol-ar-gynhyrchu-ynni-yng-nghymru.pdf**

17 **www.ipbes.net/sites/default/files/inline/files/ipbes_global_assessment_report_summary_for_policymakers.pdf** – Tudalen 10

**18.** Er bod yn rhaid cynllunio ein portffolio cyffredinol o fuddsoddiadau seilwaith i gefnogi economi ddi-garbon, lle mae buddsoddiadau mewn rhaglenni seilwaith penodol yn arwain yn anochel at gynnydd mewn carbon, mae lliniaru'r allyriadau hynny hefyd yn adnodd pwysig o ran rheoli ein llwybr cyffredinol. Er enghraifft, gallai buddsoddiad ychwanegol yn y farchnad eiddo masnachol gael effaith negyddol o ran y newid yn yr hinsawdd os, drwy hybu rhagor o weithgarwch economaidd yn gyffredinol, ei fod yn arwain at gynnydd mewn allyriadau drwy gynnydd mewn gweithgarwch busnes a theithio. Fodd bynnag, gallwn liniaru'r effeithiau hyn drwy ddylunio cynaliadwy a mynnu bod adeiladau newydd yn fwy effeithlon o ran ynni na'r stoc bresennol, a stoc gyfatebol a allai fod wedi cael ei chyflwyno heb ymyriad Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, gan weithredu'r egwyddorion yn Cymru'r dyfodol, dylid lleoli eiddo masnachol newydd mewn safleoedd sy'n hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gynaliadwy. **Drwy fuddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys adeiladau masnachol, nid yn unig y byddwn yn lleihau allyriadau carbon cysylltiedig posibl ond hefyd yn dangos gwell arweinyddiaeth o ran cynyddu effeithlonrwydd**.

**19.** Yn 2018, roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru – 62% o ddefnyddio ceir preifat, 19% o gerbydau nwyddau ysgafn ac 16% o fysiau a cherbydau nwyddau trwm[18]. Roedd Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, wedi gosod targed bod 45% (32% ar hyn o bryd) o deithiau'n cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed neu ar feic erbyn 2040 er mwyn aros ar y llwybr lleihau carbon. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Panel Adolygu Ffyrdd y bydd yn ystyried gosod profion ar gyfer penderfynu pryd mai ffyrdd newydd yw'r atebion cywir ar gyfer problemau trafnidiaeth, sy'n dangos yn glir ein hymrwymiad i'r targed hwnnw. Mae gwerthuso rhaglenni'r DU wedi dangos bod buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol diogel a hwylus yn arwain at gyfraddau cerdded a beicio uwch, ac mae Llwybr Newydd yn blaenoriaethu datblygu ymyriadau sy'n cefnogi teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill. **Wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch buddsoddi mewn seilwaith, byddwn yn adlewyrchu'r hierarchaeth hon ar draws y gwahanol bortffolios trafnidiaeth, gan gydnabod y rôl gall newid dulliau teithio ei chwarae mewn datgarboneiddio**.

**20.** Er ei bod hi'n hanfodol bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cael eu blaenoriaethu i chwarae rôl allweddol yn lleihau allyriadau carbon, nid dim ond â buddsoddi cyfalaf neu fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru hyd yn oed y mae datgarboneiddio ein heconomi yn ymwneud. Mae'r sector trafnidiaeth uchod yn enghraifft allweddol o hyn – er bod buddsoddi mewn seilwaith yn galluogi'r lefel hon o newid dulliau teithio, mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod mai'r prif sbardunwyr ar gyfer cyflawni economi carbon isel fydd system prisio carbon effeithiol a newidiadau rheoleiddio ategol – er enghraifft cyfyngu ar werthu cerbydau ffordd sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Mae rhai elfennau o fewn cymhwysedd Llywodraeth y DU, heb eu datganoli i Gymru. Fel yr amlinellir ym mhennod cyflawni'r strategaeth hon **byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ystyried anghenion unigryw a chyd-destun penodol Cymru wrth lunio polisïau sy'n berthnasol ar draws y DU gyfan, ac i weithio gyda ni i ddatblygu dadansoddiad o effaith polisi datgarboneiddio Llywodraeth y DU ar Gymru**.

## Buddsoddi mewn Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol

**21.** Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn mynd ati i wella bioamrywiaeth a rhoi hwb i gadernid ecosystemau yng Nghymru. Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithio'n dda yn darparu atebion naturiol sy'n gwella cadernid, sydd yn eu tro'n helpu cymdeithas i greu swyddi, i gefnogi bywoliaeth a llesiant pobl, i addasu i effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd, ac i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

18 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf** – Tudalen 28

**22.** Mae'r strategaeth hon yn ystyried seilwaith yn y termau ehangaf a'r tu hwnt i'r amgylchedd adeiledig traddodiadol, gan gynnwys buddsoddi cyfalaf yn ein hasedau naturiol a'n hecosystemau. Yn yr un modd â buddsoddiadau mewn cysylltiad â'r newid yn yr hinsawdd, gellir sbarduno gwelliannau mewn cyfalaf naturiol drwy fuddsoddi mewn gwell seilwaith, a drwy fuddsoddi'n well mewn seilwaith.

**23.** Er bod buddsoddi mewn seilwaith yn galluogi ymddygiad sy'n gallu gwella bioamrywiaeth, dim ond rhan o'r ateb yw hynny bob amser. Rhaid i'n buddsoddiadau mewn seilwaith yn y maes hwn gyd-fynd â'n polisïau ehangach ar gymorth amaethyddol, defnyddio a chynllunio tir, yn ogystal â rheoli a defnyddio ein hadnoddau naturiol.

**24.** Mae buddsoddi yn y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yng Nghymru yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r argyfwng hinsawdd a natur, a dadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem – sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith Cymru[19] – yn cydnabod bod bioamrywiaeth yn sail i lesiant pobl yn ogystal â bod yn werthfawr yn ei rhinwedd ei hun. Ochr yn ochr â buddsoddi'n uniongyrchol mewn cynefinoedd eu hunain, rhaid inni hefyd ystyried sut mae cynnal a gwella ein dealltwriaeth wyddonol o rywogaethau a chynefinoedd sy'n dirywio neu dan fygythiad. **Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol cadarn, gan gydnabod y broses o fabwysiadu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, a'i bwysigrwydd**.

**25.** Gall buddsoddi yn ein coetiroedd wella bioamrywiaeth drwy greu mannau agored a chynyddu bioamrywiaeth strwythurol, rhywogaethau a genetig. Er enghraifft, gall codi ffensys i reoli lefelau ceirw gefnogi aildyfiant naturiol a gwella haen llwyni coetiroedd, a gall adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol wella'r broses o adfer nodweddion ecolegol, hyd yn oed wrth i'r blanhigfa aeddfedu. Mae'r Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol yn amcangyfrif y gallai fod yn bosibl dod â hyd at 40% o goetiroedd Cymru nad ydynt yn cael eu rheoli ar hyn o bryd (tua 53,000 hectar) yn ôl dan reolaeth gynaliadwy[20]. Byddai dod â choetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli yn ôl dan reolaeth yn darparu cyfle i sicrhau rhai canlyniadau cyflym o ran creu coetiroedd, a allai gymryd degawdau i sicrhau buddion fel arall. Mae strategaeth Coetiroedd i Gymru[21] yn sefydlu bod coetiroedd, yn enwedig rhai hynafol, yn cefnogi mwy o rywogaethau dan fygythiad ac agored i niwed nag unrhyw gynefin arall. Mae coed a choetiroedd yn arwyddocaol iawn i beillwyr hefyd, gan eu bod yn ffynhonnell eang o baill a neithdar. **Byddwn yn buddsoddi yng nghoetiroedd Cymru – gan greu rhagor o goetiroedd cymysg, gwella coetiroedd sy'n bodoli eisoes, a dechrau eu rheoli'n weithredol**.

**26.** Rydym yn gwybod y byddai buddsoddiad cyfalaf cychwynnol mewn gwaith adfer ar gyfer mawndiroedd Cymru yn eu gwella i gyflwr adfer[22], ac y byddai'r adferiad parhaus wedyn yn cael ei gefnogi gan drefniadau rheoli cynaliadwy â mewnbwn cymharol isel. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd[23] yn mynegi pwysigrwydd mawn dwfn o ran bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y 169 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a nodir ar gyfer un neu fwy o nodweddion mawndir sydd o ddiddordeb biolegol. Mae hyn yn cynnwys darparu adnodd cynefin amrywiol ar gyfer ystod eang o rywogaethau infertebrata arbenigol a rhai sy'n dirywio neu dan fygythiad. **Felly, byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad cyfalaf naturiol mewn mawndiroedd yn cydnabod y buddion eang i fioamrywiaeth, yn ogystal â'r buddion o ran dal a storio carbon**.

19 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

20 Datganiad Ysgrifenedig: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2020-21 (6 Tachwedd 2020) **llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-rhaglen-ol-osod-er-mwyn-optimeiddio-2020-21**

21 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf**

22 Cyfoeth Naturiol Cymru / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn **www.naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/anglesey-and-llyn-fens-life-project/?lang=cy**

23 **www.cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692545/national-peatlands-action-programme.pdf**

**27.** Mae cyfranogiad mewn hamdden awyr agored yn uchel iawn yng Nghymru. Mae 81% o oedolion yn cymryd rhan mewn un neu fwy o weithgareddau o leiaf unwaith y flwyddyn[24]. Mae hawliau tramwy cyhoeddus, tir mynediad agored a thirweddau dynodedig oll yn cyfrannu'n enfawr at y cyfranogiad hwn, ac mae buddsoddi mewn seilwaith yn hollbwysig i ganiatáu i bobl ddefnyddio a mwynhau ein hamgylchedd naturiol a'n tirweddau dynodedig yma yng Nghymru. **Byddwn yn buddsoddi yn y seilwaith galluogi, gan gynnwys ein tirweddau dynodedig, i ganiatáu mynediad i'n mannau gwyrdd a glas, a chynyddu'r defnydd o'n hasedau amgylcheddol**.

**28.** Fodd bynnag, mae'r meysydd hyn o fuddsoddi uniongyrchol i wella bioamrywiaeth yn debygol o fod yn rhan gymharol fach o'n buddsoddiad cyffredinol. Bydd gan raglenni buddsoddi mewn seilwaith sylweddol brif ganlyniadau sy'n cyflawni yn erbyn themâu llesiant eraill ac mae'n hanfodol bod buddion eilaidd ym maes bioamrywiaeth yn cael eu hymgorffori yn y rhaglenni hyn.

**29.** Er enghraifft, mae "ystad feddal" ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (y mannau gwyrdd a'r tir sy'n gysylltiedig â ffordd) yn adnodd naturiol sylweddol o tua 3000 hectar. Gan fod lefel gymharol isel o darfu wedi bod arnynt, mae gan safleoedd o'r fath werth bioamrywiaeth uchel[25], aa drwy ddangos yr arferion gorau ar ein cefnffyrdd gallwn gymryd camau sy'n gwella cysylltedd ac amrywiaeth ein hecosystemau. Er enghraifft, ers 2018 mae dros 60,000 o goed a llwyni brodorol, a dros 50,000 o fylbiau a phlanhigion ifanc brodorol wedi cael eu plannu ar draws yr ystad feddal bresennol, ynghyd â 100 o brosiectau gwella ymyl ffyrdd unigol er mwyn elwa blodau gwyllt a pheillwyr. **Yn gyson â'r ymrwymiad yn Llwybr Newydd**[26]**, byddwn yn cynnal bioamrywiaeth ac yn gwella cadernid ecosystemau drwy ein buddsoddiadau mewn seilwaith ar y rhwydwaith ffyrdd**.

**30.** Mae'n hanfodol bod ein buddsoddiadau strategol mewn seilwaith yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau trawsnewid gwyrdd i Gymru, gan ddechrau yn ein cymunedau lleol. Mae'r cyhoedd yn fwy a mwy awyddus i'n trefi fod yn wyrdd ac yn fannau mwy dymunol. Mae seilwaith gwyrdd yn rhan hanfodol o'n hagenda Trawsnewid Trefi ac mae ein cefnogaeth i seilwaith gwyrdd wedi arwain at wneud seilwaith cyhoeddus presennol yn fwy gwyrdd, er mwyn gwella harddwch a bioamrywiaeth. Er enghraifft, roedd prosiect adfywio yng Nghaerffili i addasu'r hen Swyddfa Heddlu a Llysoedd Ynadon yn cynnwys darparu to gwyrdd, tirweddu bioamrywiol a man hamdden yn yr awyr agored.

**31.** Hefyd byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn byd natur yn ein lleoedd cyffredin yn ogystal â'n safleoedd gwarchodedig a'n coetiroedd. Rydym am sicrhau bod cymunedau'n ymgysylltu â'r gwaith o adfer a gwella byd natur gan ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf i wneud gwahaniaeth ar lefel leol. Er enghraifft, er mwyn creu mannau tyfu bwyd cymunedol, plannu perllannau a choed lleol, neu greu dolydd blodau gwyllt a chreu mannau gwyrdd 'ar garreg eich drws'. Ar ben hynny, mae ein dogfen gyhoeddedig Adeiladau Lleoedd Gwell yn canolbwyntio ar yr elfennau allweddol o Bolisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys pwysigrwydd mannau gwyrdd, hybu creu mannau newydd, a gwella mynediad pobl at fannau gwyrdd. **Byddwn yn buddsoddi mewn ehangu mannau gwyrdd Cymru, gan gynnwys drwy ein hagenda Trawsnewid Trefi, gan adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol yr amgylchedd naturiol i'r cyhoedd**[27].

**32.** Bydd achosion lle bydd yn rhaid cyfaddawdu rhwng blaenoriaethau buddsoddi mewn seilwaith. Er enghraifft, er bod buddsoddi yn ein rhwydweithiau amddiffynfa rhag llifogydd ffisegol yn gallu diogelu cynefinoedd naturiol rhag effaith ddinistriol llifogydd, mewn achosion eraill gall amddiffynfeydd ar ein morlin ar y cyd â chodiad yn lefel y môr arwain at

24 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Ymarfer - Hamdden Awyr Agored (cyfoethnaturiol.cymru) **www.cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/682844/national-survey-bulletin-outdoor-recreation-16-17-cym.pdf**
25 Managing road verges for wildlife | The Wildlife Trusts **www.wildlifetrusts.org/wildlife/managing-land-wildlife/managing-road-verges-wildlife**
26 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf –** Tudalen 29
27 **www.centrefortowns.org/reports/public-opinion-on-the-environment/viewdocument/24 –** Tudalen 3

golli cynefinoedd rhynglanwol[28]. Mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud iawn am y colledion hyn ac yn darparu unrhyw ddigolllediad cynefinoedd angenrheidiol. **Pan fydd ein buddsoddiadau hanfodol mewn seilwaith yn cael effaith anorfod ar fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol, byddwn yn buddsoddi mewn mesurau gwrthbwyso i leihau a lliniaru'r effeithiau hynny.**

## Gwella ansawdd aer a dŵr

**33.** Mae gan ein rhaglenni gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau gydag ansawdd aer a dŵr gysylltiadau clir â chanlyniadau sy'n sail i'n themâu Llesiant Cymdeithasol o ganlyniad i'r problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael yn benodol. Fodd bynnag, mae buddion clir i'r amgylchedd ehangach drwy weithredu i wella ansawdd adnoddau naturiol ledled Cymru. Mae'r rôl y gall buddsoddi mewn seilwaith ei chwarae yn sicrhau'r gwelliannau hyn yn cael ei hystyried yn yr adran hon.

**34.** Yng Nghymru, mae baich ansawdd aer gwael ar farwolaethau cynnar mewn amrediad cyfatebol o rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn[29]. Gall llygryddion yn yr aer setlo ar y tir a chyrff dŵr, a throsglwyddo i blanhigion ac anifeiliaid, neu achosi newidiadau i gynefinoedd ar y tir a'r dŵr.

**35.** Yn yr un modd, mae ein hymyriadau ansawdd dŵr yn hollbwysig i fyd natur, i bobl ac i fusnesau, ac mae'r canlyniadau y mae buddsoddi yn eu galluogi yn torri ar draws y themâu hyn. Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i atal dirywiad a gwella'r holl gyrff dŵr i statws "da" erbyn 2027. Yn 2018, adroddodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai dim ond 37% o'r 942 o gyrff dŵr yng Nghymru sy'n cyrraedd y safon honno.

**36.** Unwaith eto rhaid inni gydnabod, er bod gan fuddsoddi (a pheidio â buddsoddi) mewn seilwaith rôl allweddol i'w chwarae yn gwella ansawdd aer a dŵr, yr effaith gyfunol â'r amgylchedd deddfwriaethol a rheoleiddiol ehangach, gan gynnwys trwyddedau amgylcheddol, fydd yn gyrru'r gwelliannau amgylcheddol hyn yn y pen draw.

**37.** Hefyd mae gwahaniaeth clir rhwng buddsoddiadau sydd wedi'u dylunio i adfer problemau presennol o ran ansawdd, a buddsoddi mewn seilwaith mewn sectorau eraill sydd wedi'i ddylunio i leihau'r lefelau llygredd yn y lle cyntaf.

**38.** Gwyddom fod coetiroedd yn gwella ansawdd aer yn effeithlon iawn drwy dynnu deunydd gronynnol o'r aer. Mae coed tua phum gwaith yn fwy effeithlon yn tynnu mân ddeunydd gronynnol (PM2.5) na mathau eraill o lystyfiant fel cnydau, rhostiroedd neu laswelltiroedd[30]. Er bod hyn yn wir mewn ardaloedd gwledig a threfol, mae'n arbennig o effeithiol pan fo coetir yn agos i adeiladau amaethyddol neu ddiwydiannol ac wedi'i ddylunio'n briodol mewn coridorau trefol neu drafnidiaeths[31]. **Drwy fuddsoddi mewn coetiroedd fel seilwaith gwyrdd, byddwn yn sicrhau bod y buddion o ran ansawdd aer yn cael eu hystyried ar y cyd â'r buddion o ran datgarboneiddio**.

**39.** Mae Cymru ar y trywydd iawn i fod yn genedl ddi-wastraff erbyn 2050[32]. Yn y lle cyntaf, bydd buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi a chyflawni economi gylchol yn ei gwneud hi'n bosibl defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, ac felly'n lleihau llygredd aer fel sgileffaith prosesau cynhyrchu aneffeithlon. Bydd gwelliannau ychwanegol i ansawdd aer yn cael eu sbarduno drwy leihau faint o wastraff bioddiraddadwy yr ydym yn ei anfon i safleoedd tirlenwi a drwy newid fflyd drafnidiaeth y sector cyhoeddus (gan gynnwys fflydoedd sbwriel awdurdodau lleol) i gerbydau allyriadau isel iawn. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r broses o newid i economi gylchol, gan gynyddu'r buddion o ran ansawdd aer yn ogystal â datgarboneiddio**.

---

28 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru.pdf** – Tudalen 29
29 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/cynllun-aer-glan-gymru-awyr-iach-cymru-iach.pdf** – Tudalen 23
30 Pecyn Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol **www.erammp.wales/sites/default/files/ERAMMP%20Rpt-34%20NF%20Adroddiad-2%20Heb%20ei%20reoli%20v1.0_cy.pdf** – Tudalen 25
31 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/cynllun-aer-glan-gymru-awyr-iach-cymru-iach.pdf** – Tudalen 46
32 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf** – Tudalen 11

**40.** Yn y sector trafnidiaeth ehangach, gwyddom fod trafnidiaeth ar y ffyrdd, rheilffyrdd, yn yr awyr a chludiant domestig yn gyfrifol am 50% o allyriadau nitrogen ocsid ac 16% o allyriadau mân ronynnau yn y DU, ac yn benodol mae trafnidiaeth ar y ffyrdd yn gyfrifol am tua 80% o grynodiadau NOx ar ochr ffyrdd[33]. Mae Llwybr Newydd yn sefydlu hierarchaeth buddsoddi mewn seilwaith sydd wedi'i dylunio i annog pobl i newid eu dull teithio o geir preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, dim ond un agwedd ar newid yw newid dulliau teithio. Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd gwerthu ceir petrol a diesel newydd wedi'i wahardd o 2030 ymlaen yn amlygu pa mor bwysig yw buddsoddi mewn seilwaith galluogi i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan preifat. **Byddwn yn blaenoriaethu ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn y portffolio trafnidiaeth yn unol â'r hierarchaeth sefydledig er mwyn cefnogi'r broses o newid dulliau teithio a'r newid i gerbydau trydan**.

**41.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyflawni rhaglen gwaith cyfalaf uniongyrchol i gynyddu nifer y cyrsiau dŵr sy'n cyrraedd y statws ansawdd da. Mae'r camau gweithredu wedi cael eu targedu at y pum ffactor allweddol y nodwyd eu bod yn atal y cyrff dŵr hyn rhag cyrraedd y statws da – addasiadau ffisegol, llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig, llygredd trefol, carthion a dŵr gwastraff, a hen fwyngloddiau metel. **Byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith os ydynt yn helpu i gyrraedd targedau statudol Gweinidogion Cymru**.

**42.** Nid dim ond ag amddiffynfeydd y mae ein buddsoddiad mewn seilwaith llifogydd yn ymwneud. Mae ein dull o reoli risg hefyd yn ystyried sut mae rheoli dŵr a dalgylchoedd i leihau'r risg drwy Reoli Llifogydd yn Naturiol, gan addasu lleoedd i ymdopi'n well â pherygl niferus a chynyddol o lifogydd. Mae'r math hwn o ymyriad yn creu buddion ychwanegol, gan gynnwys gwella ansawdd dŵr[34]. **Yn gyson â'r egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n cefnogi'r dull o Reoli Llifogydd yn Naturiol**.




33 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/cynllun-aer-glan-gymru-awyr-iach-cymru-iach.pdf – Tudalen 59
34 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru.pdf – Tudalen 29

## Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy

**43.** Erbyn hyn, mae'r gyfradd ailgylchu genedlaethol yng Nghymru wedi cyrraedd dros 65%, gan ragori ar ein targed diweddaraf a chadarnhau ein lle fel un o'r gwledydd sy'n ailgylchu fwyaf yn y byd. Mae ein strategaeth "Mwy nag Ailgylchu[35] yn gosod targed uchelgeisiol ar gyfer 2050, sef bod yn wlad sy'n meddwl yn reddfol ac yn bwriadu defnyddio cyn lleied o adnoddau â phosibl, gan sicrhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu defnyddio cyn hired â phosibl ac yna'n dod o hyd i ffyrdd newydd o'u defnyddio ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol gyntaf.

**44.** Mae amcanion ein buddsoddiadau yn seilwaith yr economi gylchol yn drawsbynciol ac mae'r buddion economaidd ac amgylcheddol ehangach eisoes wedi cael eu hystyried. Fodd bynnag, bydd buddsoddi mewn seilwaith yn adeiladu ar y buddsoddiad gwerth biliwn o bunnoedd yr ydym wedi'i wneud eisoes mewn ailgylchu gwastraff cartrefi ledled y wlad ac yn caniatáu i ni gefnogi'r cynnydd mewn benthyg, llogi, prydlesu, ailddefnyddio, atgyweirio, ailbeiriannu ac ailweithgynhyrchu.

**45.** Yn unol ag agenda "Trawsnewid Trefi" Llywodraeth Cymru, rydym yn rhoi canol trefi wrth galon ein dull. Yn ystod y pandemig mae llawer o ddinasyddion wedi ailgysylltu â'u cymunedau lleol ac yn talu sylw agosach i'r adnoddau yr ydym yn eu defnyddio. Gwyddom fod tua 40% o'r holl eitemau mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn addas i'w hailddefnyddio[36]. Fel y nodir ym mhennod 4, un o egwyddorion trosfwaol allweddol buddsoddi mewn seilwaith yw creu cymaint â phosibl o gyfleoedd i gydleoli gwasanaethau, lle bo hynny'n briodol. Mae datblygu canolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio yn gyfle i gysylltu â buddsoddiadau eraill, gan gynnwys ein hagenda Trawsnewid Trefi ehangach ac ysgolion cymunedol. **Mae cyfleoedd clir i gefnogi gweithgareddau atgyweirio ac ailddefnyddio drwy ganolfannau mewn canol trefi, a byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i hybu datblygiad yr economi gylchol yn y mannau hynny**.

**46.** Bydd newid i economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn gofyn am weithredu ar y cyd ar draws pob sector mewn cymdeithas, ond mae gan y sector cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth. Gallai hyn fod ar ffurf dangos arweinyddiaeth, ond hefyd fel ffordd o fanteisio ar yr amrywiaeth enfawr o weithgarwch y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyflawni. **Byddwn yn parhau i gefnogi cyrff sy'n cael arian cyhoeddus i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cyflawni economi ddi-wastraff,** gan adeiladu ar yr ystod sylweddol o fuddsoddiadau sydd eisoes yn cael eu cefnogi, o wella ailgylchu mewn cymunedau i arloesi o'r radd flaenaf yn ein Prifysgolion.

**47.** Er ei bod hi'n hollbwysig pontio'r sector cyhoeddus i economi ddi-wastraff, rhaid inni sicrhau hefyd bod busnesau preifat yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wireddu ein huchelgais 2050. Bydd rhywfaint o'r cymorth hwn ar ffurf cyngor a chanllawiau, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith preifat a hybu cadwyni cyflenwi llai, a chanolbwyntio ar gaffael deunyddiau ar lefel fwy lleol. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad cyfalaf mewn datblygiad economaidd yn galluogi busnesau i ddatgloi'r buddion y gall newid i economi gylchol eu sicrhau**.

**48.** Hefyd, o ran y seilwaith yr ydym yn buddsoddi ynddo eisoes, gellir gwneud hynny mewn ffordd sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Er enghraifft, mae defnyddio cartrefi wedi'u hadeiladu mewn ffatri gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern yn cyfrannu at leihau gwastraff deunyddiau yn ystod y broses adeiladu, o'u cymharu â dulliau adeiladu traddodiadol. Mae ein Gofynion Ansawdd Datblygu 2021 newydd yng Nghymru, sy'n gosod y safon ar gyfer y tai cymdeithasol sy'n cael cyllid gennym, yn hybu'r defnydd o egwyddorion yr economi gylchol drwy ddewis deunyddiau adeiladu y gellir eu hailgylchu ac sy'n cyfrannu at dargedau lleihau carbon. **Byddwn yn parhau i archwilio a defnyddio technolegau adeiladu carbon isel newydd, gan gynnwys Dulliau Adeiladu Modern, yn ein buddsoddiadau mewn seilwaith tai cymdeithasol**.

---

35 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf**
36 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/cronfa-economi-gylchol-adferiad-gwyrdd-2020-21-ffurflen-gais.odt**

Pennod 5

# Llesiant Cymdeithasol

## Trosolwg

**1.** Ein gweledigaeth yw Cymru gyfartal sy'n blaenoriaethu iechyd a llesiant ei dinasyddion, ac mae gan ein buddsoddiadau strategol cyfunol mewn seilwaith rôl allweddol i'w chwarae. Wrth bennu pa raglenni buddsoddi y mae'n rhaid eu hariannu i wireddu'r weledigaeth hon, byddwn yn sicrhau bod y gwerthoedd sy'n nodweddiadol o Gymru – cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol – wedi'u gwreiddio'n glir a bod egwyddorion creu lleoedd wrth galon popeth a wnawn.

**2.** Byddwn yn sicrhau bod gan bobl fynediad at ofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel, gan adeiladu ar y cadernid anhygoel sydd wedi'i ddangos drwy gydol pandemig y coronafeirws, yn ogystal â chydnabod y pwysau sylweddol y mae wedi'i greu. Hefyd rydym am i'n buddsoddiadau wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd mwy boddhaus a bywiog i weithio a byw ynddynt, a sicrhau, wrth inni ddiogelu ac ailadeiladu ein gwasanaethau cyhoeddus, bod y gwasanaethau hynny'n gweithio i gael gwared ar anghydraddoldeb o bob math.

**3.** Mae golwg eang o'r mathau o seilwaith sy'n gallu sicrhau llesiant cymdeithasol yn cael ei chymryd yn yr adran hon. Er ei bod hi'n weddol amlwg bod y mathau traddodiadol o seilwaith cymdeithasol – ysbytai, ysgolion ac ati – yn gallu sicrhau canlyniadau llesiant cymdeithasol, mae rhai o'r buddion a fyddai'n cael eu sbarduno gan yr hyn a ystyrir yn gyffredinol yn seilwaith economaidd yn perthyn yn gadarn i'r maes cymdeithasol. Yn ogystal â hynny, mae buddsoddi mewn tai yn hollbwysig i lesiant pobl yng Nghymru.

**4.** Yn yr un modd, mae holl fuddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau mewn seilwaith yma, hyd yn oed os nad oes ased "seilwaith" Llywodraeth Cymru yn dilyn. Er enghraifft, mae grantiau cyfalaf a chymorth i fusnesau preifat yn sbarduno buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru, ac mae ariannu benthyciadau'n creu ased ariannol. Mae'n hollbwysig bod y buddsoddiadau hyn yn gweithio i gyflawni'r un canlyniadau strategol ledled Cymru â gwariant llywodraethol ar seilwaith "traddodiadol".

**5.** Yn yr un modd â chyflawni themâu llesiant eraill, mae buddsoddi mewn seilwaith yn chwarae rôl allweddol yn cyflawni'r canlyniadau strategol – ond dim ond un rôl yw hon mewn cynhyrchiad ehangach o lawer. Rhaid i ddarparu gwasanaethau, rheoleiddio a chyfathrebu gydweithio i sicrhau llesiant cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y buddsoddiadau mewn seilwaith a ddisgrifir uchod ac nid yw'n ystyried y cyllid sydd wedi'i ymrwymo i ddulliau cyflawni ehangach.

## Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru

**6.** Prif rôl llywodraeth yw sicrhau bod ei dinasyddion yn iach ac yn ddiogel. Er bod poblogaeth iach yn bwysig er mwyn gwella datblygiad economaidd, mae'n uchelgais bwysig ynddi'i hun. Gan gydnabod yr angen i sicrhau Cymru iachach, rhaid i'n buddsoddiadau sicrhau bod pobl yn gallu byw bywyd iach a boddhaus.

**7.** Mae ein buddsoddiad yn ein sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ddull clir ac uniongyrchol o wella iechyd a llesiant pobl Cymru. Gall buddsoddi mewn technoleg gyflymu diagnosis a chyfrannu'n well at ddewisiadau triniaeth – mae hyn ar ffurf cyfarpar newydd gyda thechnoleg fwy modern, cyflym ac effeithlon yn aml. Er enghraifft, mae gan beiriannau MRI newydd amseroedd sganio byrrach sy'n golygu bod modd gweld rhagor o gleifion, sy'n helpu i fynd i'r afael ag amseroedd aros.

**8.** Yn yr un modd, mae darparu llety sy'n glinigol briodol yn rhan allweddol o Raglen Gyfalaf y GIG, sy'n arwain yn uniongyrchol at well canlyniadau clinigol. Mae buddsoddi mewn meysydd fel theatrau hybrid sy'n lleihau'r siawns o haint yn un enghraifft. Gan fod Ystad y GIG yng Nghymru yn estyn dros ardal mor fawr, mae cynhaliaeth a buddsoddiad parhaus i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn amgylchedd diogel yn rhan allweddol o Raglen Gyfalaf y GIG.

**9.** Mae Cymru Iachach[37] hefyd yn gosod y weledigaeth o system gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig yn gryf ar yr egwyddor atal, sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r dulliau angenrheidiol i bobl reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Bydd y system hon yn gofyn am ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig wedi'u hategu gan seilwaith modern a phriodol.

**10.** Bydd y galw uwch am driniaeth ac effaith COVID-19 ar weithgarwch yn ffactor mawr yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth i'r GIG geisio nid yn unig trawsnewid ond hefyd delio'n effeithiol â'r galw sy'n bodoli, ac yn cynyddu. Gwyddom y bydd integreiddio gwasanaethau a chanolbwyntio ar atal yn hanfodol. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi ein GIG a'n gwasanaethau gofal i ddarparu gofal rhagorol mewn amgylcheddau diogel, integredig sy'n addas i'r diben – ac yn hygyrch i bawb – er mwyn hybu a gwella llesiant pobl**.

**11.** Mae'r galw ar ein gwasanaethau iechyd a gofal yn parhau i gynyddu wrth i ddemograffeg Cymru newid. Rhan allweddol o'n hagenda llesiant ac atal yw sicrhau bod cartrefi pobl sy'n wynebu'r heriau mwyaf yn eu helpu i fyw'n annibynnol am hirach. Mae hyn yn gwella llesiant ac yn lleihau'r galw ar wasanaethau iechyd acíwt a gofal preswyl. I gefnogi plant a theuluoedd ag anghenion uwch, pobl ag anableddau corfforol a dysgu, a phobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia, **byddwn yn buddsoddi mewn tai a llety arloesol i fodloni anghenion gofal**.

**12.** Prif nod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn ein seilwaith rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yw lleihau'r perygl i bobl ac i gymunedau yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol[38]. Gwyddom fod y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn un o brif ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd – mae stormydd, llifogydd sydyn a chodiad yn lefel y môr yn debygol o fod yn fwy cyffredin. At y diben hwn, mae ein buddsoddiadau yn ataliol eu natur yn bennaf, ac wedi'u dylunio i osgoi'r difrod y mae llifogydd yn ei achosi. Ledled Cymru, mae tua 245,000 eiddo yn wynebu perygl llifogydd oherwydd afonydd[39], y môr a dŵr wyneb, a bron i 400 eiddo hefyd yn wynebu perygl erydu arfordirol[40]. **Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith amddiffyn rhag llifogydd wedi'u dylunio i flaenoriaethu'r amddiffyniad i'r cymunedau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn atal rhagor o bobl rhag wynebu perygl**.

37 Cymru Iachach **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf**
38 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru.pdf** – Tudalen 11
39 Asesu Perygl Llifogydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (2019)
40 Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol (2012); y sefyllfa fwyaf tebygol o dan bolisïau'r Cynllun Rheoli Traethlin dros y 100 mlynedd nesaf

### Lleihau'r risg i bobl a chymunedau oherwydd llifogydd ac erydu arfordirol

**A** Gwella'r ffordd yr ydym yn deall ac yn cyfathrebu risg

**B** Parodrwydd a meithrin cadernid

**C** Rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf

**D** Atal mwy o bobl rhag bod yn agored i risg

**E** Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau

**13.** Fe wnaeth trasiedi Tŵr Grenfell ddatgelu nifer o broblemau mewn cysylltiad â chladin ac adrannu mewn adeiladau preswyl uchel iawn, gan roi diogelwch preswylwyr mewn perygl. Gwyddom nad yw'r problemau hyn yn gyfyngedig i Lundain a bod eiddo yng Nghymru gyda phroblemau tebyg y mae'n rhaid eu datrys. O dan gontractau lesddaliad presennol, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y lesddeiliad i ariannu gwaith adfer yn aml. Er hynny, rydym wedi bod yn gyson ein safbwynt y dylai perchnogion a datblygwyr adeiladau ysgwyddo eu cyfrifoldeb moesol a chywiro'r diffygion hyn.

**14.** Ynghyd â'r budd uniongyrchol a chlir i ddiogelwch dinasyddion Cymru, mae gan ein buddsoddiad seilwaith mewn diogelwch adeiladau rôl glir i'w chwarae yn gwella iechyd meddwl preswylwyr sy'n byw mewn adeiladau â phryderon o ran y perygl o dân ar hyn o bryd. Nid yn unig y bydd buddsoddiadau o'r fath yn rhoi tawelwch meddwl i bob preswylydd mewn adeiladau aml-feddiannaeth, dylai gwybod bod gan adeiladau o'r fath weithdrefnau diogelwch tân llym ar waith leddfu unrhyw bryderon yn y gymuned ehangach ynglŷn â'r perygl o dân mewn adeiladau o'r fath. Rydym yn dal yn glir ein safbwynt bod dyletswydd foesol ar ddatblygwyr i gywiro'r problemau hyn **ac yn ein hymateb parhaus i'r problemau hyn, byddwn yn ystyried y rôl y dylai buddsoddiad strategol mewn seilwaith cyhoeddus ei chwarae yn datrys problemau sydd wedi'u creu gan fusnesau preifat ac yn gwella iechyd meddwl a llesiant preswylwyr adeiladau uchel iawn**.

**15.** Mater i'n Hawdurdodau Tân ac Achub yw adnoddau diffodd tan ar y rheng flaen. Fodd bynnag, mae rhai galluoedd, sy'n adlewyrchu materion ar lefel genedlaethol, a risgiau sydd y tu hwnt i'w modd a'u cylch cyfrifoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i ymateb i drychinebau mawr fel llifogydd difrifol, adeiladau'n cwympo ac ymosodiadau terfysgol, a'r system gyffredin ar gyfer cyfathrebu â'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans yn ystod digwyddiadau lle mae angen iddynt fod yn bresennol hefyd. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi ein Gwasanaethau Tân ac Achub i barhau i ddiogelu bywyd a diogelwch pobl yng Nghymru**.

**16.** Ym mis Chwefror 2020, arweiniodd effeithiau Stormydd Ciara a Dennis at domen lo yn llithro yn Tylorstown. Ers hynny mae gwaith wedi cael ei wneud i ddeall y risg y mae'r hen safleoedd diwydiannol hyn yn ei pheri i ddiogelwch pobl Cymru. Mae dros 2,000 o hen domenni glo wedi cael eu nodi, yng nghymoedd de Cymru. Mae canran uchel ohonynt dan berchnogaeth breifat. Ar y cyd â phartneriaid, rydym yn cyflawni rhaglen arolygu a chynnal a chadw, a byddwn yn cyflwyno trefn reoli statudol newydd ar gyfer hen domenni glo yng Nghymru. Er bod trefn arolygu a chynnal a chadw gadarn yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn diogelu ein cymunedau, gan wneud i bobl deimlo'n ddiogel, mae angen rhaglen adfer hirdymor i fynd i'r afael ag effeithiau anghymesur etifeddiaeth diwydiant glo'r DU. Byddai buddion rhaglen o'r fath yn cael eu rhannu ar draws y DU gyfan. Fel llywodraeth, rydym yn gweithio i ddiogelu ein cymunedau glofaol yn erbyn etifeddiaeth beryglus gorffennol diwydiannol balch y Deyrnas Unedig. **Byddwn yn mynd ati i gyflawni rhaglen adfer tomenni glo hirdymor i ddiogelu pobl Cymru, ond mae gan Lywodraeth y DU hefyd rôl i'w chwarae yn cefnogi setliad hirdymor, y tu allan i fformiwla Barnett, er mwyn adlewyrchu'r risgiau etifeddiaeth ddiwydiannol anghymesur y mae Cymru'n eu hwynebu**.

**17.** Mae dau draean y marwolaethau priodoladwy mewn gwledydd incwm uchel yn deillio o ddeiet afiach a diffyg gweithgarwch corfforol. Clefyd y galon a strociau yw prif achosion marwolaeth ymysg pobl dros 45 oed[41]. Gwyddom fod buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol diogel a hwylus yn arwain at gyfraddau cerdded a beicio uwch a bod y cyfraddau uwch hyn yn arwain at fuddion iechyd sylweddol. Ar lefel y DU, roedd astudiaeth ar gynnydd mewn teithio llesol o ganlyniad i strategaethau mewn cysylltiad â'r newid yn yr hinsawdd yn cyfrifo y byddai tua 34,000 o flynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd yn cael eu hachub yn 2030[42], gwerth o dros £2.5bn y flwyddyn[43]. Mae Llwybr Newydd yn gosod buddsoddi mewn cerdded a beicio ar frig yr hierarchaeth ar gyfer buddsoddiadau newydd mewn trafnidiaeth[44] ac, **wrth wneud ein penderfyniadau buddsoddi strategol, byddwn yn blaenoriaethu seilwaith teithio llesol newydd, gan gydnabod y buddion iechyd sylweddol y gall buddsoddiad o'r fath eu sicrhau**.

**18.** Yn y strategaeth hon drwyddi draw ceir cydnabyddiaeth o'r angen i flaenoriaethu buddsoddiad newydd mewn trafnidiaeth leol, gynaliadwy a chyhoeddus dros ddefnyddio cerbydau ffordd preifat. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn dal yn uniongyrchol gyfrifol am y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (sy'n cynnwys traffyrdd a chefnffyrdd) yng Nghymru, gyda dyletswyddau a phwerau statudol ar gyfer ei weithredu'n ddiogel a'i gynnal a chadw fel yr awdurdod priffyrdd.

**19.** Mae'r rhwydwaith yn cario tua 65% o'r holl draffig ffordd yng Nghymru – 11.2bn o gilometrau cerbyd yn 2017. Mae Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru[45] yn sefydlu trefn gadarn ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd, cynlluniau cadernid ac wrth gefn, yn ogystal â rheoli risgiau diogelwch. Mae angen strategaeth cyllid cynaliadwy ar yr ased £17bn hwn er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw presennol a sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau a blaenoriaethau Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiadau strategol mewn seilwaith yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal a chadw ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn effeithiol, gan gyflawni ein rhwymedigaethau statudol a diogelu diogelwch a bywyd pobl Cymru**.

**20.** Mae ymchwil gan Chwaraeon Cymru yn dangos y cysylltiad clir rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon a gwell canlyniadau iechyd corfforol a llesiant[46] – gan gynnwys lleihau'r risg o Glefyd Coronaidd y Galon a strôc ymysg dynion a merched gweithgar 30%, y risg o ddementia 30%, a'r risg o ganser y fron ymysg merched gweithgar 20%. At ei gilydd, cyfrifwyd mai £295.17m yw'r enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o ganlyniad i iechyd gwell. Nod y "Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon"[47] yw datgloi buddion chwaraeon o ran problemau iechyd drwy ddarparu cyfleoedd chwaraeon a hamdden i bobl o bob oedran drwy gydol eu hoes. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith chwaraeon sy'n creu cyfle i sicrhau'r buddion cysylltiedig o ran iechyd a llesiant**.

---

41 No 178: More evidence as to the importance of co-benefits of climate change mitigation – Travelwest **www.travelwest.info/essential-evidence/no-178-more-evidence-as-to-the-importance-of-co-benefits-of-climate-change-mitigation**
42 No 178: More evidence as to the importance of co-benefits of climate change mitigation – Travelwest **www.travelwest.info/essential-evidence/no-178-more-evidence-as-to-the-importance-of-co-benefits-of-climate-change-mitigation**
43 Smith, A.C. et al (2015); Health and environmental co-benefits and conflicts of actions to meet UK carbon targets; in Climate Policy, **www.ora.ox.ac.uk/objects/uuid:c83ec664-bc36-4965-b117-37a1a6cb9196** – Tudalen.17
44 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf** – Tudalen 19
45 **gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/181025atisn12647doc1.pdf**
46 Chwaraeon Cymru:Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddi Mewn Chwaraeon **www.chwaraeon.cymru/cynnwys/elw-cymdeithasol-ar-fuddsoddiad-mewn-chwaraeon/**
47 **www.gweledigaethargyferchwaraeon.cymru/**

**21.** Mae treftadaeth ddiwydiannol Cymru'n creu problemau heriol o ran halogi tir, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a llesiant. Mae ein buddsoddiadau sydd wedi'u targedu at ryddhau tir cyhoeddus segur ar gyfer datblygu yn dihalogi tir cyhoeddus, gan gael gwared ar y risg i iechyd y cyhoedd yn y lle cyntaf a sicrhau bod tir a fyddai wedi'i halogi fel arall ar gael i sicrhau canlyniadau ehangach i'r cyhoedd. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys mentrau i gaffael ac adfer safleoedd segur strategol mewn lleoliadau canol tref, gan greu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau tai o ansawdd uchel sy'n cynnig deiliadaeth gymysg, cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni a adeiladir i safonau gofod, mannau gwyrdd, llwybrau teithio llesol, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau canol tref. **Lle bo'n briodol, bydd ein buddsoddiadau i ddefnyddio tir cyhoeddus unwaith eto yn sicrhau bod y risgiau i iechyd y cyhoedd yn sgil halogi yn cael eu lliniaru, a bod cyfleoedd i greu cymunedau cynaliadwy mewn lleoliadau canol tref yn cael eu cynyddu**.

## Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru

**22.** Yn yr un modd ag y maen nhw'n hwyluso gwelliannau yn iechyd corfforol pobl, mae ein buddsoddiadau allweddol mewn seilwaith hefyd yn chwarae rôl hollbwysig yn gwella canlyniadau iechyd meddwl i bobl Cymru a byddwn yn blaenoriaethu ein buddsoddiad yn y maes hwn.

**23.** Er mai darparu gwasanaethau iechyd meddwl yw'r prif ddull, mae buddsoddi mewn ystad a seilwaith modern, sy'n addas i'r diben, yn chwarae rôl alluogi bwysig. Mae Cymru Iachach yn amlinellu'r weledigaeth glir ar gyfer system sy'n darparu lefel deg o driniaeth, gofal neu gymorth i bobl drwy gydol eu bywyd, dim ots a yw'n ymwneud ag iechyd meddwl neu gorfforol[48]. **Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol**.

**24.** Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl pobl Cymru[49], ac wedi dangos pa mor werthfawr yw mannau gwyrdd a mynediad at natur i'r cyhoedd. Gall treulio amser mewn coetiroedd naturiol fod o fudd i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl a helpu pobl sy'n ymdopi â straen ac iselder[50]. Mae buddsoddi ym muddion iechyd a therapiwtig coetiroedd a choed yn cael ei gydnabod yn y GIG drwy arferion fel 'presgripsiynu gwyrdd'. **Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn mynd ati i gynyddu'r buddion iechyd ehangach gallant eu sicrhau**.

**25.** Roedd canfyddiadau ymchwil diweddar a oedd yn archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant[51] wedi nodi bod effaith gadarnhaol ar ffactorau iechyd a llesiant yn dibynnu ar fynediad unigolion at y celfyddydau a diwylliant. Er bod cafeatau'r ymchwil yn ei gwneud hi'n glir nad yw cydberthynas yn golygu achosiad o reidrwydd, roedd yr ymchwil wedi canfod bod presenoldeb neu gyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rôl yn rhag-weld a fydd rhywun yn cofnodi llesiant uchel. Mae ymchwil pellach yn cefnogi hyn, drwy ganfod bod presenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau'n golygu bod pobl yn fwy tebygol o gael iechyd da a bodlonrwydd uwch ar fywyd[52], **a byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith sy'n cefnogi gweithgareddau diwylliannol yn adlewyrchu'r buddion iechyd meddwl y gall y gweithgareddau hynny eu sicrhau**.

**26.** Mae ein Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd[53] yn amlinellu pa mor bwysig yw mannau cymunedol a'r effeithiau cadarnhaol gallant eu cael ar lesiant. Mae cyfleusterau

48 Cymru Iachach **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf** – Tudalen 9
49 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/adolygu-cynllun-cyflawni-law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-20192022-er-mwyn-ymateb-i-covid-19.pdf** – Tudalen 1
50 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf** – Tudalen 28
51 Llywodraeth Cymru: Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant **llyw.cymru/archwilior-berthynas-rhwng-diwylliant-llesiant**
52 Lakey, J, Smith, N, Oskala, A, McManus, S. (2017) Culture, sport and well-being: Findings from the Understanding Society adult survey. London: NatCen Social Research
53 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/cysylltu-cymunedau-strategaeth.pdf**

cymunedol yn cael eu defnyddio'n aml i gynnal gwasanaethau ar gyfer aelodau unigol o'r gymuned i ddysgu a chymdeithasu, i wirfoddoli a gweithio. Gall y mynediad lleol hwn hefyd atal problemau fel cynnydd mewn unigrwydd ac ynysigrwydd rhag codi neu waethygu, lle bo angen ymyriadau mwy acíwt. Ar ben hynny, gall perchnogaeth gymunedol o adeiladau gwerthfawr â defnydd helaeth arnynt fod yn ffocws ar gyfer cydlyniant, a meithrin cadernid cymunedol. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith dan berchnogaeth gymunedol i sicrhau gwell canlyniadau iechyd meddwl a llesiant, ac i wella cydlyniant cymunedol**.

**27.** Gall buddsoddi yn ein hystad addysg graidd wella llesiant meddyliol dysgwyr a staff drwy ddarparu cyfleusterau addysg modern, creadigol o ansawdd uchel, sy'n addas i'r diben. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod effaith cyfranogiad mewn amgylcheddau dysgu creadigol ar gyflawniad academaidd dysgwyr yn arwain at well hyder a chadernid; gwell cymhelliant ac ymgysylltiad; yn datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol a meddwl, ac yn gwella presenoldeb yn yr ysgol[54]. **Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn ein hystad addysg wedi'u dylunio i sicrhau buddion iechyd meddwl ochr yn ochr â chyrhaeddiad addysgol**.

**28.** Rydym yn cydnabod yr effaith gall llifogydd ei chael ar iechyd meddwl – yn ystod y llifogydd ei hun a'r effeithiau canlyniadol, sy'n gallu para'n hir ar ôl y digwyddiad ei hun. Boed hyn yn deillio o golled sy'n gysylltiedig â'r llifogydd ei hun neu o orfod dadleoli wrth i atgyweiriadau gael eu gwneud, mae methu cysgu ac iselder yn effeithiau posibl hefyd. Cofnododd astudiaeth gan Public Health England[55] gysylltiad sylweddol rhwng dadleoli o ganlyniad i lifogydd a symptomau iselder, gorbryder a straen wedi trawma. **Gall buddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd atal neu liniaru llifogydd, gan atal yr effeithiau cysylltiedig ar iechyd meddwl. Mae hyn yn cael ei alluogi drwy ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith lifogydd**.

## Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol

**29.** Ers 31 Mawrth 2021 mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi bod ar waith yng Nghymru, gan olygu bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth galon prosesau gwneud penderfyniadau cyhoeddus. Mae'n gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ein holl fuddsoddiadau strategol mewn seilwaith yn ymgorffori ein cyfraniad i gydraddoldeb cymdeithasol ac i dynnu strwythurau anghydraddoldeb.

**30.** Ymysg canlyniadau eraill, mae'r adran hon yn amlinellu sut gall buddsoddiadau strategol mewn seilwaith yng Nghymru ddarparu fframwaith ar gyfer cael gwared ar anghydraddoldeb o bob math. Byddwn yn herio'r strwythurau pŵer a chysylltiadau cymdeithasol sy'n creu gwahaniaethau sylfaenol i'n cymunedau gwarchodedig, gan gynnwys mynd i'r afael ag achosion systemig hiliaeth, ymddygiad atgas a mathau eraill o wahaniaethu. Wrth ddatblygu ac ariannu cynigion i sicrhau'r canlyniadau strategol hyn, bydd angen i adrannau gwario sicrhau bod eu rhaglenni'n cael eu dylunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**31.** Mae hyn yn adeiladu ar yr amrywiaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb statudol sydd ar gyrff cyhoeddus yn barod, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru o dan Reoliadau 2011.

**32.** Mae'r Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru[56] yn dangos bod galw am gyfartaledd o 7,400 o unedau tai ychwanegol bob blwyddyn, ac y byddai angen i ychydig o dan hanner o'r rhain (48%) fod yn dai fforddiadwy yn y 5 mlynedd nesaf. Gwyddom fod llawer mwy i ddarparu cartref cynnes a diogel na dim ond sicrhau bod gan bobl do uwch eu pen; mae darparu tai diogel o ansawdd da yn gwella canlyniadau

54 **www.researchspace.bathspa.ac.uk/1576/1/Impact%20of%20creative%20environment%20on%20learners_Improving%20Schools_21%2011%2012%20revised%2022.1.13.pdf**
55 **www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS2542-5196(17)30047-5/fulltext**
56 **Amcangyfrifon o'r angen am dai: sail-2019llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019**

iechyd ac addysg, ac yn gwella cydlyniant cymdeithasol[57]. Mae tai o ansawdd gwael yn dwysáu anghydraddoldeb ac anfantais. Y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yw pobl hŷn, plant, pobl â phroblemau iechyd sy'n bodoli eisoes, a phobl ddi-waith[58]. Gall buddsoddi mewn addasiadau, atgyweiriadau a gwelliannau drawsnewid bywyd pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor cyfyngus, a phobl â chlefydau sy'n cyfyngu ar eu bywyd. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai, gan gynnwys ein rhaglenni addasu, yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da**.

**33.** Mae cartrefi sy'n aneffeithlon o ran ynni yn gyffredin ar hyd a lled Cymru. Maen nhw'n cyfrannu'n helaeth at allyriadau carbon, ond nid dyna'r unig broblem. Mae effeithlonrwydd gwael o ran ynni yn golygu biliau tanwydd uwch, gan wthio pobl i dlodi tanwydd – lle mae aelwyd yn gwario dros 10% o'i incwm net ar danwydd yr aelwyd i gynnal trefn gynhesu foddhaol. Mae buddsoddi mewn mesurau i drechu tlodi tanwydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn – yn 2019-20, cafodd mesurau effeithlonrwydd ynni eu gosod mewn bron i 6,500 o gartrefi, gan arbed rhwng £280 a £290 ar gyfartaledd iddynt bob blwyddyn[59, 60]. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio am y tensiwn sy'n gallu bodoli rhwng y canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol hyn. Gall newid o nwy isel ei gost i bympiau gwres sy'n costio mwy wella'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â defnyddio ynni, ond cynyddu'r gost i aelwydydd. **Byddwn yn parhau i wneud buddsoddiadau cyfalaf strategol i leddfu tlodi tanwydd, gan sicrhau ar yr un pryd nad yw costau datgarboneiddio'r stoc dai yn disgyn yn anghymesur ar aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd**.

**34.** Mae ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn seiliedig ar yr egwyddor allweddol, "buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol"[61]. Mae twf yr economi gig yn golygu bod rhai pobl yn fwy a mwy caeth mewn cylch o gyflogau isel a gwaith dros dro. Mae'r contract economaidd sy'n sail i'n buddsoddiadau cyfalaf mewn busnesau yng Nghymru yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r buddsoddiadau hynny alluogi cyflogaeth deg o ansawdd uchel, gan ganiatáu i bobl gael incwm teg heb gamfanteisio neu dlodi. **Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein buddsoddiadau cyfalaf strategol yn sicrhau'r diogelwch, y sefydlogrwydd a'r cyfleoedd y gall gwaith teilwng a theg eu darparu**.

**35.** Gwyddom fod buddsoddi mewn cyfleusterau gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn gallu helpu plant ifanc i ddatblygu'n oedolion iach a gweithgar. Maen nhw'n datblygu eu llesiant gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac yn lliniaru effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall gofal plant o ansawdd da hefyd gefnogi ymlyniad a datblygiad perthnasoedd iach, yn ogystal â lleihau tlodi i deuluoedd. Mae ein buddsoddiadau cyfalaf yn cynnwys dyraniad grant i awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn helpu i ariannu gwaith cyfalaf bach darparwyr gofal plant. Mae'r Cynnig Gofal Plant, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Dechrau'n Deg a grantiau cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflawni'n gydweithredol i sicrhau dull cyson o reoli ein rhaglenni cyfalaf. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn y portffolio Addysg yn cynorthwyo plant a theuluoedd er mwyn darparu'r dechrau gorau posibl ar fywyd**.

**36.** Hefyd, gall buddsoddi yn ein hystad addysg a thu hwnt sicrhau cydlyniant cymunedol go iawn drwy ddarparu cyfleusterau cymunedol sy'n rhoi hwb i ffyniant, ac yn lleihau anghydraddoldeb. Boed hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'n buddsoddiadau mewn seilwaith (er enghraifft, gwyddom fod adeiladau ysgol newydd a gwell yn hwyluso cynnydd yn nefnydd y gymuned o gyfleusterau'r ysgol[62]) neu drwy

57 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad_0.pdf** – Tudalen 9
58 **www.icc.gig.cymru/newyddion/cyhoeddiadau/gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd/icc-gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd-yr-achos-dros-fuddsoddi-pdf/**
59 **www.nest.gov.wales/workspace/uploads/files/nest-annual-report-welsh-5f5b52d14ba65.pdf**
60 **www.arbedambyth.wales/adroddiad-blynyddol-2019-20.pdf**
61 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf** – Tudalen 8
62 **www.files.eric.ed.gov/fulltext/ED502369.pdf** – Tudalen 19

ddarparu cymorth cyfalaf i'r trydydd sector, mae'r cyfleusterau hyn yn chwarae rôl bwysig. **Mewn llawer o achosion, byddant yn cynnal gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn aml, a byddwn yn blaenoriaethu ein buddsoddiadau strategol mewn seilwaith i sicrhau bod lleoedd priodol a hygyrch i'r gwasanaethau hyn weithredu ynddynt**.

**37.** Beicio a cherdded yw'r dulliau teithio mwyaf fforddiadwy, gan alluogi pobl i gael gafael ar waith, hyfforddiant, addysg a gwasanaethau am gost isel neu am ddim. Fodd bynnag, mae anghydraddoldeb sylweddol yn y tebygolrwydd o feicio ymysg grwpiau lleiafrifol ar hyn o bryd, er gwaethaf dymuniad cryf y grwpiau hyn i ddechrau arni[63]. Er enghraifft, dim ond yng Nghaerdydd, nid yw 73% o breswylwyr o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E byth yn beicio, ond hoffai 26% ddechrau arni – sy'n cyfateb i 19,000 o oedolion[64]. **Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol strategol yn ystyried y buddion y gall cynlluniau eu sicrhau drwy hybu defnydd ar draws pob grŵp cymdeithasol**.

## Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol

**38.** Ni ellir cael llesiant cymdeithasol a chymunedau cydlynus oni bai fod yr aelodau o'r cymunedau hynny yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a sylfaenol allweddol. Gall y rhwystrau i'r gwasanaethau hyn fod yn rhai ffisegol, ariannol neu seicolegol, ac mae ein buddsoddiadau strategol mewn seilwaith yn hollbwysig i sicrhau bod y rhwystrau hyn yn cael eu lleihau a chyfleoedd yn cael eu cynyddu.

**39.** Yn 2019-20, gwyddom nad oedd gan tua 13% o bobl yng Nghymru fynediad at gar[65]. Fodd bynnag, o ran defnyddwyr rheolaidd o wasanaethau bysiau, mae'r ffigur hwnnw'n cynyddu i 78% ac mae'n cynnwys nifer anghymesur o uchel o bobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mewn llawer o achosion, mae'r rhai yn bobl sy'n gweithio mewn lleoliadau sy'n llai tebygol o'u caniatáu i weithio gartref ac felly'n fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar waith, addysg a gwasanaethau allweddol, fel y dangosir gan roi Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau dan reolaeth gyhoeddus. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith sefydlog a chyd-drefnus o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â dulliau teithio eraill, ac yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn cyd-fynd ag anghenion pobl[66]**.

**40.** Gan fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf[67] dylid blaenoriaethu buddsoddiadau mewn seilwaith – gan gynnwys buddsoddiadau sy'n ei gwneud hi'n bosibl darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol – yng nghanol trefi a gwneud y seilwaith yn fwy hygyrch i bobl heb geir. Er y bydd cyflawni hyn yn cael ei sbarduno gan ddewisiadau gofodol buddsoddiadau yn ein sectorau trafnidiaeth, tai, iechyd ac addysg, mae ein buddsoddiadau adfywio yn chwarae rôl alluogi allweddol drwy sicrhau bod canol trefi'n dod yn fannau amlwg i gymunedau a'u bod yn dod yn lleoedd i fyw ynddynt, ac yn ganolbwynt i gymunedau ac i weithgareddau diwylliannol, i raddau cynyddol. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiadau adfywio strategol yn cael eu targedu at wella gwead canol trefni, gan greu'r amgylchedd angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hygyrch**.

63 **www.arup.com/perspectives/publications/promotional-materials/section/inclusive-cycling-in-cities-and-towns**
64 **www.sustrans.org.uk/media/5945/bikelife19_cardiff-v72_welsh_web.pdf** – Tudalen 5
65 Arolwg Cenedlaethol Cymru **llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau**
66 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf** – Tudalen 55
67 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf** – Tudalen 71

**41.** Mae cysylltedd digidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan roi mynediad at wasanaethau a allai fod wedi'u cyfyngu fel arall. Mae pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r newid i wasanaethau digidol, gan olygu bod angen cysylltu ysbytai, cyfleusterau profi a chanolfannau brechu yn gyflym. Fodd bynnag, rhaid cael cysylltedd dibynadwy a chyflym er mwyn defnyddio'r gwasanaethau hynny'n effeithiol. Hyd yma, mae ein buddsoddiadau wedi rhoi mynediad at fand eang cyflym iawn i 733,000 eiddo, sy'n codi'r ddarpariaeth i tua 95%, i fyny o tua 48% yn 2013[68]. **Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy mewn rhannau o Gymru nad yw'r farchnad yn darparu ar eu cyfer**.

**42.** Yn yr un modd, ni ddylai ein huchelgais drosfwaol i gynyddu'r defnydd o rwydweithiau teithio llesol arwain at gyfyngu ar fynediad at wasanaethau. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn darparu rhwydweithiau teithio llesol ledled Cymru[69] a bod y rhain yn creu'r amodau sy'n ei gwneud hi'n bosibl gwneud y rhan fwyaf o deithiau dydd i ddydd byr ar droed neu ar feic. Mae ein canllawiau statudol presennol yn nodi'n glir bod angen i'r rhwydweithiau hyn ffurfio cysylltiad rhwng ble mae pobl yn byw a'r mannau maen nhw'n teithio iddynt; gan gynnwys canolfannau trafnidiaeth, a bod yr holl ysgolion, mannau gwaith allweddol a chyrchfannau allweddol eraill wedi'u cysylltu drwy lwybrau cerdded a beicio. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith teithio llesol yn rhoi hwb i hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus allweddol**.

**43.** Fel yr amlinellir yn ein strategaeth "Mwy nag Ailgylchu"[70], mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi ymrwymo i ddyfodol un blaned neu ddyfodol diwastraff. Bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad rhwydd at y gwasanaethau gofynnol, fel siopau diwastraff a di-blastig, ailddosbarthu bwyd dros ben, oergelloedd cymunedol a mannau ail-lenwi. **Byddwn yn cysoni ein buddsoddiadau strategol â gweithgareddau sy'n sbarduno datblygiad seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i leihau gwastraff.**

**44.** Ochr yn ochr â buddsoddiad cyfalaf newydd, mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu ein defnydd o'n seilwaith presennol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Er bod y defnydd o asedau tir cyhoeddus yn canolbwyntio ar dai yn aml, rhaid i unrhyw ddatblygiad sicrhau bod y cymunedau newydd yn cael gwell mynediad at gyfleusterau cyhoeddus. Yn yr un modd, mae rheoli a defnyddio ystad weinyddol ehangach Llywodraeth Cymru yn darparu cyfle i ystyried cyfleoedd cydweithredol i rannu mannau â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gan ddarparu presenoldeb rhyng-gysylltiedig i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, gyda gwasanaethau modern a hygyrch i'r cyhoedd sy'n cael eu gwasanaethu. **Byddwn yn buddsoddi mewn defnyddio ac addasu ein rhwydwaith seilwaith cyhoeddus presennol i wella mynediad at wasanaethau cyhoeddus**.

68 www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0032/186476/2019-cysylltur-gwledydd-cymru.pdf
69 www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/section/10/enacted/welsh
70 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf

Pennod 6

# Llesiant Economaidd

## Trosolwg

**1.** Ein gweledigaeth i Gymru yw cymdeithas arloesol, gynhyrchiol ac, yn hollbwysig, carbon sero net, gyda phoblogaeth fedrus wedi'i haddysgu'n dda. I wireddu'r weledigaeth honno rhaid inni fynd ati i ddatblygu seilwaith ar gyfer economi fwy cryf a gwyrdd sy'n cefnogi twf cynhwysol a chynaliadwy.

**2.** Mae'r weledigaeth honno'n nodi'n glir na ddylid cael twf economaidd ar draul diogelu'r amgylchedd. Nid yw cyfaddawdu rhwng y ddau yn anochel o reidrwydd – ond pan fydd hynny'n digwydd, rhaid i'n rhagdybiaeth fod o blaid cynyddu'r buddion amgylcheddol. Rhaid ystyried ein llesiant economaidd yn rhan annatod o ddyfodol gwyrdd a chynhwysol, ac er bod yr adran hon yn canolbwyntio'n glir ar y thema economaidd, rydym yn cydnabod y rhyng-gysylltiadau cryf yn y strategaeth hon.

**3.** Yn yr un modd, gwyddom nad yw'r canlyniadau sy'n gwella llesiant economaidd yn annibynnol ar ei gilydd chwaith. Er enghraifft, mae lefel uchel o ryngweithio rhwng lefelau cyflogaeth ac incwm aelwydydd – ac er eu bod yn cael eu hystyried ar wahân isod, bydd ein buddsoddiad i wella un yn effeithio'n gadarnhaol ar y llall yn aml.

**4.** Er bod y blaenoriaethau wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gwreiddiol yn 2012 yn benodol fel "cynllun i hybu twf a swyddi"[71], mae buddsoddiad cynaliadwy mewn seilwaith yn dal yn chwarae rôl arwyddocaol yn gwella llesiant economaidd. Drwy ein buddsoddiadau mewn seilwaith, rhaid inni hefyd fynd ati i ddadwneud y difrod mae mwy na degawd o gyni, Brexit ac effaith y coronafeirws wedi'i achosi i'n heconomi. Gall buddsoddi mewn seilwaith sbarduno busnesau lleol yn yr economi sylfaenol ledled Cymru i dyfu a datblygu galluogrwydd gweithgynhyrchu cynhenid, er mwyn gweithgynhyrchu cynhyrchion, sydd ar gael dramor yn unig ar hyn o bryd o bosibl, gartref.

**5.** Fodd bynnag, rhaid cofio eto mai dim ond rôl alluogi y gall buddsoddi mewn seilwaith ei chwarae yn y maes hwn ar y cyfan. Mae ein hymyriadau a'n buddsoddiad yn ein sylfaen sgiliau, a'n cymorth refeniw i'n rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus er enghraifft, hefyd yn ysgogwyr hollbwysig ar gyfer gwella llesiant economaidd pobl Cymru.

**6.** Yn yr un modd â'r strategaeth hon drwyddi draw, rydym yn ystyried seilwaith yn ôl ei ddiffiniad ehangaf bosibl. Ochr yn ochr â'n buddsoddiad uniongyrchol mewn sectorau seilwaith traddodiadol, mae ein cymorth cyfalaf i fusnesau'n caniatáu iddynt fuddsoddi mewn tir, adeiladau a pheiriannau, gan eu galluogi i dyfu ac i sbarduno gwelliannau o ran llesiant economaidd.

71 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-07/cynllun-buddsoddi-yn-seilwaith-cymru-ar-gyfer-twf-a-swyddi-2012.pdf

## Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru

**7.** Gall buddsoddi mewn seilwaith gyfrannu at greu a chynnal cyflogaeth yn y tymor hir drwy helpu i ddenu a chadw busnesau, a gwella eu hyfywedd, er enghraifft drwy leihau costau cludiant. Er mai'r prif reswm dros fuddsoddi mewn seilwaith yw sicrhau'r cyfryw fuddion hirdymor, mae buddsoddiad cyhoeddus hefyd yn creu galw yn y tymor byr i ganolig, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu ac mewn cadwyni cyflenwi cysylltiedig. Mae'r sector adeiladu yng Nghymru yn cyfrannu tua £5bn y flwyddyn[72], sef 7% o'r holl ddiwydiannau, yn ogystal â chyflogi tua 65,000 o weithwyr[73] ar draws 48,000 o fusnesau[74].

**8.** Er y byddwn yn parhau i fod yn ymwybodol iawn o'r effaith ysgogol y gall ein buddsoddiad ei chael ar ddatblygu rhaglenni buddsoddi penodol o dan y strategaeth hon, y buddion economaidd hirdymor y gall buddsoddi yn ein seilwaith eu sicrhau drwy greu'r amgylchedd cywir i fusnesau ffynnu sy'n cael eu hamlinellu yn y strategaeth hon.

**9.** Mae telerau ein cymorth busnes yn cydnabod bod gan lywodraeth rôl glir i'w chwarae yn creu'r amodau i ffynnu, ond mai cyfrifoldeb busnesau yw creu'r ffyniant hwnnw a sbarduno cyfleoedd cyflogaeth. I fod yn gymwys ar gyfer cymorth cyfalaf uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, un o'r "galwadau i weithredu" yw bod ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn arwain at ddatblygu sgiliau cyflogaeth o ansawdd uchel ac at waith teg. **Byddwn yn cryfhau ein cymorth cyfalaf strategol i fusnesau er mwyn sicrhau bod swyddi a bywoliaethau yn cael eu creu, a'u diogelu**.

**10.** Mae Banc Datblygu Cymru'n chwarae rôl fawr yn cefnogi adferiad economaidd a thwf cynaliadwy, yn enwedig mewn ymateb i COVID-19. Yn 2020-21, rhoddwyd dros £92m o gyllid argyfwng i 1,334 o fusnesau bach a chanolig, gan ddiogelu dros 16,000 o swyddi[75]. Cafodd ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gymorth busnes ei ddangos yn glir drwy gyfalafiad sylweddol, gwerth £270m, Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru yn gynharach eleni. **Drwy ein buddsoddiadau a wneir drwy Fanc Datblygu Cymru, byddwn yn sicrhau bod ein cymorth i fusnesau'n gwireddu gweledigaeth y Llywodraeth o economi werdd a chynhwysol yn glir**[76].

**11.** Gwyddom fod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd a dibynadwy yn galluogi pobl i fod yn hyderus y byddant yn gallu cyrraedd eu man gwaith, ac felly i wneud cais am swyddi gwag pan fyddant yn codi, os oes angen teithio. Rhaid i'r gwasanaethau hyn fod yn rheolaidd ac yn gyfforddus, a rhaid darparu gwybodaeth gywir am deithio er mwyn denu rhagor o bobl i deithio arnynt o ddydd i ddydd. O ran mewnfuddsoddwyr sy'n chwilio am safleoedd i'w datblygu, dywedodd 26% o ymatebwyr mai seilwaith trafnidiaeth oedd un o'u meini prawf wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi. Yn ogystal â'n buddsoddiadau mewn seilwaith rheilffyrdd, byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r maes adfywio i gyflawn egwyddorion "datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth", er mwyn cynyddu'r cyfleoedd datblygu mewn cysylltiad â lleoliadau gorsafoedd newydd i greu cyfleoedd swyddi mewn lleoliadau cynaliadwy. Yng ngoleuni ein targed newydd, sef bod 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau teithio cynaliadwy erbyn 2040, a phwysigrwydd buddsoddi dros y degawd nesaf i'w gyrraedd, **bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn ei gwneud hi'n bosibl lleoli swyddi'n gynaliadwy**.

---

72 Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru (llyw.cymru) **www.statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvainwales-by-industry**

73 Swyddi cyflogeion yng Nghymru yn ôl diwydiant a blwyddyn (llyw.cymru) **https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Employees-Only/Business-Register-and-Employment-Survey-SIC2007/employeejobsinwales-by-industry-year**

74 Mentrau yn ôl diwydiant (ISC2007), band maint ac ardal (llyw.cymru) **www.statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-industry-sic2007-sizeband-area**

75 **www.developmentbank.wales/sites/default/files/2021-06/DBW_Annual%20Report%20Plan%202021_CYM%20website%20FINAL%20VERSION.pdf** – Tudalen 4

76 **www.developmentbank.wales/sites/default/files/2021-06/DBW_Annual%20Report%20Plan%202021_CYM%20website%20FINAL%20VERSION.pdf** – Tudalen 5

**12.** Mae Llwybr Newydd yn amlinellu uchelgais i Rwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru gynnal a chreu cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru[77]. Mae gwneud teithio'n fwy effeithlon a chynaliadwy yn gallu ehangu dalgylch llafur i fusnesau, yn ogystal â gwneud ardal yn fwy deniadol i fusnesau newydd, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth[78], [79]. Yn y tymor byr, mae'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â gweithredu, cynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cefnogi rhwng 800 a 1,000 o gyflogeion sy'n hollbwysig i'n llwyddiant o ran cynnal a gwella'r rhwydwaith. **Bydd ein buddsoddiad strategol yn ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn adlewyrchu'r hierarchaeth fuddsoddi yn ogystal â'r uchelgais i greu cyfleoedd cyflogaeth, fel yr amlinellir yn Llwybr Newydd**.

**13.** Er bod ein dull gweithredu ar gyfer buddsoddiadau adfywio wedi aeddfedu dros nifer o flynyddoedd i ddull mwy cyfannol sy'n gwerthfawrogi tai, mannau cyhoeddus a gwasanaethau cymunedol, mae effaith economaidd yn dal yn uchelgais hollbwysig. Mae gwerthuso ein mentrau adfywio yn dangos bod buddsoddiadau cyfalaf wedi mynd yn fwy na nifer rhagweledig y swyddi gros a fydd yn cael eu creu. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i helpu canol ein trefi i fod yn fwy ystwyth yn economaidd, gan ganiatáu i fusnesau weithio ar y cyd a manteisio ar gadwyni cyflenwi lleol mewn ffordd sy'n parhau i gefnogi creu swyddi**

**14.** Mae angen safleoedd ac eiddo modern ar Gymru i alluogi busnesau i dyfu. Bydd hynny yn ei dro yn creu cyfleoedd cyflogaeth. Gwyddom fod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu cyflenwi er mwyn ateb y galw gan fusnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr. Mae tystiolaeth eang bod cyflenwad y diwydiant yn dynn iawn o'i gymharu â'r galw[80], ac mae ychydig iawn o ddatblygwyr sy'n weithredol yn y farchnad. Mae capasiti cyfyngedig hefyd yn cyfyngu ar allu cwmnïau i symud i eiddo mwy o faint, gan gyfyngu ar eu gallu i dyfu. **Bydd ein buddsoddiad strategol yn y sector eiddo masnachol yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r cyflenwad cyfyngedig hwn yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd i ddenu a chadw buddsoddiad na fyddai'n dod i Gymru, na'n cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru, fel arall**.

## Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau

**15.** Mae her o ran cynhyrchiant yn bod ers tro yng Nghymru. Yr allbwn fesul awr o waith yng Nghymru yw'r isaf[81] ymysg holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Dyma sy'n cyfrannu fwyaf at fwlch yn y Gwerth Ychwanegol Gros rhwng Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd[82]. Yn y tymor hir, cynhyrchiant sy'n sbarduno twf mewn cyflogau gwirioneddol, y sylfaen dreth a safonau byw. Mae llawer o resymau amrywiol am hyn – ni all seilwaith ar ei ben ei hun ddatrys y broblem heb fuddsoddi mewn sgiliau, ymchwil ac arloesedd hefyd – ond gall buddsoddiad cyfalaf mewn twf cynhwysol a chynaliadwy fod yn gatalydd ar gyfer cau'r bwlch hwn.

**16.** Amcangyfrifir bod yr economi sylfaenol, sy'n cynnwys adeiladu tai, gwaith adeiladu a chyfleustodau, yn cyfrif am bedair o bob deg swydd yng Nghymru. Gall cymorth busnes a mynediad at arloesedd helpu i feithrin y rhan hon o'r economi er mwyn iddi allu ymgysylltu'n weithredol a'r strategaeth seilwaith, gan sicrhau gwerth cymdeithasol eang sy'n cynnwys mynediad at waith teg, atebion carbon isel, a gwella enw da busnesau yng Nghymru.

**17.** Mae angen mynediad at rwydweithiau seilwaith o ansawdd

77 **gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021-full-strategy_0.pdf** – Tudalen 69
78 **gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/060524-economic-effects-transport-infrastructure-improvements-cy.pdf**
79 HMEA WSRN Analyses v2.pdf
80 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/dadansoddiad-or-farchnad-ac-ymyriadau-posibl.pdf** – Tudalen i
81 Cynhyrchiant is-ranbarthol 2002 i 2019 **llyw.cymru/cynhyrchiant-ranbarthol-2002-i-2019**
82 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf** – Tudalen 2

uchel ar fusnesau – ym meysydd trafnidiaeth, eiddo a thelegyfathrebu – yn ogystal â mynediad at gyfalaf er mwyn cychwyn, ffynnu a thyfu. Mae Llywodraeth Cymru mewn safle unigryw i ddarparu'r rhwydweithiau hyn, gan sicrhau bod ein buddsoddiadau yn cyfrannu at ein huchelgais twf cynaliadwy ar yr un pryd.

**18.** Drwy ein cymorth i fusnesau, mae angen i ymgeiswyr ddangos potensial i dyfu mewn modd clir a chynaliadwy, gan gynnwys cyfrannu at gynhyrchiant, neu effeithiau lluosydd drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae ein buddsoddiadau wedi'u strwythuro'n fwriadol i ganolbwyntio ar arloesi, entrepreneuriaeth a'r rôl y gall awtomeiddio a digidoleiddio ei chwarae yn lleihau'r bwlch hwn mewn cynhyrchiant. Gwyddom hefyd fod buddsoddiad cyfalaf mewn cymorth busnes yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar berfformiad economaidd ehangach. Er enghraifft, mae buddsoddiad yn ein sector diwydiannau creadigol yn cynhyrchu £10 am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi. **Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau, yn ogystal â'r effaith luosydd economaidd**.

**19.** Mae ein polisi "Canol Trefi yn Gyntaf" yn ymdrechu i sicrhau bod datblygiadau busnes newydd a swyddi medrus, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus, yn cael eu lleoli mwy a mwy yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae systemau trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy ac effeithiol yn cefnogi datblygiadau dwysedd uwch mewn trefi a dinasoedd – yn ogystal â'r buddion o ran cynhyrchiant mae hyn yn eu sicrhau – drwy leihau tagfeydd, ac mae gwell seilwaith bysiau hefyd yn cynyddu capasiti teithwyr y ffyrdd. **Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn ei gwneud hi'n bosibl sicrhau'r buddion o ran cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â datblygiadau busnes newydd yn canolbwyntio ar ganol trefi**.

**20.** Mae buddsoddi mewn seilwaith yn hollbwysig ar gyfer gwella gallu busnesau i weithredu atebion ymarferol er mwyn cynyddu cylcholdeb deunyddiau. Er mwyn gwneud mwy nag ailgylchu, gwyddom fod angen mynediad at seilwaith ailweithgynhyrchu modern ar fusnesau[83], gan eu cyflenwi â'r adnoddau angenrheidiol i fanteisio ar farchnadoedd a defnyddiau o ansawdd uchel ar gyfer deunyddiau eilaidd sy'n deillio o wastraff, gan leihau costau a gwneud busnesau'n fwy effeithlon yn y pen draw. **Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac i osgoi gwastraff diangen, gan eu galluogi i fod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol**.

**21.** Mae cysylltedd digidol yn ffactor galluogi ym mhob economi fodern. Mae COVID-19 wedi tynnu hyd yn oed mwy o sylw ato a bydd yn bwysicach byth wrth inni symud tuag at y targed 30% ar gyfer gweithio o bell. Roedd cyfran y busnesau bach a chanolig sy'n defnyddio fideogynadledda wedi codi'n sylweddol o 26% yn 2019 i 57% yn 2020[84], ac nid oes unrhyw arwydd y bydd perthnasedd cyflawni digidol yn lleihau. Gwyddom fod arloesi digidol yn creu rhagolygon newydd ar gyfer busnesau, yn denu buddsoddiad a thalent yn y dyfodol, yn gwella ansawdd swyddi ac yn cefnogi gweithio'n hyblyg[85]. Mae'r seilwaith sydd ei angen i alluogi'r arloesedd hwnnw yn hollbwysig. Er bod dulliau Llywodraeth Cymru'n gyfyngedig yn y maes digidol o ganlyniad i'r setliad datganoli, **lle bo'n briodol byddwn yn cyflawni Strategaeth Ddigidol Cymru, gan uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu i alluogi busnesau i elwa ar gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy er mwyn denu cwsmeriaid newydd, gwerthu eu cynnyrch, gwella effeithlonrwydd, ac arloesi**.

---


83 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf** – Tudalen 26
84 **www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0005/2477579/DMS-2020-Summary-CYM.pdf** – Tudalen 3
85 **llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-html%23section-66663#section-66663** Cenhadaeth 4

**22.** Mae diffyg eiddo masnachol priodol nid yn unig yn cyfyngu ar gyfleoedd busnesau i roi hwb i gyfleoedd cyflogaeth, ond hefyd yn arafu twf cynhyrchiant[86]. Gwyddom fod buddsoddi mewn seilwaith eiddo modern yn rhoi cyfle i fusnesau sy'n bodoli eisoes wella cynhyrchiant drwy adleoli o eiddo sydd wedi dyddio neu sy'n aneffeithlon i fan mwy addas. Gall stoc adeiladau masnachol newydd hefyd chwarae rôl bwysig fel catalydd, gan annog meddianwyr i fuddsoddi mewn peiriannau newydd i wella cynhyrchiant – er enghraifft, gwyddom fod galw clir am ofod stiwdios ffilm a theledu newydd yng Nghymru. **Bydd buddsoddi mewn seilwaith eiddo masnachol sydd wedi'i leoli'n briodol yn galluogi twf yng nghynhyrchiant busnesau**.

**23.** Mae effeithiau economaidd llifogydd yn eang, gan achosi difrod i gerbydau, adeiladau, pontydd ac asedau llifogydd eu hunain. Gall fod yn amhosibl defnyddio ffyrdd, a gellir colli tir amaethyddol a da byw. Mae ein buddsoddiad mewn seilwaith llifogydd yn ataliol yn bennaf ac wedi'u dylunio i amddiffyn yn erbyn difrod economaidd, yn ogystal â sicrhau gwelliannau amgylcheddol[87], drwy wneud yn siŵr nad oes amhariad sylweddol ar allu busnesau i fasnachu. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith rheoli llifogydd i ddiogelu buddiannau economaidd busnesau yng Nghymru**.

## Beth yw economi fwy cylchol?

### Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai




Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio deunyddiau ar hyn o bryd yn anghynaliadwy ac yn achosi'r argyfwng amgylcheddol byd-eang. Pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un peth â'r dinesydd Cymreig cyfartalog, byddai angen 2.5 planed i gynhyrchu adnoddau byd-eang. Bydd newid i economi fwy cylchol yn annog atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu ac mae angen inni ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai fel bod twf economaidd yn cael ei 'ddatgysylltu'. Bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau mai dim ond ein 'cyfran deg' o adnoddau byd-eang y mae Cymru'n ei defnyddio

86 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/dadansoddiad-or-farchnad-ac-ymyriadau-posibl.pdf** – Tudalen 68
87 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru.pdf** – Tudalen 9

## Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd

**24.** Er bod creu swyddi'n rhan bwysig o lesiant economaidd, mae'n bwysig bod ein buddsoddiadau cyfalaf hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i waith teg yng Nghymru, lle gall pobl gael incwm teg a diogel drwy waith teilwng sy'n cyfoethogi bywyd.

**25.** Felly, yn ogystal â chreu swyddi a gwella cynhyrchiant fel y trafodir uchod, gwyddom hefyd fod gan ein cymorth i fusnesau rôl hollbwysig i'w chwarae yn cynyddu incwm aelwydydd ledled Cymru. Amcangyfrifir bod yr economi sylfaenol yn cyfrif am bedair o bob deg swydd yng Nghymru, a'r canfyddiad ohoni'n aml yw ei bod wedi'i nodweddu gan gyflogau isel. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn arf polisi pwysig i darfu ar arferion cyflogau isel a chyflogaeth wael ledled Cymru. Mae angen sgiliau o ansawdd uchel ar fusnesau er mwyn cystadlu ac mae busnesau sy'n cyflogi pobl â'r sgiliau hyn yn gallu talu cyflogau uwch. Er bod buddsoddi mewn gwella sgiliau yn ysgogwr allweddol, mae'n bwysig sicrhau bod gan fusnesau'r cymorth cyfalaf angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd hefyd. **Byddwn yn defnyddio ein cymorth cyfalaf uniongyrchol i fusnesau yng Nghymru i gynyddu incwm aelwydydd**.

**26.** Gall ein gweledigaeth ar gyfer seilwaith a thechnolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol i gefnogi system ynni adnewyddadwy uchel yng Nghymru[88] chwarae rôl yn cynyddu incwm aelwydydd drwy sicrhau swyddi teg a diogel – ond rydym yn disgwyl i gostau gynyddu hefyd a rhaid i'r DU ystyried sut mae rheoli'r rhain mewn modd sy'n deg o safbwynt cymdeithasol. Ar ben hynny, gall dull o'r fath ddarparu llwybr clir i gadw elw yn yr economi leol, gan gyfrannu at ffyniant ac incwm y rhai sy'n berchen ar y broses gynhyrchu – er enghraifft, rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd y gallai allforio'r elw o bob math o ddefnydd ynni yng Nghymru gyfrif am 6% i 10% o'r Gwerth Ychwanegol Gros. Gan gydnabod bod y setliad datganoli'n golygu mai cyfyngedig yw arfau Llywodraeth Cymru o ran polisi ynni, **wrth ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer buddsoddi'n strategol mewn cynhyrchu ynni byddwn yn ystyried effaith bosibl buddsoddiadau o'r fath ar incwm aelwydydd, yn enwedig y rhai mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o hynny**.

**27.** Mae ein buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau gofal plant sy'n sail i gynnig gofal plant Llywodraeth Cymru yn galluogi rhieni i weithio ac i hyfforddi, ac felly'n helpu i godi teuluoedd allan o dlodi. Mae gan 50% o rieni sy'n manteisio ar y cynnig y potensial i gynyddu eu henillion, a dywedodd 56% fod y cynnig wedi cynyddu eu hyblygrwydd o ran gwaith. Ar ben hynny, mae darparu seilwaith addas yn caniatáu i ragor o ddarparwyr ymuno â'r farchnad. Dywedodd 70% o ddarparwyr fod y cynnig wedi effeithio'n gadarnhaol ar gynaliadwyedd eu busnes[89]. **Wrth wneud ein buddsoddiadau strategol yn ein seilwaith addysg a blynyddoedd cynnar cydgysylltiedig, byddwn yn cynyddu gallu rhieni sy'n gweithio i gynyddu incwm eu haelwyd**.

**28.** Mae buddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus allweddol yn gallu chwarae rôl "angori" arwyddocaol yn denu a chadw buddsoddiad preifat. Er enghraifft, mae buddsoddi mewn seilwaith gofal iechyd newydd yn Ysbyty Athrofaol y Grange yng Nghwmbrân wedi galluogi buddsoddiad mewn datblygiad "Parc Medi", gan ddatblygu cysylltiadau rhwng busnes biofeddygol a fferyllol a'r GIG yng Nghymru. Gall cynlluniau o'r fath greu cyflogaeth fedrus, sy'n talu'n dda mewn ardal, yn ogystal â chyfleoedd adfywio sylweddol. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn yn seilwaith sefydliadau angori lleol yn galluogi buddsoddiad o ansawdd uchel gan y sector preifat**.

88 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/datganiad-polisi-perchnogaeth-leol-ar-gynhyrchu-ynni-yng-nghymru.pdf
89 www.arad.wales/wp-content/uploads/2020/10/PN00000460-Privacy-Notice-V1-Eng-Childcare-Offer-and-C-CAS-Evaluation-Year-3-Parents-Survey.pdf

## Gwella deilliannau addysgol

**29.** Mae ffyniant a llesiant economaidd cenedl yn cael eu hadeiladu ar sylfeini system addysg gref a llwyddiannus[90], a bydd Llywodraeth Cymru'n cyflawni hyn drwy genhadaeth ein cenedl i godi safonau, i leihau'r bwlch cyrhaeddiad ac i ddarparu system sy'n destun balchder a hyder yn genedlaethol.

**30.** Rydym am sicrhau na chaiff unrhyw un yng Nghymru ei adael ar ôl yn dilyn pandemig y coronafeirws, gan drwsio'r difrod a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ochr yn ochr â rhaglen ddiwygio ar gyfer ein cwricwlwm, sydd gyda'r gorau yn y byd, yn ogystal â newidiadau i'n systemau cyllido a llywodraethiant ar gyfer addysg drydyddol, byddwn yn parhau i fuddsoddi'n helaeth yn ein hystad addysg.

**31.** Yn debyg i nifer o achosion, rôl alluogi yw rôl seilwaith, gan ddarparu'r adnoddau a'r hyder sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth i ddysgwyr yn effeithiol, a'u cyflenwi â'r sgiliau a'r wybodaeth a fydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi nad ydynt wedi'u creu eto, a heriau sydd heb ddod i'r wyneb eto. Bydd buddsoddi mewn seilwaith digidol ac amgylcheddau hyfforddi sy'n cyrraedd safon y diwydiant yn helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith, ac ailsgilio oedolion er mwyn iddynt allu ymateb i'r newid economaidd.

**32.** Mae tystiolaeth fod seilwaith modern o ansawdd uchel yn gallu cyfrannu at wella deilliannau addysgol pobl ifanc[91] ac mae dros 90,000 o ddysgwyr, ar draws 176 o leoliadau, yn elwa ar amgylcheddau dysgu newydd a gwell ers 2016[92]. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg yn nodi bod[93] agweddau dysgwyr wedi troi'n fwy cadarnhaol ar ôl symud i adeiladau newydd yr ysgol. Mae mwy i seilwaith addysg na gwead yr ysgol yn unig; mae cyfuno buddsoddiad mewn meysydd ehangach fel y Blynyddoedd Cynnar, TGCh ac Addysg Bellach yn gynnar yn cynyddu'r cyfleoedd i ddarparu cyfleusterau mwy cydgysylltiedig, sy'n sicrhau buddion uwch i ddysgwyr. **Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn ein hystad addysg yn darparu'r safonau llety a thechnoleg sydd eu hangen i alluogi dysgwyr i wireddu eu llawn botensial**.

**33.** Mae ein cymorth cyfalaf i'r sector Addysg Uwch yn ei gwneud hi'n bosibl darparu mannau dysgu ac addysgu gwell, sydd o fudd uniongyrchol i addysg myfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae amrywiaeth o ffactorau, yn enwedig effaith COVID-19, yn debygol o arwain at newid hirdymor yn narpariaeth Addysg Uwch, gan gynnwys lleihau lefelau addysgu wyneb yn wyneb. Mae elfen o aildrefnu ystadau yn debygol. **Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i helpu'r sector Addysg Uwch i ateb yr heriau parhaus hyn**.

90 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf** – Tudalen 3
91 **www.core.ac.uk/download/pdf/42587797.pdf** – Tudalen 3
92 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020.pdf** – Tudalen 15
93 1 (ed.gov) **www.files.eric.ed.gov/fulltext/ED502369.pdf**

Cymraeg

Pennod 7

# Llesiant Diwylliannol

## Trosolwg

**1.** Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Gwyddom fod y celfyddydau, twristiaeth a chwaraeon yn rhannau hollbwysig o hunaniaeth Gymreig a'n heconomi, a bod y Gymraeg yn drysor cenedlaethol sy'n perthyn i bawb yng Nghymru.

**2.** Mae gennym gyfleoedd pendant i fanteisio ar ein statws fel gwlad ddwyieithog, gan gynyddu'r cyfleoedd a'r buddion y mae'r Gymraeg yn eu creu. Rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn manteisio ar yr agweddau unigryw ar ein diwylliant, ein hangerdd, ein hamgylchedd hanesyddol a naturiol rhyfeddol, a'n hymdeimlad cryf o gymuned – nid yn unig fel adnodd i sbarduno twf economaidd, ond i gydnabod y rôl annatod y mae llesiant diwylliannol yn ei chwarae mewn cymdeithas fodern.

## Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni

**3.** Mae'r Gymraeg yn rhan o'r hyn sy'n ein diffinio ni fel pobl ac fel gwlad, a bydd rhaid i bob un ohonom – siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr newydd sy'n dysgu'r iaith, yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg – gyfrannu at y gwaith o'i diogelu a'i hyrwyddo.

**4.** Dyma oedd y cefndir wrth inni osod ein huchelgais i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 filiwn a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau Cymraeg, o 10% i 20% erbyn 2050.

**5.** I gyrraedd ein targed 2050, bydd angen 438,000 yn rhagor o siaradwyr Cymraeg arnom. Er nad cyfrifoldeb y sector addysg statudol yn unig yw hwn, gwyddom mai dyma un o'r prif ddulliau y mae angen i ni ei ddefnyddio i lwyddo[94], ac y bydd angen inni fuddsoddi mewn aildrefnu ein hystad addysg er mwyn gwella a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae cyllid grant penodol wedi'i wneud ar gael i awdurdodau lleol ers 2018 er mwyn darparu seilwaith gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg cydgysylltiedig. Mae 49% o gyfalaf y Cynnig Gofal Plant wedi cael ei fuddsoddi ar gyfer darpariaeth gofal plant Gymraeg a bron i 6% ar gyfer darpariaeth gofal plant ddwyieithog. Mae'r buddsoddiad hwn yn sicrhau darpariaeth Gymraeg ychwanegol, yn helpu i ddenu disgyblion i'r sector

94 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf** – Tudalen 39

cyfrwng Cymraeg ac yn darparu cyfleoedd i blant o deuluoedd di-Gymraeg gymdeithasu a chwarae yn Gymraeg. **Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiadau cyfalaf mewn gwella ein hystad addysg ac ehangu ein darpariaeth Gymraeg i'r blynyddoedd cynnar yn cefnogi ein huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**.

**6.** Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, rhaid iddi fod yn ased yr ydym yn manteisio arni'n allanol, nid dim ond i breswylwyr Cymru. Gwyddom fod buddsoddi yn ein sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol yn darparu'r llety, y cyfleusterau a'r seilwaith sy'n galluogi ein pobl ifanc i weithio yn ein cymunedau, ac i'n gwesteion ddysgu am y Gymraeg a'i diwylliant, eu defnyddio a'u mwynhau[95]. Mae'r buddsoddiadau a wnawn i gefnogi busnesau twristiaeth a digwyddiadau yn mynnu bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i diogelu'n benodol, a **byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cymorth cyfalaf i'r sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol yn cefnogi ein targedau ar gyfer y Gymraeg**.

**7.** Hefyd, mae ffyrdd ehangach o ddefnyddio ein buddsoddiad mewn ystod eang o seilwaith i wella mynediad at y Gymraeg. Er enghraifft, er bod Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yn benodol, mae Llwybr Newydd yn nodi'r uchelgais o rwydwaith seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n annog gweithredwyr masnachol a thrydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg ar draws eu gwasanaethau[96]. Gwyddom hefyd fod swyddi o ansawdd da a lleoedd sy'n ddeniadol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt yn rhoi rheswm i bobl aros mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, neu i ddychwelyd iddynt. **Felly, bydd ein buddsoddiadau strategol mewn seilwaith yn chwarae rôl alluogi hanfodol ar gyfer cymdeithas ac economi sy'n hybu ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**.

## Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth

**8.** Mae ein hasedau a'n gweithgareddau diwylliannol yn eang. Maen nhw'n cynnwys buddsoddi yn y celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth, amgueddfeydd a threftadaeth – neu mewn geiriau eraill, yr holl weithgareddau creadigol sy'n rhoi pwrpas ac ymdeimlad o berthyn i bobl[97].

**9.** Mae buddsoddi mewn diwylliant yn rhan ganolog o'n cymdeithas a'n hymdeimlad o berthyn i genedl. Mae ganddo werth cynhenid a gwyddom pa mor bwysig yw gweithgareddau diwylliannol i bobl Cymru. Dywedodd 71% o bobl dros 16 oed yng Nghymru eu bod wedi bod yn bresennol neu wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth dair gwaith neu fwy yn ystod 2019-20[98].

**10.** Mae'r lefelau uchel hyn o ymgysylltu yn dangos bod angen i fannau arddangos gweithgareddau diwylliannol ac ymgysylltu â nhw, boed nhw'n theatrau, yn lleoliadau cerddoriaeth, yn stiwdios celf neu'n ganolfannau cymunedol, yn ogystal â mannau i ofalu am ein casgliadau a'r diwylliant materol sy'n helpu i adrodd straeon ein cenedl a'n cymunedau – ein llyfrgelloedd, ein harchifau a'n hamgueddfeydd hanesyddol. Mae llawer o'r rhain mewn adeiladau hŷn sydd angen eu hatgyweirio a'u cynnal a chadw, yn ogystal â'u huwchraddio i gyrraedd safonau newydd, ac mae'n dangos pa mor bwysig yw gwaith atgyweirio a chynnal a chadw mawr, a seilwaith newydd. Fodd bynnag, mae ein diwylliant a'n hanes yn fwy amrywiol o lawer na chestyll a chorau. Byddwn yn sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig

95 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-i-2025.pdf**
96 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawn.pdf** – Tudalen 35
97 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/datganiad-o-weledigaeth-ar-gyfer-y-celfyddydau-a-diwylliant-golau-yn-y-gwyll.pdf** – Tudalen 2
98 Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau **llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau**

Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol gan ein buddsoddiadau mewn seilwaith. **Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol yn y sector diwylliant yn darparu'r cyfleusterau o ansawdd uchel a'r mynediad sydd eu hangen i barhau i gyflawni cynnig diwylliannol unigryw ac amrywiol Cymru**.

**11.** Mewn llawer o achosion, mae ein cynnig diwylliannol ehangach yn cael ei ddangos i'r byd drwy ein sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol pwysig, gan ganiatáu i ddiwylliant Cymru gyfoethogi profiadau ein hymwelwyr. Un o'r amryw o resymau dros ein cefnogaeth i ddigwyddiadau mawr a brodorol yng Nghymru yw ehangu mynediad a hybu cyfranogiad yn y celfyddydau. Mae ein strategaeth twristiaeth[99] yn nodi'n glir bod gwerth dros niferoedd yn un o brif gonglfeini ein dull gweithredu ar gyfer yr economi ymwelwyr yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn galluogi pobl i fwynhau profiadau sy'n manteisio ar ddiwylliant a threftadaeth gyfoethog Cymru, gan wella ein cymunedau a'u ffordd o fyw ar yr un pryd. **Bydd ein cymorth cyfalaf yn sicrhau ein bod yn gallu cynyddu'r defnydd o'n hasedau diwylliannol i gefnogi'r diwydiant twristiaeth ei hun, a'n cymunedau yn ehangach**.

**12.** Mae COVID-19 wedi ein gorfodi i ystyried ffyrdd gwahanol o ddarparu a mwynhau gweithgareddau diwylliannol yn sgil y cyfyngiadau ar gynulleidfaoedd yn casglu'n ffisegol. Mae ein seilwaith cysylltedd digidol yn cynnal ac yn galluogi'r swyddogaethau ar-lein y mae sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn dibynnu arnynt i ddarparu ffyrdd newydd, arloesol o ddehongli a chyflwyno cynnwys – fel darlledu digwyddiadau byw i gynulleidfaoedd nad ydynt yn gallu mynd i leoliadau, yn ogystal â digideiddio'r casgliadau eu hunain. **Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol yn sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol yn y sefyllfa orau i reoli'r newid technolegol parhaus**.

## Arlwy craidd Cymru

| Tirweddau eithriadol y gofelir amdanynt | Cymunedau bywiog a diwylliant creadigol | Anturiaethau a gweithgareddau epig i bawb |
|---|---|---|
| Tirweddau naturiol hygyrch, gwarchodedig – sy'n cynnig profiadau llesiant ystyrlon, safonol a chyfoes. | Arlwy diwylliannol a threftadaeth drefol a gwledig sy'n unigryw ond sy'n hynod greadigol a chyfoes, a gaiff ei greu ar y cyd â phobl leol ac a gaiff ei werthfawrogi gan ymwelwyr. | Anturiaethau, digwyddiadau a gweithgareddau arloesol o'r raddflaenaf – sy'n rhoi bywyd i'n tirweddau ôl-ddiwydiannol a naturiol ac yn annog pawb i fyw bywyd iach |

**Croeso sy'n unigryw Gymreig**

Byddwn hefyd yn gwneud mwy i ddatblygu a hyrwyddo croeso sy'n unigryw Gymreig – yn seiliedig ar hyrwyddo lleoedd llawn cymeriad i aros ynddynt a phrofiadau bwyd a diod lleol ledled Cymru

**Profiadau cenedlaethol fel Ffordd Cymru**

99 Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 – 2025 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-i-2025.pdf**

**13.** Mae Cymru'n elwa ar amgylchedd hanesyddol helaeth ac unigryw sy'n cynnwys adeiladau, tirweddau, henebion a safleoedd archaeolegol sy'n dyddio o'r cynfyd i'r Rhyfel Oer. Mae'r asedau hanesyddol hyn yn gyfranwyr allweddol at lesiant diwylliannol. Mae llawer yn atyniadau craidd i dwristiaid hefyd – mae dros draean yr ymwelwyr dydd i Gymru o'r DU yn ymweld â chastell neu heneb hanesyddol[100]. **Bydd ein buddsoddiad mewn asedau treftadaeth yn adlewyrchu hanes unigryw Cymru, gan gydnabod gwerth cynhenid diogelu asedau o'r fath yn ogystal â'r budd ehangach i'r diwydiant twristiaeth**.

## Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden

**14.** Mae gan chwaraeon le sylfaenol yng ngwead traddodiad a diwylliant Cymru, ac mae'n rhan bwysig o sut rydym yn gweld ein hunain ac o sut mae pobl eraill yn ein gweld ni.

15. Nid yn unig y mae cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden yn caniatáu i bobl yng Nghymru fyw bywydau mwy gweithgar ac iach, ond mae hefyd yn cyfoethogi ac yn datblygu bywydau diwylliannol a chymdeithasol pobl, ac yn uno ein cymunedau a'n cenedl[101]. Felly mae codi lefelau cyfranogiad yn nod ynddo'i hun ac yn ddull allweddol o sicrhau buddion ehangach.

**16.** Gwyddom fod buddsoddi mewn cyfleusterau modern a phriodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, ac mae'n sicrhau adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o £2.88 am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi[102]. Mae ymchwil yn dangos, yn 2019-20, bod 49% o bob oedolyn yng Nghymru yn dymuno gwneud mwy o weithgareddau chwaraeon neu gorfforol[103], [104] – sy'n cyfateb i dros 1.2 miliwn o bobl – a **byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol yn seilwaith chwaraeon Cymru, sydd gyda'r gorau yn y byd, gan gynnwys caeau 4g, yn gallu helpu cenedlaethau'r dyfodol i gymryd rhan mewn chwaraeon**.

**17.** Mae mwy i fuddsoddi mewn ysgolion a cholegau modern o ansawdd uchel na'r amgylchedd ystafell ddosbarth traddodiadol. Gall gwella a newid seilwaith addysg mewn modd wedi'i dargedu gynnwys darparu cyfleusterau chwaraeon modern, gan hybu cyfranogiad cwricwlaidd ac allgwricwlaidd. Ar ben hynny, mae ein hysgolion a'n colegau'n chwarae rôl bwysig mewn defnydd cymunedol ehangach drwy ddarparu cyfleusterau chwaraeon neu arbenigol y gall pobl leol eu defnyddio. **Bydd ein buddsoddiad yn ein hystad addysg yn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac arbenigol, a hynny i ddysgwyr a'r gymuned ehangach**.

**18.** Mae hamdden yn fwy eang o lawer na chwaraeon wedi'u trefnu a gwyddom fod lefelau cyfranogiad mewn hamdden awyr agored yn uchel iawn yng Nghymru. Mae 81% o oedolion sy'n byw yng Nghymru yn cymryd rhan mewn un neu fwy o weithgareddau o leiaf unwaith y flwyddyn[105]. Mae buddsoddiad cyfalaf yn ein hamgylchedd naturiol yn chwarae rôl allweddol yn galluogi hyn, gan gynnwys drwy alluogi hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad agored. Yn ogystal â hynny, gwyddwn fod ystad coedwigoedd Cymru'n darparu buddion hamdden sylweddol. Mae gwerthoedd hamdden – y rhai nad ydynt ar gyfer y farchnad – yn fwy na gwerthoedd nwyddau gwerthadwy fel pren a nwyddau eraill nad ydynt ar gyfer y farchnad, fel dal a storio carbon[106]. **Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf strategol yn ein tirweddau naturiol yn adlewyrchu'r rôl allweddol maen nhw'n ei chwarae yn galluogi hamdden**.

---

100 Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019
101 **www.chwaraeon.cymru/cynnwys/elw-cymdeithasol-ar-fuddsoddiad-mewn-chwaraeon/**
102 **www.chwaraeon.cymru/cynnwys/arolwg-chwaraeon-a-ffyrdd-o-fyw-egniol/**
103 Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau: **www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau**
104 Arolwg Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Egnïol: **www.chwaraeon.cymru/cynnwys/arolwg-chwaraeon-a-ffyrdd-o-fyw-egniol/**
105 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Ymarfer – Hamdden Awyr Agored **www.cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/682844/national-survey-bulletin-outdoor-recreation-16-17-cym.pdf?mode=pad&rnd=131695534080000000**
106 Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig **www.erammp.wales/sites/default/files/ERAMMP%20Adroddiad**

## Gwella'r buddsoddiad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru

**19.** Mae'n bwysig bod ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn cydnabod gwerth cymuned, sy'n nodweddiadol o Gymru, ac yn deall y bydd anghenion cymunedau yn amrywio ledled Cymru. Er mwyn i gymunedau fod yn gynaliadwy, rhaid iddynt roi lleoedd i bobl fyw, gweithio a chwarae ynddynt, a gall ein buddsoddiadau strategol mewn seilwaith sicrhau'r gwead i'n cymunedau allu ffynnu ac i'n trefi a'n dinasoedd fod yn destun balchder, hyder a llesiant dinesig.

**20.** Mae ein cymunedau'n unigryw ac yn arbennig, ac mae gan bob un ei hanes, ei hymdeimlad o le a'i hatgofion balch ei hun. Mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith wedi'u dylunio i greu mannau cynaliadwy ledled Cymru i bobl eu mwynhau a chael eu diddanu, gan adlewyrchu gwahanol anghenion gwahanol gymunedau. Mae ein buddsoddiadau yn Nhasglu'r Cymoedd a sefydlu brîff Gweinidogol ar gyfer y Gogledd yn dangos yn glir ein hymrwymiad i fuddsoddi ym mhob cwr o Gymru.

**21.** Ar gyfer rhannau o'r buddsoddiad hwn, rydym yn fwriadol yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill ddewis ym mha drefi maen nhw am ddefnyddio'r cyllid, gan ei gwneud hi'n bosibl rhoi cymorth i drefi llai a allai fod wedi colli allan fel arall a datblygu uwchgynlluniau trefi a strydoedd mawr, a fydd yn parhau i sicrhau agwedd seiliedig ar leoedd at ein buddsoddiad. Gall buddsoddi yn ein hystad ddiwylliannol, gan gynnwys eiddo hanesyddol ac eiconig yng nghanol trefi, sicrhau bod y math o adeiladau sy'n creu naws am le yn cael eu diogelu a'u cynnal a chadw. **Wrth fuddsoddi'n strategol yn ein rhaglenni adfywio, byddwn yn sicrhau bod agwedd seiliedig ar leoedd, Gymru gyfan yn cael ei mabwysiadu**.

**22.** Nod buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn eiddo masnachol, sydd wedi'i ddylunio'n bennaf i gyflawni polisi economaidd, yw sicrhau bod darpariaeth ar gael yn unol ag ystyriaethau polisi ehangach, gan gynnwys dull gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf. Mae capasiti gweithleoedd uwch mewn, er enghraifft, trefi marchnad ac aneddiadau llai yn sbardun pwysig ar gyfer creu a diogelu bywiogrwydd cymunedau lleol. **Drwy ein buddsoddiad strategol mewn eiddo masnachol, byddwn yn ymdrechu i gynyddu buddion dull gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf i gymunedau**.

**23.** Yn yr un modd, mae gan ein buddsoddiad yn cynyddu cyflenwad tai yng Nghymru rôl i'w chwarae o ran creu lleoedd. Mae sicrhau bod datblygiadau'n cyd-fynd â'r fframweithiau polisi cynllunio a defnyddio tir ehangach yn golygu ein bod yn gallu rhoi mynediad i gymunedau at yr holl wasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Yn yr un modd, gwyddom mai Sipsiwn a Theithwyr yw rhai o'r grwpiau mwyaf ymylol mewn cymdeithas[107], a rhaid i'n buddsoddiadau cyfalaf gefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau llety o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Byddwn hefyd yn ystyried sut gall ein dull o fuddsoddi mewn cyflenwad tai fynd i'r afael â'r broblem o berchnogaeth ail gartrefi yng Nghymru, sy'n prisio cymunedau lleol allan o'r farchnad. Yn ogystal â hynny, er bod proffil oedran stoc dai Cymru yn creu heriau o ran effeithlonrwydd ynni, mae llawer ohonynt yn adeiladau traddodiadol sy'n cyfrannu at ein hamgylchedd hanesyddol, gan greu cymeriad unigryw Cymru a'n naws am le. Mae'n bwysig bod ein buddsoddiadau mewn ôl-osod yn cael eu gwneud â'r tringarwch hwn mewn cof. Yn ogystal â sicrhau bod lleoedd i weithio a chwarae yn ein cymunedau, **byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt**.

107 Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr www.llyw.cymru/cynllun-galluogi-sipsiwn-roma-theithwyr Tudalen 2

Pennod 8

# Cyflawni Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

## Trosolwg

**1.** Mae penodau blaenorol y ddogfen hon wedi nodi'r canlyniadau strategol y mae'n rhaid i fuddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru eu galluogi. Mae cysylltiad cynhenid rhyngddynt a'r pedwar parth a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**2.** Fodd bynnag, rydym yn glir na ellir sicrhau'r canlyniadau hyn oni bai fod y penderfyniadau a wneir ynghylch buddsoddi yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hynny'n gyfan gwbl, a bod rhaglenni'n cael eu dewis ar sail sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n dangos yn glir pam mae'r ymyriadau hynny yw'r rhai mwyaf effeithiol.

**3.** Mae'r bennod hon yn nodi sut bydd y canlyniadau'n cael eu cyflawni, nid yn unig mewn cysylltiad â gwariant uniongyrchol Llywodraeth Cymru ond hefyd o ran y buddsoddiad ehangach mewn seilwaith gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.

## Cyflawni'r Strategaeth – Llywodraeth Cymru

**4.** Mae hon yn weledigaeth hirdymor ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith, gan ymestyn dros y degawd nesaf. Er na fydd y weledigaeth honno'n newid, mae cyflymder newidiadau – o ran technoleg, demograffeg a'r economi yn golygu na fydd y rhaglen fuddsoddi fwyaf priodol heddiw yr un fwyaf priodol mewn 5 mlynedd o bosibl.

**5.** Felly, rhaid i unrhyw ddull cyflawni fod yn ddigon ystwyth i ymateb i newidiadau o'r fath drwy sicrhau bod digon o gyfleoedd i ailedrych ar y rhaglenni buddsoddi.

**6.** O ran buddsoddiad Llywodraeth Cymru, caiff hyn ei wneud drwy gyflawni cyfres o Gynlluniau Cyllid Seilwaith. Mae'r cyntaf o'r rhain yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth hon. Yn dilyn y setliad cyllideb o'r Adolygiad o Wariant, mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf yn amlinellu pa raglenni cyfalaf allweddol y byddwn yn buddsoddi ynddynt dros y tair blynedd nesaf.

### Dewis ac ariannu rhaglenni seilwaith

**7.** Y prif ddull o gyflawni'r strategaeth hon yw sicrhau bod y gyfres o raglenni seilwaith sy'n cael eu dewis a'u hariannu drwy'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf yn sicrhau, ar y cyd, y canlyniadau a nodir. Fodd bynnag, fel y nodir yn y bennod "egwyddorion trawsbynciol", bydd fframwaith ar gyfer dewis rhaglenni seilwaith ar gyfer buddsoddiad ddim ond mor effeithiol â'r cynigion y mae'n blaenoriaethu rhyngddynt. Mae'r dull buddsoddi yn ddibynnol ar y ffaith fod y cynigion seilwaith a gyflwynir wedi cael eu cynllunio, eu dylunio a'u datblygu nid yn unig drwy wydr llesiant, ond mewn ffordd sy'n ymgorffori'r egwyddorion trawsbynciol hynny hefyd.

**8.** Wrth sefydlu'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf a'r buddsoddiadau ynddo, mae'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu[108] wedi cael ei flaenoriaethu yn gyson â'r canlyniadau a nodir yn y strategaeth hon. Mae'r cyllidebau sy'n sail i'r Cynllun wedi cael eu llunio "ar sail sero" i'r graddau mwyaf posibl ac maen nhw'n adlewyrchu'r newid sylweddol yn y dull gweithredu ar gyfer prif ofyniad y strategaeth hon, sef cefnogi economi ddi-garbon.

**9.** Yn benodol, mynnwyd cael asesiad o effaith carbon y rhaglenni buddsoddi a gyflwynir ar gyfer cyllid, gan sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn rhan o'n holl benderfyniadau, yn ogystal ag ystyriaethau o ran gwerth am arian a fforddiadwyedd. Wrth gyflwyno cynigion ar gyfer datblygu'r Cynllun Cyllid Seilwaith, a'r penderfyniadau cyllidebol sy'n ariannu'r cynigion hynny, mae adrannau Llywodraeth Cymru hefyd wedi gorfod dangos sut mae eu cynigion yn ymgorffori'r egwyddorion datblygu a amlinellir yn ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, "Cymru'r Dyfodol"[109].

**10.** Hefyd, rydym yn ymwybodol y bydd y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud yn awr, mewn llawer o achosion, gyda ni am ddegawdau i ddod a'i bod yn hollbwysig bod ein buddsoddiadau'n cael eu dylunio i gael yr effaith fwyaf bosibl dros y tymor hirach. Dyma pam, wrth ddatblygu cynigion seilwaith, yr oedd yn rhaid i adrannau ddarparu asesiad o sut mae'r cynigion wedi cael eu "diogelu at y dyfodol". Yn benodol, cafodd cadernid yn wyneb newidiadau i'r ddemograffeg a'r newid yn yr hinsawdd, y gallu i ymateb i ddatblygiadau technolegol, pa mor agored ydynt i newidiadau economaidd a sut maen nhw'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hirdymor eu profi, yn unol â'r ail adroddiad "Tueddiadau'r Dyfodol[110]" statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Defnydd adrannau o amlenni cyllidebol

**11.** Fodd bynnag, gwyddom fod y dyraniadau cyllidebol a wneir ar lefel maes buddsoddi drwy'r broses hon yn ddim ond un agwedd ar y broses gwneud penderfyniadau, a bod cyflawni'n llwyddiannus yn ddibynnol ar bob dyraniad prosiect unigol ar lefel adrannol hefyd yn ymgorffori'r egwyddorion yn y strategaeth hon.

**12.** Mae'n hollbwysig bod pob adran wario'n cydnabod bod angen newid sylweddol mewn dull gweithredu er mwyn ymgorffori'n llawn a chyflawni i'r eithaf yn erbyn y strategaeth hon. Yn benodol, wrth roi cyngor i Weinidogion, rhaid i adrannau gwario ddangos yn glir sut bydd y defnydd penodol o ddyraniad cyllideb penodol yn cyfrannu at yr amcanion strategol y dyrannwyd y gyllideb honno i'w cyflawni. Dim ond drwy weithredu'r newid hwn mewn ymddygiad ar lawr gwlad y bydd deiliaid cyllidebau'n cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n cyd-fynd â chanlyniadau'r strategaeth hon i'r graddau mwyaf posibl.

## Gwerthuso a monitro

**13.** Yn yr un modd, rhaid inni allu asesu pa mor llwyddiannus yw'r fframwaith strategol hwn, yn ymarferol, o ran blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n sicrhau'r canlyniadau a nodir yn y Strategaeth. Bydd yn rhaid i fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn seilwaith o dan Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gynnal gwerthusiad cadarn o'u cyfraniad i'r canlyniadau hynny.

**14.** Mae gosod cynlluniau cyflawni tymor byrrach sy'n ategu'r strategaeth yn rhoi cyfle i sicrhau bod ein buddsoddiadau'n sicrhau'r canlyniadau hyn, drwy ymgorffori'r gofyniad. Byddwn yn ystyried yn fanylach y disgwyliadau ar ddeiliaid cyllidebau o ran gwerthuso a sicrhau buddion mewn cysylltiad â'r dyraniadau ariannol a wneir yn y cylch hwn, a bydd angen i'r rhain gefnogi cyflwyniadau mewn cylchoedd ariannu yn y dyfodol.

108 **gov.wales/sites/default/files/publications/2021-06/programme-for-government-2021-to-2026.pdf**
109 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf**
110 Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun Cyfunol ar gyfer 2021 **llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-a-cherrig-milltir-cenedlaethol-cynllun-cyfunol-ar-gyfer-2021-html** (2il adroddiad i'w gyhoeddi fis Rhagfyr 2021)

### Llywodraethiant

**15.** Mae'n bwysig ein bod yn ystyried sut y gellir cefnogi'r gwaith o gynllunio, dylunio a datblygu cynigion seilwaith yn well ar draws y sefydliad i ymgorffori'r egwyddorion trawsbynciol ehangach a sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf yn unol â'r Strategaeth hon. Bydd ein pwyslais ar ystyried yn fanylach sut y gellid defnyddio prosesau mewnol Llywodraeth Cymru orau i atgyfnerthu'r dull gweithredu cam-wrth-gam hwn, gan sicrhau bod pob cyfle'n cael ei gymryd i gydlynu'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, a bod creu lleoedd wrth wraidd y dull hwn.

**16.** Bydd hyn yn cynnwys ystyried y rôl fwyaf effeithiol ac effeithlon y gall ein dulliau o reoli prosiectau a rhaglenni – megis cynnig hyfforddiant gwell ar gyfer rheolwyr prosiectau a rhaglenni ac Uwch Berchnogion Cyfrifol – ei chwarae wrth uwchsgilio'r sefydliad a gwreiddio'r egwyddorion craidd hynny. Efallai y gallai ein prosesau sicrwydd chwarae rhan well hefyd, er enghraifft adolygiadau Gateway. Mae sicrwydd integredig yn arf llywodraethiant hanfodol i sicrhau cynllunio a chyflawni integredig, o bennu'r canlyniadau a'r amcanion cywir, i wneud penderfyniadau allweddol yn ystod oes y prosiect, i brofi bod y manteision wedi'u gwireddu mewn gwirionedd.

**17.** Byddwn hefyd yn ystyried hefyd sut y gellir gwneud y gorau o effaith ein peirianwaith trawsadrannol - gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau trawsadrannol sydd â rôl mewn buddsoddi strategol – i sbarduno arferion gorau a gwella datblygiad cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau tryloywder o ran cynigion seilwaith sydd wedi'u cynllunio neu sy'n cael eu datblygu.

**18. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Strategaeth hon yn amlinellu buddsoddiad mewn rhaglenni hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25, Cytunir ar ail Gynllun Cyllid Seilwaith yn dilyn hyn – yn dibynnu ar ganlyniadau Adolygiadau o Wariant dilynol – gan amlinellu cyfres newydd o fuddsoddiadau mewn rhaglenni a fydd yn parhau i gyflawni'r Strategaeth hon yn y ffordd fwyaf effeithiol**.

## Gweithio gyda'n partneriaid

**19.** Mae buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru yn fater ehangach o lawer na buddsoddiad Llywodraeth Cymru ar ei ben ei hun. Er enghraifft, yn y Llif Prosiectau Seilwaith a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021[111], o'r £29.9bn o fuddsoddiad a amlinellwyd dim ond £9.5bn oedd yn fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

**20.** Felly, rhaid inni hefyd ystyried sut gallwn weithio gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach i sicrhau, i'r graddau mwyaf posibl, bod buddsoddiad mewn seilwaith yn sicrhau'r un canlyniadau strategol ag y mae buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

### Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru

**21.** Mae pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi'i rwymo gan delerau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac felly'n gorfod datblygu'n gynaliadwy i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant, ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

**22.** Mae gennym uchelgais ar gyfer sector cyhoeddus carbon sero net erbyn 2030. Mae'r Cyngor Partneriaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, y GIG, Awdurdodau Tân ac Achub, cynghorau tref a chymuned, y sector gwirfoddol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a Llywodraeth Cymru, yn darparu'r arweinyddiaeth, y weledigaeth a'r oruchwyliaeth strategol ar gyfer y gwaith hwn.

**23.** Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, mae ystod o ddulliau y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i sicrhau bod buddsoddiad y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio tuag at y canlyniadau a nodir yn y Strategaeth hon.

---

111 Llif Prosiectau Buddsoddi yn Seilwaith Cymru **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/diweddariad-ar-y-llif-prosiectau-2021.pdf**

**24.** Mae map ffordd ar gyfer adeiladu cartrefi sero net wedi cael ei ddatblygu, gan nodi'r safonau carbon isel y mae'n rhaid adeiladu cartrefi iddynt, ac erbyn pryd. Nod hyn yw symleiddio'r cyd-destun datblygu i landlordiaid cymdeithasol a darparu sicrwydd i ganiatáu i gadwyn gyflenwi Cymru fuddsoddi, a gallu gwasanaethu niferoedd uchelgeisiol o ran adeiladu tai cymdeithasol.

**25.** Bydd Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 yn gwella effeithlonrwydd ynni tai cymdeithasol yn sylweddol ac yn lleihau allyriadau carbon, drwy fynnu safonau adeiladwaith uwch a rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil ar gyfer gwresogi a dŵr poeth. Bydd gwneud y grid trydan yn fwy gwyrdd byth a defnyddio ynni adnewyddadwy ar y safle, gyda storfeydd ynni a rheolaethau deallus, yn arwain at y cartrefi di-garbon yr ydym yn anelu atynt.

**26.** Mae Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 yn mynnu bod darparwyr tai yn mabwysiadu'r arferion gorau o ran symud i amgylchedd adeiledig cylchol, wedi'i ddatgarboneiddio, ac yn hybu asesiad carbon oes gyfan a gwerthusiad o berfformiad cartrefi a ddefnyddir. Ein nod yw bod yr un safonau'n berthnasol i bob tŷ newydd o 2025 ymlaen, fel yr argymhellir gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy (2019).

**27.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phob un o bedwar rhanbarth Cymru i archwilio'r cyfleoedd economaidd a ddaw drwy newid i system ynni carbon isel. Mae'r Strategaethau Ynni Rhanbarthol yn dechrau nodi graddfa'r newid sydd ei angen i sicrhau system ynni carbon isel ac yn sefydlu blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer system ynni carbon isel. Mae'r gwaith hwn yn modelu'r galw am bŵer, gwres a thrafnidiaeth yn y dyfodol, ac yn cynnwys asesiad economaidd o effaith cyflawni'r uchelgeisiau a gynigir. Mae Cynllunio Ynni Ardal Leol yn adeiladu ar waith y strategaethau ynni rhanbarthol, gan fabwysiadu dull manylach o nodi'r camau gweithredu risg isel i ddatgarboneiddio system ynni leol.

**28.** Rydym yn cefnogi dau gynllun peilot Cynllunio Ynni Ardal Leol yn ardaloedd awdurdod lleol Conwy a Chasnewydd, ac yn bwriadu cyflwyno'r dull gweithredu hwn ar draws holl ranbarthau Cymru. Rydym yn rhag-weld y bydd y gwaith hwn yn nodi llif o brosiectau ar draws y meysydd effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni, trafnidiaeth a gwresogi y gellir eu hystyried ar gyfer cymorth gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.

**29.** Mae Ystadau Cymru[112] yn sefydliad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru. Mae'n hybu rhagoriaeth yn y rheolaeth weithredol o ystad y sector cyhoeddus ac yn cefnogi ac yn hwyluso cyfleoedd i fabwysiadu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer eiddo, a rheoli eiddo. Drwy waith Ystadau Cymru byddwn yn sicrhau bod y gwaith o reoli ein hystad bresennol yn cyfrannu at yr un canlyniadau strategol y gall buddsoddi mewn seilwaith newydd eu sicrhau.

**30. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r gyfres o ddulliau sydd ar gael inni i wella'r canlyniadau strategol y gall buddsoddi mewn seilwaith yn sector cyhoeddus ehangach Cymru eu sicrhau.**

## Llywodraeth Leol

**31.** Er bod llawer o'r gwariant cyfalaf drwy lywodraeth leol yn gyllid grant penodol (er enghraifft, cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, neu seilwaith llifogydd), rydym hefyd yn darparu cyllid cyfalaf heb ei neilltuo a benthyca cyfalaf wedi'i gefnogi.

**32.** Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholaeth eu hunain a'i bod yn briodol eu bod yn gallu dyrannu cyllid yn ôl eu blaenoriaethau lleol eu hunain.

**33.** Er hynny, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cyd-fynd mewn nifer o feysydd, ac mae'n bwysig ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu buddion buddsoddi cyhoeddus.

112 Cylch Gorchwyl: Ystadau Cymru **llyw.cymru/ystadau-cymru/cylch-gorchwyl#section-31085**

**34.** Mae trefniadau gwleidyddol yn bodoli i hybu cydweithio a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a hynny drwy Gyngor Partneriaeth Cymru[113], yr is-grŵp Cyllid a'r is-grŵp ar lefel swyddogion cefnogi, yn ogystal â'r Grŵp Cyllid a Buddsoddiad Cyfalaf.

**35.** Mae'r grŵp wedi ystyried sut mae sicrhau y gellir defnyddio'r cyfraddau benthyca ffafriol a ddarperir drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i gefnogi blaenoriaethau a rennir, ac wedi hybu'r defnydd o fodelau buddsoddi cydfuddiannol ar gyfer adeiladau ysgolion. Mae ein huchelgais ar y cyd i sicrhau sector cyhoeddus sero net yn cael ei datblygu a'i sbarduno drwy waith yr Is-grŵp Datgarboneiddio a'r Cyngor Partneriaeth.

**36.** Hefyd, gall ein dull cyllido cyffredinol ar gyfer seilwaith a ddarperir drwy ein partneriaid llywodraeth leol sicrhau bod ein canlyniadau strategol ar y cyd yn cael eu sicrhau. Er enghraifft, mae buddsoddiad ariannol Llywodraeth Cymru yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (a fydd cyn hir yn cael ei hadnabod fel "Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu") yn defnyddio cyfraniad o gyllidebau cyfalaf cyffredinol llywodraeth leol neu fenthyca, ac mae gosod cyfraddau ymyrraeth ar gyfer grantiau penodol yn gallu helpu i sicrhau bod ein huchelgeisiau seilwaith ar y cyd yn cael eu gwireddu.

**37. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid llywodraeth leol o ran ymgysylltu gwleidyddol a swyddogol, a dulliau cyllido, i sbarduno buddion ein buddsoddiad**.

## Llywodraeth y DU

**38.** Mae ein capasiti buddsoddi mewn rhai sectorau seilwaith allweddol yn gyfyngedig o ganlyniad i'r setliad datganoli – yn benodol, elfennau o'r sectorau Digidol, Ynni, Hedfanaeth a Rheilffyrdd[114]. Er bod y Strategaeth hon wedi nodi'n flaenorol sut rydym yn bwriadu defnyddio ein dulliau cyllido cyfyngedig yn y meysydd hyn, rhaid inni hefyd ystyried sut mae sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau a nodir yn y Strategaeth hon hefyd.

**39.** Mae ein safbwynt wedi bod yn glir ac yn gyson. Dylai Llywodraeth y DU gytuno i'n cynigion ar gyfer datganoli seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn llawn. Ynghyd â hynny, **byddwn yn parhau i bwyso am setliad cyllido llawn a theg i sicrhau bod Cymru'n gallu cael y buddion mwyaf posibl o fuddsoddiad yn ein rheilffyrdd, gan gynnwys yr angen i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith cyn gynted â phosibl i gyflawni ein cyllidebau carbon**.

**40.** Hefyd bydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati'n gyson i geisio ymrwymiad Llywodraeth y DU i leihau'r broses o echdynnu a defnyddio tanwyddau ffosil, a rhoi'r gorau i hynny'n gyfan gwbl mewn amser, ac i fuddsoddi yn economi ddi-garbon y dyfodol. Mae ein system ynni'n hanfodol i bron pob rhan o fywyd Cymru ac mae system ynni wedi'i datgarboneiddio yn hollbwysig er mwyn gwireddu uchelgeisiau sero net Cymru. Bydd trawsnewid y system hon i system carbon isel fwy lleol, hyblyg a chlyfar yn rhan hanfodol o sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru.

**41.** Ofgem sy'n rheoleiddio buddsoddiad mewn rhwydweithiau ynni. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhwydweithiau i gael darlun hirdymor o'r grid a fydd ei angen ar Gymru yn 2050. Mae Gweinidogion wedi ymgysylltu â Bwrdd Ofgem ac mae swyddogion yn gweithio gydag Ofgem a'r rhwydweithiau i daro cydbwysedd rhwng rhwydweithiau sy'n galluogi datgarboneiddio, a sicrhau bod ynni'n dal yn fforddiadwy. Mae'n debygol y bydd angen trawsnewid y dirwedd reoleiddiol ac ariannol i gyflawni hyn, a byddwn yn annog Llywodraeth y DU i weithredu'n gyflym yn hyn o beth. Hefyd bydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i annog gweithredwyr rhwydweithiau i ddefnyddio Cronfa Arloesi Strategol Ofgem i ariannu arloesedd yn rhwydweithiau Cymru.

---

113 Cyngor Partneriaeth Cymru **llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-cymru**

114 CP 329 – National Infrastructure Strategy – Fairer, faster, greener – November 2020 **www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/938539/NIS_Report_Web_Accessible.pdf** – Tudalen 28

**42.** Mae Cenhadaeth 5 ein Strategaeth Ddigidol[115] yn gosod uchelgais i Gymru lle mae gwasanaethau digidol wedi'u hategu gan seilwaith cyflym a dibynadwy. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom i sicrhau ein bod yn deall cynlluniau'r farchnad, ac i gael y cyfle i ddylanwadu ar bolisi'r DU – er enghraifft, sefydlu protocolau a phrosesau â Llywodraeth y DU i gefnogi cynlluniau'r DU, fel y Rhwydwaith Gwledig a Rennir a'r Rhaglen Band Eang Gigabit. **Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i gadw yn gamau sy'n gweithio i Gymru**.

**43.** Yn hollbwysig, rhaid i Lywodraeth y DU ein galluogi i gynyddu gwerth buddsoddiad yng Nghymru drwy wrthdroi ei phenderfyniad i atal y £375m o Gyllid Strwythurol blynyddol yr UE y mae Llywodraeth Cymru wedi'i buddsoddi'n hanesyddol i gyflawni ystod eang o raglenni cenedlaethol sy'n hanfodol i'n hymdrech ailadeiladu. Dim ond i greu rhaglenni newydd i'r DU gyfan mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli y dylid defnyddio pwerau cymorth ariannol Deddf y Farchnad Fewnol y DU, a hynny gyda chydsyniad penodol y llywodraethau datganoledig. **Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyllid newydd yn cymryd lle cyllid yr UE yn llawn ac mai Llywodraeth Cymru sydd i benderfynu sut mae'r cyllid hwnnw'n cael ei wario, yn gyson â'r setliad datganoli**.

## Y Sector Preifat

**44.** Roedd y diweddariad diwethaf i'r Llif Prosiectau Buddsoddi mewn Seilwaith[116] yn amlinellu'r buddsoddiad arfaethedig mewn seilwaith gan y sector preifat (mewn gwasanaethau cyhoeddus) o dros £7.2bn, yn cynnwys £763m (Dŵr), £4.7bn (Ynni) ac £1.7bn (Network Rail). Fodd bynnag, mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU o ran gwladoli Network Rail fel rhan o Great British Railways yn golygu bod buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd wedi cael ei ystyried yn adran Llywodraeth y DU uchod.

**45.** Cynhyrchu trydan a gwres oedd yn gyfrifol am 19% o allyriadau Cymru yn 2019, sy'n golygu mai dyma'r sector ail fwyaf o ran allyriadau. Mae cynhyrchu ynni ar raddfa fawr drwy olew a glo bellach wedi dod i ben yng Nghymru, ac mae Cymru Sero Net yn ei gwneud yn glir nad ydym yn gweld unrhyw le i ragor o orsafoedd ynni tanwydd ffosil yng Nghymru, ac nad ydym chwaith am weld y gorsafoedd presennol yn cael eu disodli â gorsafoedd eraill a allent eu hunain greu allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**46.** Mae Polisi Cynllunio Cymru[117] yn nodi'n glir bod disgwyl i bob datblygiad newydd liniaru achosion y newid yn yr hinsawdd yn gyson â'r hierarchaeth ynni cynllunio. Mae'r hierarchaeth hon yn blaenoriaethu lleihau'r galw a sicrhau effeithlonrwydd ynni datblygiadau, ynghyd â chynyddu'r ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu.

**47.** Yn ogystal â hynny, mae Cymru'r Dyfodol[118] yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, wrth bennu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, roi pwys sylweddol ar yr angen i gyflawni ymrwymiadau rhyngwladol Cymru a'n targed i gynhyrchu 70% o ynni a ddefnyddir drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**48.** Yn yr Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd a chanfod eu bod yn gallu lletya datblygiadau mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr yn yr ardaloedd hyn.

**49.** Yn ogystal â hynny, er nad yw trwyddedu datblygiadau hydrocarbon ar y môr wedi'i ddatganoli, mae Cynllun Morol

115 Strategaeth Ddigidol i Gymru **llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru**
116 Llif Prosiectau Buddsoddi yn Seilwaith Cymru **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/diweddariad-ar-y-llif-prosiectau-2021.pdf**
117 Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11.pdf** – Tudalen 90
118 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf** – Tudalen 95

Cenedlaethol Cymru[119] yn cynnwys polisi sy'n mynnu bod datblygiadau olew a nwy morol ar y môr ag elfennau ar y tir yn cyd-fynd ag agwedd Llywodraeth Cymru at ddatgarboneiddio gyda'r bwriad, i'r graddau mwyaf posibl, o rybuddio yn erbyn echdynnu ar y môr. **Byddwn yn defnyddio'r arfau polisi cynllunio sydd ar gael inni i barhau i liniaru effaith datblygiadau seilwaith newydd, ac i flaenoriaethu seilwaith cynhyrchu ynni newydd yn gyson â'r hierarchaeth ynni**.

**50.** Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried ffyrdd o fireinio a symleiddio'r broses gydsynio ar gyfer cynlluniau seilwaith mawr, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, yng Nghymru, ac wedi ymgynghori ar gyflwyno un system o Gydsynio i Seilwaith yng Nghymru. Bwriad y broses yw darparu un man canolog sy'n symleiddio'r broses gydsynio ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau sy'n cymryd rhan. Byddwn yn gweithio tuag at gyflwyno Bil yn y dyfodol agos sy'n gwireddu'r uchelgais o greu Cydsyniad Seilwaith i Gymru, i helpu i gyflawni ein nodau mewn perthynas â datgarboneiddio, teithiau cynaliadwy a chefnogi arloesedd mewn ynni adnewyddadwy.

**51.** Mae rheoleiddio a thrwyddedu'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn bwnc cymhleth. Ofwat sy'n gyfrifol am reoleiddio'r sector dŵr a charthffosiaeth o safbwynt economaidd. Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed sy'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd annibynnol bod cyflenwadau dŵr yn ddiogel a bod ansawdd dŵr yfed yn dderbyniol i gwsmeriaid. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio o safbwynt amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddarparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr ac mae cwmnïau dŵr a charffosiaeth (fel Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy) yn gyfrifol am ddarparu'r cyflenwad dŵr a glanweithdra, gan gynnwys darparu seilwaith.

**52.** Mae ein hegwyddorion arweiniol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr[120] yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r cynlluniau ganolbwyntio ar gyflawni tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sbarduno carbon isel yn gryf. O ran buddsoddi mewn seilwaith, mae ein strategaeth ddŵr yn nodi rhagdybiaeth o blaid atebion cynaliadwy a thystiolaeth o'u defnydd yn hytrach nag ehangu neu adnewyddu capasiti'r seilwaith presennol[121].

**53.** Mae cwmnïau dŵr wrthi'n datblygu Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff a'n huchelgais yw rhoi sail statudol iddynt. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r gwelliannau angenrheidiol o ran draenio a dŵr gwastraff dros gyfnod o 25 mlynedd.

**54.** Er nad yw Dŵr Cymru'n rhwym i delerau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae eu Hadroddiad Lles[122] yn cydnabod eu cyfrifoldebau unigryw fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus, hanfodol i dros dair miliwn o bobl. Nod ei strategaeth sero net yw bod yn garbon niwtral erbyn 2040, ac mae Hafren Dyfrdwy wedi ymrwymo i allyriadau gweithredol sero net erbyn 2030. **Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â'r diwydiant dŵr i sicrhau bod eu buddsoddiad mewn seilwaith yn cynyddu buddion buddsoddi, gan flaenoriaethu atebion cynaliadwy ar yr un pryd**.

**55.** Yn ogystal â'r sectorau hynny sydd yn y llif prosiectau ar hyn o bryd, mae buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat ehangach mewn seilwaith yng Nghymru. Lle bo arfau ariannol Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig, rhaid inni ystyried sut gallwn ddefnyddio ein harfau ehangach i sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau mewn seilwaith yng Nghymru yn cyfrannu at sicrhau ein canlyniadau strategol ac, yn benodol, sut gallant gefnogi economi ddi-garbon.

**56.** Yn y sector adeiladu tai, **byddwn yn defnyddio rheoliadau adeiladu i'r graddau mwyaf posibl er mwyn sicrhau bod datblygiadau preifat yn gweithio i gyflawni economi**

---

119 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen-mawr.pdf**
120 **gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/water-resources-management-plan-guidance.pdf**
121 Fframwaith safonau iechyd **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-ddwr.pdf** – Tudalen 34
122 Ein Hadroddiad Lles - **www.corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans/wellbeing-commitment**

**ddi-garbon hefyd**. Mae ein hymateb i adolygiad 2020 o Ran L o'r rheoliadau adeiladu ar gyfer cartrefi newydd yn nodi ein penderfyniad i gyflwyno gostyngiad o 37% (o'i gymharu â'r safonau presennol) mewn allyriadau carbon i anheddau newydd o 2022 ymlaen[123]. Bydd angen diogelu pob tŷ newydd at y dyfodol hefyd, i'w gwneud hi'n haws ôl-osod systemau gwresogi carbon isel.

**57.** Mae'r gostyngiad o 37% yn gam tuag at y newidiadau nesaf i effeithlonrwydd ynni yn y Rheoliadau Adeiladau yn 2025, lle bydd angen i dai newydd gynhyrchu o leiaf 75% yn llai o allyriadau CO2 na'r rhai sy'n cael eu hadeiladu yn ôl y gofynion cyfredol.

**58.** Mae'r rôl y mae buddsoddiad preifat mewn seilwaith tai yn ei chwarae yr un mor hanfodol yn datblygu cymunedau sy'n ffynnu ag y mae yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n sicrhau bod creu lleoedd wrth galon datblygu ac yn mynnu dull integredig sy'n sicrhau bod gan gymunedau'r holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt o fewn cyrraedd hwylus, a bod ansawdd dylunio datblygiadau yn uchel.

Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn mynnu bod canlyniadau'n cael eu hystyried, nid dim ond nifer y cartrefi, ac mae lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol yn rhan ganolog o hynny – ni ddylai safleoedd tai fforddiadwy fod yn israddol mewn unrhyw ffordd i safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfer tai'r farchnad agored. **Byddwn yn sicrhau bod rhoi'r polisi cynllunio ar waith yng Nghymru yn ei gwneud hi'n bosibl creu cymunedau Cymreig sy'n ffynnu drwy ddatblygiadau tai preifat**.

**59.** Gwyddom y bydd darparu'r cyfleusterau gwefru i fodloni anghenion defnyddwyr cerbydau trydan yn her sylweddol ac yn un sydd wedi'i hamlygu'n glir yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i wahardd gwerthu ceir newydd wedi'u pweru gan danwydd ffosil o 2030 ymlaen. Er bod y ddogfen hon eisoes wedi amlinellu ein dull strategol o fuddsoddi yn y seilwaith angenrheidiol, rydym yn glir y bydd angen buddsoddiad gan y sector preifat mewn cyfleoedd masnachol[124]. Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Cerbydau Trydan[125] yn pennu'r canlyniadau y mae'n rhaid i ni eu cyflawni i sicrhau bod defnyddwyr ceir a faniau trydan yng Nghymru, erbyn 2025, yn hyderus y gallant gael mynediad at seilwaith gwefru cerbydau trydan pryd a ble y mae ei angen arnynt.

**60.** Rydym wedi ymrwymo i ddarparu fflyd fysiau dim allyriadau pibell fwg erbyn 2028. Hwn yw'r dyddiad mwyaf uchelgeisiol yn y byd ar gyfer cael gwared yn llwyr ar beiriannau tanio mewnol mewn bysiau. Er y bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy fuddsoddiad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn sefydlu "Bysiau i Gymru" – partneriaeth gyhoeddus-preifat i gaffael a darparu bysiau o ansawdd uchel sy'n isel iawn o ran eu hallyriadau i weithredwyr drwy brydlesu, a hynny gyda chelloedd batri trydan a thanwydd hydrogen.

**61.** Gwyddom fod pwysigrwydd cysylltedd dyfeisiau symudol yn tyfu. Erbyn hyn mae dros 90% o oedolion yng Nghymru yn berchen ar ffôn symudol. Mae ein Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol yn amlinellu sut byddwn yn cydweithio â'r diwydiant ffonau symudol[126] a'r rheoleiddiwr i ddarparu cysylltedd sy'n bodloni anghenion pobl Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n mynnu bod awdurdodau cynllunio'n mynd ati i ymgysylltu â gweithredwyr symudol wrth baratoi cynlluniau datblygu, yn trafod darpariaeth gwasanaethau, ac yn nodi'r mannau lle mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig neu nad oes darpariaeth.

**62.** Byddwn hefyd yn gweithio i hwyluso'r berthynas rhwng gweithredwyr rhwydweithiau symudol a darparwyr seilwaith rhwydweithiau symudol, yn ogystal â rheolwyr ystadau a phartïon eraill â diddordeb yn sector cyhoeddus Cymru, er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o asedau cyhoeddus i ddarparu cysylltedd dyfeisiau symudol preifat. Byddwn yn defnyddio ein dulliau i'r graddau mwyaf posibl er mwyn helpu ac annog gweithredwyr a darparwyr gwasanaethau yn y sector preifat i fuddsoddi mewn atebion cynaliadwy.

---

123 **llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/crynodeb-o-ymatebion-adolygiad-rhan-l-o-reoliadau-adeiladu.pdf**
124 Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-gwefru-cerbydau-trydan-ar-gyfer-cymru_0.pdf**
125 **www.llyw.cymru/strategaeth-gwefru-cerbydau-trydan-ar-gyfer-cymru-cynllun-gweithredu-html**
126 **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-gweithredu-ffonau-symudol.pdf**

Atodiad A

# Adolygiad o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012

## Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012

**1.** Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi ("y Cynllun") oedd ein strategaeth seilwaith drawslywodraethol 10 mlynedd gyntaf, wedi'i dylunio i flaenoriaethu a chydlynu'r gwaith o gyflawni ein buddsoddiadau mawr mewn seilwaith. Yn ogystal â hynny, roedd y Cynllun yn amlinellu ein gweledigaeth i gynyddu grym gwario cyfalaf Cymru drwy ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes, sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol, a defnyddio mathau newydd, arloesol o gyllid.

**2.** Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ers 2012 o ran cyflawni nodau a blaenoriaethau'r Cynllun. Er bod y bennod ganlynol yn tynnu sylw at rai o'r llwyddiannau mwy trawiadol ac yn esbonio rhai o'r heriau sydd wedi cael sylw gennym, nid yw wedi'i bwriadu i fod yn werthusiad cwbl gynhwysfawr o'n nodau gwreiddiol.

## Cynnydd

**3.** Er bod rhai o'n blaenoriaethau wedi datblygu efallai, mae nodau craidd y Cynllun yn dal yn adlewyrchu ein hegwyddorion trosfwaol i fodloni gofynion seilwaith Cymru, gan fanteisio i'r eithaf ar yr holl ddulliau sydd ar gael inni i gynyddu cyllid cyfalaf a blaenoriaethu ein buddsoddiad mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r buddion mwyaf, yn gyson â'r blaenoriaethau hynny.

**4.** Pan wnaethom ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019, roedd hynny'n arwydd o newid sylweddol yn ein dull gweithredu ar gyfer seilwaith yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn teithio llesol a fflyd bysiau trydanol, ffyrdd newydd o adeiladu tai, gwella ein safleoedd pwysicaf yn ecolegol, a datblygu Coedwig Genedlaethol a fydd yn ymestyn o Fôn i Fynwy.

**5.** Rydym wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 ac i gydlynu'r gweithredu i helpu rhannau eraill o'r economi, gan gynnwys academia, diwydiant a'r trydydd sector, i droi oddi wrth danwyddau ffosil.

**6.** Dros y 10 mlynedd ers ei gyhoeddi'n wreiddiol, mae ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus wedi cadw ei phedwar nod allweddol, sef:

***Creu system sy'n nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau seilwaith o bwys cenedlaethol ar draws cyfrifoldebau adrannol, gan ganolbwyntio adnoddau ar fuddsoddiadau sydd â'r flaenoriaeth uchaf sy'n cynnig y budd mwyaf yn unol â datblygu cynaliadwy***

**7.** Yn wyneb degawd o gyni, mae datblygiadau pellach wedi golygu bod system gadarn i nodi ein blaenoriaethau uchaf yn dal yn rhan flaenllaw o'n cynlluniau. Yng nghysgod Brexit a'r ansicrwydd y mae'r pandemig wedi'i greu, rydym wedi dyblu'n hymdrechion i sicrhau bod ein huchelgeisiau seilwaith yn cael eu gwireddu.

**8.** Rydym wedi mabwysiadu dull cyson o arfarnu a blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer dyraniadau cyfalaf. Mae'n seiliedig ar ganlyniadau a thystiolaeth, gan flaenoriaethu'n glir ac mewn ffordd sy'n hybu'r defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

**9.** Rydym wedi parhau i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael o effaith, effeithiolrwydd a gwerth am arian rhaglenni cyfalaf ar draws y Llywodraeth, a sicrhau eu bod yn dangos cysondeb cryf ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu. Lle rydym wedi nodi dargyfeiredd o'r ymrwymiadau hyn, rydym wedi adolygu'r angen amdanynt yn ofalus, gan ailddyrannu adnoddau i'r meysydd hynny a fydd yn cefnogi ein nodau yn well.

**10.** Yng Nghyllideb 2017-18, gwnaethom ddyrannu ein cyllid cyfalaf ar sail rhaglenni dros gyfnod o bedair blynedd (2017-18 i 2020-21), gan ei gwneud hi'n bosibl cynllunio'n fanwl a chael sicrwydd o gyllid er mwyn cyflawni ein hamcanion allweddol.

**11.** Mae datgan yr argyfwng hinsawdd yn 2019 wedi dylanwadu ar ein dyraniadau cyllid ar gyfer y dyfodol. Mae ein cynlluniau a'n hymrwymiadau wedi gorfod rhoi sylw penodol i'r rôl y mae buddsoddiad cyfalaf yn ei chwarae yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

**12.** Er enghraifft, yng nghyllideb ddrafft 2020-21, cafodd £140m o gyllid cyfalaf ei ddarparu mewn pecyn buddsoddi wedi'i ddylunio i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Wrth osod ein cyllidebau ar gyfer 2021-22, cafodd y rhan fwyaf o'r cyllid hwnnw ei gadw yn llinellau sylfaen adrannau, yn ogystal â dyraniad o bron i £80m o gyllid cyfalaf ychwanegol i roi cefnogaeth uniongyrchol i weithgareddau sy'n hybu datgarboneiddio ac yn gwella ein bioamrywiaeth gyfoethog ymhellach, ynghyd â'r camau rydym yn eu cymryd fel rhan o'n buddsoddiadau ehangach.

***Cynyddu'r adnoddau a fuddsoddir mewn seilwaith strategol â blaenoriaeth dros y 10 mlynedd nesaf y tu hwnt i lefelau cyllidebol a disgwyliedig.***

## Pwerau Benthyca Llywodraeth Cymru

**13.** O dan Ddeddf Cymru 2017, cynyddodd terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru o £500m i £1bn, gan ddechrau ym mlwyddyn ariannol 2018-19 a chynyddodd y swm y gallwn ei fenthyca bob blwyddyn o £125m i £150m, o fis Ebrill 2019 ymlaen.

**14.** Mae benthyca wedi bod yn hollbwysig i roi hwb i fuddsoddi yn seilwaith Cymru ond mae'n rhaid iddo fod yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Nid yw ein hagwedd at gyfalaf wedi newid. Byddwn yn defnyddio cyfalaf cyffredinol yn gyntaf cyn defnyddio ffrydiau cyllid cyfalaf drytach, fel benthyca, sydd â goblygiadau o ran refeniw.

**15.** Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi wynebu'r her barhaus o gael dyraniadau cyllid cyfalaf yn hwyr yn y flwyddyn ariannol gan Lywodraeth y DU. Er ein bod wedi croesawu cyllid ychwanegol, mae natur hirdymor cynllunio seilwaith a buddsoddi yn golygu nad yw'n bosibl defnyddio symiau mawr o gyllid cyfalaf ychydig cyn diwedd y flwyddyn.

**16.** Mae'n hanfodol ystyried hyblygrwydd cyllidebol Llywodraeth Cymru fel pecyn. Byddai llacio ein terfynau benthyca, ynghyd â chynyddu ein gallu i gario cyllid ymlaen o flwyddyn i flwyddyn, yn sicrhau ein bod yn gallu ehangu ein huchelgeisiau cyfalaf er budd Cymru.

**17.** Mae ein defnydd o fenthyca cynlluniedig wedi cael ei ystyried yn ofalus yn ystod pob cyfnod cyllideb ac nid yw wedi cael ei ddefnyddio oni bai fod yr holl ffynonellau confensiynol, rhatach o gyllid cyfalaf wedi'u defnyddio.

## Model Buddsoddi Cydfuddiannol

**18.** Cafodd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau cyfalaf mawr oherwydd prinder arian cyfalaf. Bydd y Model yn cyflymu buddsoddiad mewn prosiectau na fyddai wedi bod yn fforddiadwy fel arall ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig i'n hymdrechion i roi hwb i'r adferiad economaidd.

**19.** Bydd y cynlluniau presennol yn creu gwerth dros filiwn o bunnoedd o fuddsoddiad y mae ei angen ar frys mewn seilwaith cyhoeddus yng Nghymru, gan gynyddu'r buddion cymunedol ar yr un pryd.

**20.** Fel rhan o'r rhaglen Addysg, bydd hyd at £500m yn cael ei fuddsoddi'n ychwanegol mewn cyfleusterau Addysg ac mae disgwyl i hynny ddarparu tua 30 o ysgolion a cholegau dros y saith mlynedd nesaf.

**21.** Bydd tua £400m o wariant prosiect ar yr A465 yng Nghymru, a bydd £170m yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd yn cynhyrchu gwerth prosiect o £675m i economi ehangach Cymru.

**22.** Bydd ystod eang o fuddion cymunedol yn cael eu sicrhau drwy'r cynllun hefyd, gan gefnogi amcanion Tasglu'r Cymoedd. Mae'r buddion hyn yn cynnwys targedau dan gontract ar gyfer hyfforddiant a swyddi i bobl leol, a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol.

**23.** Mae cynyddu cyflogaeth a datblygiad sgiliau ymysg pobl ifanc yn rhan allweddol o'n blaenoriaethau ar gyfer yr ymdrech ailadeiladu. Bydd deuoli'r A465 yn darparu dros 120 o brentisiaethau, 60 o hyfforddeiaethau, dros 320 o interniaethau a thros 1,600 o gymwysterau cenedlaethol, gan greu gwaddol o sgiliau gwell.

**24.** Byddwn yn cadw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ynghyd â'n ffynonellau cyllid eraill a rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio'r Model ymhellach pan fo cyfleoedd priodol yn codi.

## Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf

**25.** Mae Bargen Twf y Gogledd yn creu'r cyfle ar gyfer bron i £1bn o fuddsoddiad ar draws rhanbarth gogledd Cymru, nid dim ond y buddsoddiad o £120m yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yr her i bob partner yw manteisio ar y synergedd rhwng y rhaglenni i gynyddu'r adenillion ar bob punt a fuddsoddir yn y rhanbarth.

**26.** Cytunwyd ar Benawdau'r Telerau ar gyfer Bargen Twf y Canolbarth ym mis Rhagfyr 2020 rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a dau awdurdod lleol y rhanbarth (Ceredigion a Phowys). Roedd hyn yn arwydd o ymrwymiad gan y ddwy lywodraeth a'r awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn cyflawni Bargen Twf i gefnogi economi canolbarth Cymru. Mae hefyd yn rhwymo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gefnogi'r Fargen Twf drwy fuddsoddiad o £55m yr un.

**27.** Dros dymor 15 mlynedd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, rhagwelir y bydd hyd at £1.3bn o fuddsoddiad yn cael ei gynhyrchu, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys: Y Fargen Ddinesig, £241m; y Sector Cyhoeddus, £330m; y Sector Preifat, £592m. Ei nod yw creu dros 9,000 o swyddi medrus sy'n cyd-fynd â chyflymu economaidd, ynni, gwyddorau bywyd a gweithgynhyrchu clyfar ar draws y rhanbarth.

**28.** Mae Bargen Ddinesig Caerdydd yn fuddsoddiad o £1.229bn dros 20 mlynedd. Mae £734m ohono wedi'i glustnodi ar gyfer cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru wedi'i reoli gan Lywodraeth Cymru, a chronfa fuddsoddi gwerth £495m wedi'i dosbarthu gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Cyllid yr UE

**29.** Hyd yma, mae £614m o gyllid yr UE wedi cael ei ymrwymo o dan raglenni 2014-2020 ar gyfer prosiectau seilwaith ledled Cymru, gan ysgogi cyfanswm buddsoddiad o £1,111m.

**30.Er** ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd bellach, mae swm a ffynhonnell y cyllid yn ei le yn dal yn aneglur. Trafodir hyn yn fanylach yn y bennod Cyllid Strategol.

**31.** Mae cyllid yr UE wedi helpu i ddatblygu a moderneiddio seilwaith drwy waith ehangu mawr mewn Prifysgolion, fel Campws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan Deallusrwydd Artiffisial, Roboteg a Systemau Peiriant-Dynol Prifysgol Caerdydd, uwchraddio ein rhwydweithiau ffyrdd a'r rhwydwaith gorsafoedd trenau, a datblygu prosiect Metro De Cymru.

**32.** Yn ogystal â chefnogi adfywiad economaidd canol trefni, datblygu atyniadau Cymru i ymwelwyr, denu cwmnïau mewn sectorau uchel eu gwerth i Gymru drwy adeiladu eiddo busnes modern, a darparu buddsoddiad mawr yn ein seilwaith digidol drwy gyflwyno band eang cyflym iawn.

***Lleihau costau cynnal a chadw a darparu seilwaith a sicrhau bod ein buddsoddiadau yn rhoi'r gwerth gorau am arian.***

**33.** Un o'r elfennau sy'n sail i'r gwaith o gyflawni Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw gwaith Swyddfa Cyflawni Prosiectau Llywodraeth Cymru. Mae'r Swyddfa'n gweithio gydag adrannau a sector cyhoeddus ehangach Cymru i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ddatblygu'r arferion gorau, a chyflawni cynigion seilwaith.

**34.** Mae'r rhaglen Gwell Achosion Busnes yn cynnwys canllawiau a thempledi ar lefel prosiectau, rhaglenni a phortffolios; caiff hyn ei ategu gan becyn hyfforddiant wedi'i achredu. Gyda'i gilydd, pwrpas y cynhyrchion hyn yw uwchsgilio swyddogion yn y sector cyhoeddus a lleihau'r ddibyniaeth a'r gwariant ar ymgynghorwyr at ddibenion datblygu achosion busnes. Yn fyd-eang, mae dros 10,000 o gynrychiolwyr wedi cael eu hyfforddi hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gontract hyfforddiant sector cyhoeddus Cymru gyfan gyda darparwr wedi'i achredu, er mwyn bodloni ei ofynion hyfforddiant mewn modd costeffeithiol.

**35.** Gan adeiladu ar dwf ymarferwyr achosion busnes yn sector cyhoeddus Cymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru Rwydweithiau Gwell Achosion Busnes yng ngogledd a de Cymru. Mae'r fforymau sector cyhoeddus gwerthfawr hyn yn darparu cyfleoedd cyfnodol i gasglu ymarferwyr achosion busnes ynghyd, gyda'r nod o rannu'r arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus a pharhau i ddatblygu arbenigedd. Yng Nghymru, mae aelodaeth y Rhwydwaith yn cynnwys tua 300 o swyddogion o bron i 40 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

**36.** Rydym wedi parhau i ddarparu rhagor o sicrwydd a rheolaeth drwy broses asesu risg a ddefnyddir ar gyfer holl raglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru, a hynny drwy ein Canolfan Sicrwydd Integredig. Mae'r 'ganolfan' yn sicrhau sicrwydd annibynnol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau drwy nifer o wahanol gynhyrchion sicrwydd, fel adolygiadau Gateway yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau. Mae'r broses sicrwydd yn asesu'r rhaglen/prosiect ar gamau allweddol yn ei oes yn erbyn nifer o ffactorau, gan gynnwys y capasiti i gyflawni ar amser, i'r gost a'r ansawdd gofynnol, ac i sicrhau buddion datganedig y rhaglen/prosiect.

**37.** Ers 2018, mae'r 'ganolfan' wedi llwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth o'r 'cynnig sicrwydd' yn Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus ehangach Cymru. Mae nifer yr adolygiadau sicrwydd wedi cynyddu'n sylweddol, dros 100%, yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ben hynny, mae'r 'ganolfan' bellach yn cynnig ystod ehangach o gynhyrchion sicrwydd, sy'n helpu Prif Berchnogion Cyfrifol i deilwra adolygiadau yn benodol i anghenion eu rhaglen neu eu prosiect.

## Caffael

**38.** Yn 2012, fe wnaethom gyhoeddi Datganiad Polisi Caffael cyntaf Cymru yn nodi'n glir yr arferion caffael a'r camau gweithredu penodol a fydd yn ofynnol gan bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru. Nod y Datganiad Polisi Caffael Cymru oedd helpu i sicrhau mwy o gaffael da ledled Cymru i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac i greu manteision lleol. Roedd nifer o'i egwyddorion yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar y pryd, fel Manteision Cymunedol.

**39.** Yng ngwanwyn 2015, cafodd Datganiad Polisi Caffael Cymru ei adnewyddu i ganolbwyntio'n bennaf ar effaith y Cyfarwyddebau Ewropeaidd newydd a mesur mabwysiadu.

**40.** Fe wnaethom gyhoeddi'r Datganiad Polisi Caffael diwygiedig ym mis Mawrth 2021, gan dynnu sylw at y weledigaeth o gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyfrwng pwerus sy'n gallu arwain at newid parhaus er mwyn sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer llesiant Cymru. Bydd Datganiad Polisi Caffael Cymru yn helpu i ddiffinio ein cynnydd yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**41.** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi camau gweithredu'r sector cyhoeddus i hybu datgarboneiddio drwy adnoddau dadansoddi gwariant caffael a chanllawiau i bob corff cyhoeddus i'w helpu i flaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael ag allyriadau carbon. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys y Dangosfwrdd Datgarboneiddio, a fydd ar gael yn 2020, i helpu'r sefydliadau hynny sydd ei angen i ganfod eu categorïau gwariant allyriadau uchaf a sefydlu llinell sylfaen allyriadau sefydliadol. Yn dilyn y Dangosfwrdd Datgarboneiddio, fe wnaethom gyhoeddi Nodyn Polisi Caffael newydd ar gyfer Cymru sy'n edrych tua'r dyfodol ym mis Tachwedd 2021 sy'n rhoi arweiniad ar strategaethau ymarferol i helpu sefydliadau i gynllunio a chreu camau datgarboneiddio.

**42.** Roeddem wedi cyflwyno defnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau ar bob contract adeiladu a seilwaith gwerth £2m neu fwy ac wedi arwain drwy esiampl, gan fynnu bod Cyfrifon Banc Prosiectau'n cael eu defnyddio ar gontractau sy'n cael eu darparu neu eu hariannu'n rhannol gan Adrannau Llywodraeth Cymru.

**43.** Bu'r tîm Cyflawni Masnachol yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, i leihau nifer y fframweithiau a oedd, er eu bod yn cael eu gosod yn genedlaethol, yn canolbwyntio ar sicrhau llesiant rhanbarthol a lleol drwy naill ai gyfleoedd contractio uniongyrchol neu ymyriadau'r gadwyn gyflenwi.

**44.** Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y sector cyhoeddus i lunio Cynllun Gweithredu Digidol ar gyfer caffael, sy'n rhan o Strategaeth Ddigidol Sector Cyhoeddus Cymru.

**45.** Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i baratoi ar gyfer gadael yr UE. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i wneud darpariaeth o fewn deddfwriaeth San Steffan ar gyfer diwygio caffael. Rydym yn gweithio'n agos gyda thîm Bil Diwygio Caffael y DU i ddatblygu'r Bil a sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n llawn flaenoriaethau polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer caffael cyhoeddus. O fewn y Bil, y bwriad yw y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru roi sylw dyledus i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru.

**46.** Roedd argyfwng Covid-19 ym mis Mawrth 2020 wedi golygu bod y proffesiwn caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydweithio mwy ac yn ailffocysu adnoddau mewn perthynas â darparu cyfarpar a gwasanaethau hanfodol fel Cyfarpar Diogelu Personol ac Olrhain Cysylltiadau.

***Sefydlu a chynnal system newydd o fonitro gwariant ar seilwaith strategol mawr yng Nghymru, gan wella rheolaeth a phresenoldeb cyhoeddus***

## Llif Prosiectau

**47.** Pan gyhoeddwyd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, dyma oedd y tro cyntaf inni gofnodi manylion prosiectau o arwyddocâd cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gwerth mwy na £15m. Roedd y llif prosiectau cyntaf yn rhestru 73 o gynlluniau Llywodraeth Cymru, gyda chyfanswm gwerth o tua £4bn.

**48.** Ers hynny rydym wedi darparu diweddariadau rheolaidd er mwyn cyflwyno darlun parhaus o'r buddsoddiad arfaethedig mewn seilwaith yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu hwn wedi helpu i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat o ran buddsoddi; i hwyluso cynllunio strategol ac i hybu cydweithredu.

**49.** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid cyhoeddus a phreifat i wella'r llif prosiectau ym mhob fersiwn. Mae cyhoeddiadau dilynol wedi cael eu hymestyn i gynnwys manylion buddsoddiad mewn seilwaith ar draws Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol (cynlluniau dros £2m) a buddsoddiad preifat yn y sectorau ynni, rheilffyrdd a dŵr. Cyrhaeddodd hyn ei anterth yn niweddariad gwanwyn 2021, a oedd yn cynnwys dros 460 o brosiectau a rhaglenni gyda buddsoddiad posibl o dros £29bn, ac amcangyfrif o £12.5bn o gymorth Llywodraeth Cymru.

**50.** Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid ac i sicrhau bod y llif prosiectau'n dal yn adnodd perthnasol ar gyfer cynllunio, a'i fod yn cynnwys ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer seilwaith ledled Cymru.

## Llwyddiannau

**51.** Roedd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn amlinellu ein blaenoriaethau seilwaith ar gyfer y degawd o'n blaenau ac er bod llawer o'r uchelgeisiau hyn yn dal yr un fath, mae rhai wedi gorfod newid eu pwyslais neu wedi cael eu disodli wrth i'r cyd-destun economaidd a gwleidyddol newid.

**52.** Roedd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn amlinellu ein cynlluniau buddsoddi a chyflawni ar gyfer ein huchelgeisiau seilwaith cymdeithasol ac economaidd. Dyma'r blaenoriaethau a nodwyd yn wreiddiol yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru:

- Gwella rhwydweithiau trafnidiaeth.
- Gwella rhwydweithiau telathrebu.
- Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn tai ac adfywio.
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus.
- Gwella ansawdd yr ystad addysg.
- Datblygu ein hardaloedd menter.

***Gwella cysylltiadau trafnidiaeth, yn enwedig cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin yn y Gogledd ac yn y De***

## Ffyrdd

**53.** Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud yn gwella'r cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn ne Cymru drwy gynnydd prosiectau'r A465, yn arbennig Adran 2 (Bryn-mawr i Dredegar) a fydd yn cael ei gwblhau yn 2021, ac Adrannau 5 a 6 (Dowlais Top i Hirwaun) lle bydd y gwaith adeiladu'n dechrau yn 2021 gydag amserlen gwblhau o 5 mlynedd.  Mae gennym gynlluniau ychwanegol i wella'r A40 hefyd.

**54.** Yng ngogledd Cymru, mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar yr A55 o A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2022. Mae cynnydd wedi'i wneud ar y drydedd bont dros y Fenai hefyd, ond nid oes dyddiadau adeiladu ar hyn o bryd.

**55.** Un o'r penderfyniadau mwyaf arwyddocaol a wnaed dros y cyfnod hwn yw peidio â bwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4. Cafodd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ei sefydlu'n syth ar ôl y penderfyniad hwn a chyhoeddwyd ei adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2020.

## Rheilffyrdd

**56.** Ymysg y meysydd eraill nad ydynt wedi'u datganoli'n llawn ond y mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant hanfodol ynddynt mae gwella gwasanaethau rheilffyrdd, yn bennaf trydaneiddio'r brif linell i Abertawe a Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n rhedeg i'n dinasoedd arfordirol.

**57.** Cafodd Trafnidiaeth Cymru (TrC) ei greu yn 2016 i weithredu gwasanaethau o dan fasnachfraint Cymru a'r Gororau, yn ogystal â pherchnogi a chynnal a chadw seilwaith Llinellau Craidd y Cymorth sy'n ymestyn i'r gogledd o Gaerdydd.

**58.** Mae gwasanaethau rheilffyrdd wedi cael eu gwella ledled Cymru. Mae hyn cynnwys cynyddu amlder ac archebu fflyd newydd o gerbydau rheilffyrdd a fydd yn gweithredu ar linellau'r Cambrian, y Gororau, arfordir gogledd Cymru, a Cheltenham. Mae gorsafoedd newydd wedi cael eu creu yn Bow St, Pye Corner, Tref Glynebwy, ac Abergwaun ac Wdig, ac mae cynllun cyflawni ar gyfer gorsaf newydd yn Sanclêr wedi'i gytuno.

## Hedfan

**59.** Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn borth hollbwysig i Gymru ar gyfer busnes, twristiaid a theithwyr cyffredinol fel ei gilydd. Mae'n hanfodol i ddatblygiad economaidd Cymru bod gennym gysylltedd rhyngwladol cryf yn ôl ac ymlaen o Gymru, yn ogystal â drws agored, croesawgar i dwristiaid.

**60.** Yn 2013, prynodd Llywodraeth Cymru Faes Awyr Caerdydd fel ychwanegiad strategol i seilwaith trafnidiaeth Cymru ac i sicrhau ei ddyfodol ar ôl cyfnod estynedig o ddirywiad masnachol, yn ogystal â datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel a llwybrau ychwanegol i deithwyr.

**61.** Cyn pandemig COVID-19, roedd twf parhaus yn nifer y teithwyr ym Maes Awyr Caerdydd. Yn ôl ystadegau'r Awdurdod Hedfan Sifil, roedd nifer y teithwyr yn nherfynfeydd Maes Awyr Caerdydd wedi codi o 1.013m yn 2012 i 1.655m yn 2019. Yn 2020, gostyngodd y nifer i 0.219m o ganlyniad i'r pandemig.

***Gwella rhwydweithiau telathrebu a sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael mynediad i gyfleusterau band eang digonol at eu hanghenion economaidd***

**62.** Gan ddechrau cyflawni ym mis Ionawr 2013, darparodd prosiect Cyflymu Cymru fynediad at fand eang cyflym iawn i 733,000 eiddo ar hyd a lled Cymru. Roedd hyn wedi codi canran yr eiddo o sylfaen o 44% o gartrefi ac eiddo busnes i 95% erbyn diwedd y prosiect yn 2018.

**63.** Mae'r prosiect sy'n olynu Cyflymu Cymru yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yn darparu mynediad at fand eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit i 39,000 eiddo arall erbyn 2023.

***Cefnogi datblygiad y diwydiant ynni yng Nghymru***

**64.** Yn 2019, roedd yr hyn sy'n cyfateb i 51% o drydan Cymru yn dod o ynni adnewyddadwy. Y ffigur yn 2012 oedd 18%. Rydym wedi cyrraedd 83% o'r targed perchnogaeth leol ac mae bron i 200 o brosiectau ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth gymunedol. Mae seilwaith cynhyrchu ynni dan berchnogaeth leol yn gyfle cryf i gadw arian yn yr economi leol, gan gyfrannu at ffyniant.

**65.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gryf i ddatgloi potensial ynni dyfroedd Cymru ac rydym yn parhau i gasglu arbenigedd o bob rhan o'r llywodraeth, y diwydiant a'r byd academaidd ynghyd i ganolbwyntio ar ddarparu ynni'r môr.

**66.** Cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru ei fabwysiadu yn 2019. Mae'r Cynllun Morol yn darparu ar gyfer cynhyrchu ynni ac mae canllawiau gofodol yn cael eu datblygu i helpu i leoli seilwaith cynhyrchu yn yr ardaloedd lleiaf amgylcheddol sensitif. Ar ben hynny, rydym wedi comisiynu'r Offshore Renewable Energy Catapult i gynnal asesiad o'r gofynion seilwaith grid a phorthladdoedd i gefnogi'r diwydiant hwn.

**67.** Rydym yn bwriadu ariannu Ynni Môr Cymru i'w alluogi i ddod â datblygwyr technoleg, y gadwyn gyflenwi, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus ynghyd i sefydlu Cymru fel arweinydd byd mewn ynni môr cynaliadwy, gan gynnwys cynhyrchu gwynt ar y môr sy'n arnofio (FLOW), gan wneud cyfraniad sylweddol i economi carbon isel.

**68.** Ym mis Hydref 2018, cafodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ei lansio, gan gasglu ynghyd y gwasanaethau cymorth a oedd wedi'u darparu gynt fel Twf Gwyrdd Cymru a'r Gwasanaeth Ynni Lleol. Mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus a rhai eraill sy'n dymuno datblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni neu ynni adnewyddadwy. Mae'n cynnig cymorth technegol, ariannol a masnachol i gyrff cyhoeddus ac i gymunedau. Gyda'i gilydd, mae Rhaglen Cyllid Cymru a Chronfa Benthyciadau Ynni Cymru yn darparu benthyciadau, gan gynnwys benthyciadau di-log neu log isel, i gefnogi gosodiadau.

***Buddsoddi mewn tai – yn benodol cefnogi'r farchnad dai drwy fentrau megis y cynllun NewBuy arfaethedig, y Bond Tai, cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a gwella'r stoc dai bresennol, gan gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni drwy Arbed a Nyth***

**69.** Ers 2012, mae lefelau uwch nag erioed wedi cael eu buddsoddi mewn tai a'n rhaglenni cartrefi clyd – tua £3.5bn.

**70.** Cafodd Cymorth i Brynu - Cymru ei agor ym mis Ionawr 2014. Mae'r cynllun wedi gwneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o gefnogi pobl sy'n dymuno bod yn berchen ar gartref a adeiledir o'r newydd ond y mae angen cymorth arnynt i wneud hynny. Ar ben hynny, mae wedi bod yn ffynhonnell cymorth allweddol i'r diwydiant tai, i gadwyni cyflenwi cysylltiedig ac i bawb sy'n rhan o'r broses o brynu a gwerthu tai. Ers dechrau'r cynllun hyd 31 Mawrth 2021, mae'r cynllun wedi cael cyllideb o £535m ac wedi helpu unigolion a theuluoedd yng Nghymru i brynu bron i 12,000 o gartrefi.

**71.** Mae'r Bond Tai, neu'r Grant Cyllid Tai, wedi llwyddo i ddwyn ymlaen y gwaith o adeiladu tua 2,500 o gartrefi newydd a fyddai wedi gorfod aros blynyddoedd fel arall, nes bod cyllid traddodiadol ar gael. Cafodd y grant refeniw hwn ei ddatblygu fel ffordd amgen o ariannu tai fforddiadwy, hy rhent cymdeithasol a chanolradd, heb orfod troi at gyllid cyfalaf.

**72.** Mae'r Grant Cyllid Tai'n darparu cyllid refeniw i helpu i ad-dalu cyfran o'r costau ariannu (llog a chyfalaf). Roedd y grant hwn ar gael i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o adeiladu cymysgedd o dai fforddiadwy.

**73.** Yn 2013-14, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i £4m y flwyddyn o gyllid refeniw am 30 mlynedd er mwyn ariannu'r gwaith o adeiladu 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol ar hyd a lled Cymru.

**74.** Dechreuodd yr ail gam yn 2017-18 a bydd ffrwd cyllid refeniw flynyddol o £9m ar gael. O ganlyniad i ail gyfran y cyllid refeniw, dyblodd y rhaglen Grant Cyllid Tai mewn maint, gyda'r nod o gyflenwi hyd at 1,500 yn ychwanegol o dai fforddiadwy newydd.

**75.** Cafodd Safon Ansawdd Tai Cymru ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2002 i wella safon a chyflwr ffisegol tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Safon yn berthnasol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac i awdurdodau lleol â stoc tai rhent cymdeithasol. Buddsoddwyd ym mhob un o'r 230,000 o dai presennol sy'n rhan o'r cynllun ac mae hyn wedi codi safon y rhan fwyaf o'r cartrefi er mwyn iddynt gyrraedd band D y Dystysgrif Perfformiad Ynni (SAP 65).

**76.** Mae'r rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru wedi buddsoddi £1.8bn mewn tai cymdeithasol hyd yma. Bydd buddsoddiad o £108m y flwyddyn yn parhau i helpu landlordiaid cymdeithasol i gyrraedd a chynnal y safon bresennol, er mwyn sicrhau cartrefi teilwng y gellir eu cynhesu'n fforddiadwy.

**77.** Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â thlodi tanwydd a gyhoeddwyd yn 2018 yn awgrymu bod tlodi tanwydd wedi mwy na haneru yng Nghymru rhwng 2008 a 2018.

### *Darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon a darbodus*

**78.** Mae'r dymuniad i ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy darbodus ac effeithlon wedi bod yn amcan allweddol i'r mwyafrif helaeth o fuddsoddiadau cyfalaf y GIG, ac mae hynny'n wir o hyd. Yn ystod y cyfnod ers 2012, mae buddsoddiad parhaus, sylweddol wedi'i wneud yn seilwaith y GIG ar gyfer adeiladau, seilwaith digidol, cyfarpar a cherbydau.

**79.** Mae cyflawni Ysbyty Athrofaol y Grange – ysbyty o'r radd flaenaf werth £360m – yn 2020 gyda'i dull adeiladu oddi ar y safle modern yn dangos ar raddfa fawr yr hyn gellir ei wneud i gyflawni modelau clinigol newydd.

**80.** Rydym wedi buddsoddi cyfanswm o dros £640m mewn cyllid cyfalaf cyffredinol i awdurdodau lleol dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ac mae'r grant cyfalaf cyffredinol blynyddol wedi codi o tua £54m yn 2011-12 i bron i £90m yn 2021-22.

### *Gwella ansawdd yr ystad addysg, yn enwedig ysgolion*

**81.** Cafodd £1.6bn ei fuddsoddi ym Mand A (2014-19) ein Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif. Drwy ddull datblygu ar y cyd, cafodd y targed gwreiddiol, sef cyflawni 150 o brosiectau, ei basio. Cafwyd 175 o brosiectau ysgolion a cholegau newydd a rhai wedi'u hailwampio ar hyd holl ranbarthau Cymru. Roedd y buddsoddiad hwn wedi darparu gwell amgylcheddau dysgu i dros 100,000 o ddisgyblion.

**82.** Dechreuodd Band B yn 2019 gyda buddsoddiad ychwanegol o £2.3bn a 200 o brosiectau arfaethedig ar gyfer ysgolion a cholegau newydd neu wedi'u hailwampio. Ar hyn o bryd mae 57 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo o dan y buddsoddiad hwn; o'u plith, mae 9 wedi cael eu cwblhau ac mae 27 arall wrthi'n mynd rhagddynt. Mae 43 o brosiectau yng nghanol y broses achos busnes ar hyn o bryd hefyd.

### *Datblygu ein Hardaloedd Menter*

**83.** Rydym wedi sefydlu wyth Ardal Fenter ar draws Cymru. Mae'r rhain wedi'u dynodi yn yr ardaloedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi creu'r amodau gorau posibl i fusnesau ffynnu.

**84.** Hyd yma mae 967 o fusnesau yn yr Ardaloedd wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, gan ddenu dros £360m o fuddsoddiad gan y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae hyn wedi helpu i greu neu ddiogelu cyfanswm o 12,257 o swyddi ar draws yr Ardaloedd ers eu sefydlu yn 2012.